



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 11EG RHAGFYR, 2025

**(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB A BWRIEDIR
CAEL TORIAD I GINIO AM 12.30YP – 1.30YP)**

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2025)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen
John Pughe
Dyfrig Siencyn
Sian Williams

Jina Gwyrfai
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Rhys Tudur
Geraint Wyn Parry

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
{sedd wag}	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Gweno Glyn Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Sharon Roberts	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Elise Poulter	NEU
Gwilym Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 22

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025 fel rhai cywir.

5. STRATEGAETH YSGOLION

23 - 103

I graffu ar y Strategaeth Ysgolion 2026 – 2036 ddrafft.

6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

104 - 187

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Addysg.

Bwriedir cael toriad i ginio am 12.30yp – 1.30yp

7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI

188 - 240

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Economi.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CYLLID

241 - 275

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Cyllid.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 16/10/25

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfaï, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gwynfor Owen a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Economaidd), Nia Bowden (Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 - Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 - Cynghorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Arwel Evans (Rheolwr Caffael), Miriam Fflur Hughes (Ymgynghorydd Caffael).

Yn bresennol ar gyfer eitem 8 - Cynghorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elwyn Jones a Gwilym Jones (NASUWT).

Diolchwyd i'r Cynghorydd Iwan Huws am ei waith ar y pwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Sharon Roberts fuddiant personol ar gyfer eitem 5, 7 a 8. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2025 fel rhai cywir.

5. STRATEGAETH ECONOMI GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad, gan nodi bod yr adroddiad wedi'i lunio yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda nifer o fusnesau a sefydliadau. Nodwyd bod y sefyllfa economaidd bresennol yn un heriol gyda busnesau'n parhau i wynebu sawl newid a her, gan gynnwys cynnydd mewn costau, cyflymder y trawsnewid digidol a'r angen i ddatblygu sgiliau priodol yn gynaliadwy ar draws y sir.

Nodwyd bod datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at bosibilrwydd o £550 miliwn o gyllid i hybu'r economi yng Nghymru, ond nad oedd eglurder hyd yma ynghylch i ble y byddai'r arian hwnnw'n cael ei neilltuo. Nodwyd bod y sefyllfa'n aneglur, gan bwysleisio bod lefel y cyllid a dderbyniwyd wedi gostwng yn sylweddol. Ymhelaethwyd y derbyniwyd oddeutu £20 miliwn ddwy flynedd yn ôl gyda £8.5 miliwn wedi ei dderbyn eleni, ac y gallai'r ffigwr hwn leihau ymhellach y flwyddyn nesaf.

Pwysleisiwyd, yn sgil hynny, bod angen strategaeth glir i amlinellu'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Nodwyd, yn dilyn derbyn mewnbwn gan Aelodau'r Pwyllgor ym mis Chwefror ar y blaenoriaethau ar gyfer cynyddu ffyniant trigolion a chymunedau Gwynedd yn y dyfodol, fod drafft cychwynnol o'r strategaeth hirdymor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn i Aelodau gynnig mewnbwn ac adborth cyn i'r ddogfen gael ei chadarnhau.

Pwysleisiwyd bod y strategaeth hirdymor dan sylw yn gosod y cyfeiriad cyffredinol, gyda chynllun gweithredu'n eistedd oddi tano i amlinellu'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r strategaeth, ac y byddai'r cynllun hwnnw'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol. Nodwyd nad strategaeth y Cyngor yn unig oedd hon, ond strategaeth ar gyfer y sir gyfan, gyda'r bwriad o barhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i gwblhau'r ddogfen derfynol.

Eglurwyd y bwriad o sefydlu Fforwm Economi Gwynedd i gydlynu'r gwaith gyda phartneriaid o bob sector ac i adeiladu ar y profiadau cadarnhaol o weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nodwyd mai'r camau nesaf fyddai derbyn mewnbwn ychwanegol, sefydlu Fforwm Economi Gwynedd, cadarnhau cynnwys y strategaeth, a chyflwyno'r ddogfen derfynol i'r Cabinet ac yna i'r Cyngor Llawn.

Diolchwyd i'r Pwyllgor am eu 17 sylw yng nghyfarfod 13 Chwefror 2025, a nodwyd bod y rhain wedi cael eu hystyried wrth lunio'r strategaeth.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd ei bod yn bleser gweld y gwaith yn dod i ffrwyth, a holwyd am ragor o wybodaeth am Fforwm Economi Gwynedd, yn benodol ohono ran yr aelodaeth a pha mor aml y byddai'n cyfarfod. Mewn ymateb, nodwyd mai'r bwriad yw cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sectorau sy'n bwysig i Wynedd, megis amaethyddiaeth, twristiaeth, addysg, prifysgolion a cholegau, ynghyd â pherchnogion busnesau lleol, entrepreneuriaid ac arbenigwyr yn y maes economaidd. Pwysleisiwyd bod cynrychiolaeth y sector preifat yn elfen hanfodol o'r Fforwm er mwyn sicrhau cyngor ac arbenigedd ymarferol.

Cwestiynwyd ynghylch cyfeiriadau at ardaloedd difreintiedig Gwynedd yn y strategaeth, gan nodi nad oedd cyfeiriad penodol at feithrin twf economaidd mewn ardaloedd megis Meirionnydd a Dwyfor. Pwysleisiwyd bod angen mwy o bwyslais ar yr ardaloedd hyn o fewn y strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn bwynt teg ac y dylid tanlinellu'r elfen ddaearyddol yn gliriach o fewn y ddogfen. Eglurwyd y byddai'r cynlluniau gweithredu o dan y strategaeth yn cynnwys ystyriaeth o'r materion daearyddol, a phwysleisiwyd bod yr adran yn ymdrechu i sicrhau tegwch ar draws y sir gyfan. Er bod llai o gyllid ar gael, nodwyd mai'r bwriad yw cynnal dosbarthiad teg o'r adnoddau sydd ar gael.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar sefyllfa Llanbedr a Thrawsfynydd. Mewn ymateb, eglurwyd bod y prosiect datblygu yn Llanbedr yn parhau i fod yn gysylltiedig â datblygiad y ffordd newydd, a bod gobaith y byddai'r gwaith yn symud ymlaen erbyn mis Mai nesaf. Yn achos Trawsfynydd, nodwyd y cyhoeddwyd yn ddiweddar buddsoddiad o £70 miliwn i'r prosiect dadgomisiynu dros y tair blynedd nesaf, gyda'r disgwyl y byddai hyn yn creu rhwng 150 a 200 o swyddi lleol. Pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r cyfleoedd yn yr ardal, gan gynnwys datblygu parc gwyddoniaeth ac elfennau megis canolfannau data a deallusrwydd artifisial.

Pwysleisiwyd o ran Llanbedr bod angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i glustnodi arian cyn mis Mai, gan nodi nad oedd yn deg disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ddarparu'r cyllid. Nodwyd yr angen i barhau i bwysu dros barhad y proses dadgomisiynu safle Trawsfynydd, gan nodi'r perygl i'r broses lithro gan nad yw'r cynlluniau ariannol wedi cynyddu yn unol â chwyddiant. Mewn ymateb, nodwyd bod y pwynt hwn wedi cael ei godi gyda'r cyrff perthnasol ym Mwrdd Trosolwg Trawsfynydd.

Nodwyd pryder ynghylch diffyg siaradwyr Cymraeg mewn swyddi uwch a'r dylanwad y gallai hyn ei gael ar gyfran y gweithlu di-Gymraeg. Pwysleisiwyd yr angen i fonitro'r sefyllfa a sicrhau tegwch i siaradwyr Cymraeg o fewn gweithleoedd cyhoeddus a phreifat.

Cwestiynwyd ynghylch twf yr economi yn y dyfodol ac effaith costau ychwanegol megis y dreth yswiriant cenedlaethol ar fusnesau bach, yn enwedig yn y sector twristiaeth. Nodwyd bod nifer o fusnesau'n pryderu ynghylch y

mater hwn ac, o ganlyniad, wedi lleihau eu gweithlu. Cwestiynwyd ymhellach ynghylch pa grantiau oedd ar gael i gynorthwyo'r busnesau hyn, yn enwedig y rhai gwledig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod diffyg eglurder ynghylch grantiau gan eu bod yn newid yn gyson, gyda Llywodraeth Cymru yn pennu'r dyraniadau o flwyddyn i flwyddyn.
- Bod y weledigaeth economaidd yn seiliedig ar "dwf at bwrpas" yn hytrach na "thwf er mwyn twf", gyda ffocws ar gynnal a gwneud y gorau o'r hyn oedd ar gael a chynorthwyo busnesau lleol i arbed costau, cynyddu incwm ac addasu i economi sero net.
- Bod y strategaeth yn cynnwys cyfleoedd newydd oedd yn addas ac yn briodol i Wynedd fel ardal, gan geisio manteisio ar gryfderau lleol ac elfennau daearyddol megis safleoedd fel Trawsfynydd.
- Byddai'r Cynlluniau Gweithredu Blyneddol yn nodi'r camau ymarferol a'r prosiectau lleol fyddai'n cyfrannu at y nodau hyn, gan ddibynnu'n sylweddol ar gyllid allanol a chyfraniad y sector preifat.
- Bod angen gwarchod y sefyllfa bresennol wrth edrych i'r dyfodol.

Cwestiynwyd ble y rhagwelwyd twf economaidd yn y blynedd oedd nesaf, gan bwysleisio'r angen i greu swyddi o ansawdd da er mwyn cadw pobl ifanc yn y sir. Mewn ymateb, nodwyd bod mynediad i'r grid trydan yn hollbwysig, gyda datblygiadau megis canolfannau data, datblygiadau amaethyddol newydd yng Nglynllifon a phrosiectau ynni glân ar y gweill. Nodwyd, er bod y sefyllfa ariannol yn heriol, y gobaith yw y daw ffyniant a thwf gyda'r dechnoleg newydd. Pwysleisiwyd y byddai'r rhaglen o gynlluniau yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu blyneddol. Nodwyd y bwriad i'w hadolygu bob blwyddyn er mwyn adnabod y prosiectau perthnasol wrth i amgylchiadau a diddordeb y sector breifat ddatblygu.

Ynghylch ceisiadau cynllunio, mynegwyd ymwybyddiaeth o fusnesau gyda'r bwriad o symud i Wynedd i ddatblygu eu gweithgarwch ond ddim wedi derbyn caniatâd cynllunio. Cwestiynwyd faint o rwystredigaeth oedd hyn yn ei greu i ddatblygu economi Gwynedd, ac a fyddai cynrychiolaeth o'r maes cynllunio yn rhan o Fforwm Economi Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod cynllunio'n faes hanfodol i lwyddiant economaidd ac yn cael ei grybwyll yn y strategaeth. Nodwyd ymhellach y byddai cynrychiolaeth o'r maes cynllunio yn rhan o Fforwm Economi Gwynedd.

Nodwyd pryder ynghylch natur feddal y strategaeth o ran defnydd iaith, gyda chyfeiriad at eiriau megis 'cefnogi' ac 'hyrwyddo', yn ogystal â'r hwylder wrth dderbyn y ddogfen ddrafft ar gyfer 2025-26. Mewn ymateb, nodwyd bod dogfennau strategol yn ddogfennau cyfeiriadol ac felly'n tueddu i fod yn feddal eu naws, a bod y cynlluniau gweithredu yn cynnwys y camau pendant. Nodwyd bod hwylder yn derbyn setliad cyllid eleni wedi arwain at oedi wrth lunio'r gwaith, ac y bu'n rhaid gweithredu o fewn cyfnod ariannol byr.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg sicrwydd ynghylch dyfodol grantiau, gan gyfeirio at y rhaglenni a ddaw i ben ym mis Mawrth 2026. Mewn ymateb, nodwyd bod sawl rhaglen lwyddiannus wedi bod ar waith dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi'u hariannu'n llawn gan grantiau. Nodwyd bod ansicrwydd

ynghylch cyllid parhaus yn creu ansicrwydd i staff y Cyngor ynglŷn â'u cytundebau gwaith. Pwysleisiwyd bod dros hanner gweithlu'r adran ar gontractau tymor byr oherwydd dibyniaeth ar grantiau, gan greu her o ran cadw staff profiadol. Nodwyd bod yr adran yn pryderu ynglŷn â hyn a blaenoriaethir ymdrechu i dderbyn y cyllid grant yma ar gyfer flwyddyn nesaf.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â chynlluniau economi sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac ymdrechion i ddenu pobl yn ôl i Wynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adran wedi bod yn gweithio ar y rhaglen Arfor dros y tair blynedd diwethaf gyda chyllideb o £11 miliwn, ond eleni dim ond arian pontio a dderbyniwyd. Pwysleisiwyd, er hyn, y bydd y gwersi sydd wedi'u dysgu a'r ymchwil a wnaed dros y tair blynedd diwethaf, megis beth sy'n bwysig i bobl ifanc a pha amodau ac amgylchiadau fyddai'n eu denu yn ôl, yn parhau i gael eu defnyddio. Nodwyd bod y mater yn flaenoriaeth o fewn y strategaeth ac felly'n cael ei flaenoriaethu mewn ceisiadau am grantiau er mwyn parhau i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch cydweithio rhwng yr Adran Economi a Chymuned a'r Adran Amgylchedd i sicrhau bod y strategaeth yn cael ystyriaeth lawn wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd gael ei ddatblygu. Mewn ymateb, nodwyd bod cysylltiad clir rhwng y strategaeth a'r cynllun datblygu, ac y byddai'r ddwy strategaeth yn symud i'r un cyfeiriad. Nodwyd bod perthynas waith agos yn bodoli ar gyfer prosiectau mawr, a bod yr Adran yn amlygu pwysigrwydd y cynlluniau i'r economi leol ac yn cynnig eu sylwadau wrth i'r prosesau cynllunio symud ymlaen.

Holwyd am ragor o fanylion ynghylch gwerthusiad y rhaglen Arfor. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwerthusiad wedi'i gomisiynu ac wedi'i rannu gyda'r pedair sir, a'i fod yn dangos pa gynlluniau oedd wedi llwyddo orau, gan helpu i adnabod wrth symud ymlaen pa fath o ymyraethau sy'n gwneud y mwyaf o wahaniaeth. Nodwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r adroddiad erbyn Rhagfyr 2025, ar ôl cytuno arno gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y byddai'r canfyddiadau'n llywio'r gwaith i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw at y diffyg trafodaeth rhwng yr Adran Amgylchedd a'r Adran Economi a Chymuned yng nghyswllt ceisiadau cynllunio amrywiol. Nodwyd yr angen am well cyfathrebu rhwng yr Adrannau yn enwedig o ran datblygiadau llai a datblygiadau mewn ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, nodwyd bod y berthynas waith ar brosiectau mawr yn gadarn, ond y byddai'r adran yn trafod gyda'r Adran Amgylchedd sut i ymestyn hyn i brosiectau llai.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi'r gwaith sy'n digwydd yn Llanbedr mewn perthynas â datblygiadau dronau, gan nodi bod y datblygiadau hyn o fudd i'r maes amaethyddiaeth. Mewn ymateb, pwysleisiwyd nad oedd unrhyw waith milwrol ar y safle ac y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r datblygiad.

Nodwyd sylw bod cynhyrchu ynni glân a chynlluniau hydro ddim yn ddiwydiant gyda photensial ar gyfer twf ar hyn o bryd, gan fod y prisiau a gynigir am y trydan hwn gan y Llywodraeth wedi gostwng yn sylweddol.

Mynegwyd barn bod y cynllun cyflawni yn gorbwysleisio ardal Arfon. Nodwyd bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau sylfaenol megis gwaith saer coed, plymwr a thrydanwr o fewn y diwydiant adeiladu wrth lunio cynlluniau hyfforddi.

Nodwyd bod angen adrodd yn fwy rheolaidd ar y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd drwy gynlluniau'r adran, gan gynnwys gwybodaeth ar lefel wardiau, er mwyn dangos effaith y buddsoddiad ar bobl Gwynedd.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn y strategaeth gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Mynegi pryder ynghylch argaeledd grantiau i ardaloedd difreintiedig fel Gwynedd, a mynegi'r gobaith y bydd cyfartaledd a thegwch o fewn y Sir o ran dosbarthiad adnoddau a chefnogaeth.**
- 3. Nodi pwysigrwydd bod yr Adran Economi a Chymuned yn cydweithio gyda'r Adran Amgylchedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cyfarch yr angen i ddenu swyddi a busnesau i'r Sir. Yn yr un modd, cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.**
- 4. Awgrymu bod strwythur clir yn cael ei roi ar waith i adolygu'r hyn a gyflawnwyd ar ddiwedd blwyddyn yn erbyn y cynllun cyflawni.**

6. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg. Nodwyd bod y Gyfundrefn Addysg Drochi wedi bod yn destun trafodaeth ar sawl achlysur blaenorol gan y Pwyllgor, a bod croeso i'r diddordeb parhaus yn y maes gan ei fod yn un hollbwysig i'r sir. Pwysleisiwyd bod gan Wynedd gyfle unigryw fel sir i sicrhau bod plant sy'n cyrraedd yn hwyr i'r ardal yn cael y cyfle i ddatblygu sgil hanfodol, sef yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i bawb yng Ngwynedd ac yn agor drysau o ran cyfleoedd cyflogaeth a diwylliant. Pwysleisiwyd bod hyn yn hanfodol, mewn sir lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, bod pob plentyn yn gallu manteisio'n llawn ar bopeth sydd ar gael iddynt.

Nodwyd y cyhoeddwyd dau adroddiad ers i'r maes gael ei drafod diwethaf, sef adroddiad gan Brifysgol Bangor ac adroddiad gan Estyn. Pwysleisiwyd nad oedd y system drochi flaenorol wedi cael ei harolygu gan Estyn, ond erbyn hyn bod y system wedi'i chofrestru fel endid addysgol ac felly'n derbyn arolygiad Estyn llawn fel yr ysgolion. Nodwyd bod yr adroddiad gan Estyn yn gadarnhaol iawn, gan gydnabod bod gan Wynedd system drochi arloesol.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i staff yr adran am eu gwaith caled, ac yn arbennig i Rhys Meredydd Glyn, cyn-Bennaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd pa mor fanwl oedd arolygiad Estyn o'r Canolfannau Trochi. Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor yn gwrth-ddweud adroddiad Estyn ac wedi gwneud argymhellion penodol, megis ailystyried y model pedwar diwrnod

presennol a dychwelyd at fodel pum diwrnod, gan nodi bod y model pedwar diwrnod yn cynnwys diffygion megis y cyswllt ar y pumed diwrnod rhwng y ganolfan drochi a'r athrawon yn yr ysgolion. Cwestiynwyd a fyddai'r Adran yn barod i ystyried argymhellion Prifysgol Bangor.

Mewn ymateb, nodwyd bod arolwg Estyn wedi cynnwys gwaith maes helaeth o gymharu ag arolwg Prifysgol Bangor, gyda thri arolygydd dros dri diwrnod ym mhob un o'r chwe chanolfan drochi ac mewn ysgolion, gan gynnwys cyfweiliadau gyda disgyblion a staff. Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor wedi defnyddio meini prawf gwahanol i Estyn, gan gynnwys dulliau a arferir eu defnyddio wrth asesu trochi oedolion.

Pwysleisiwyd bod y sylwadau yn y ddau adroddiad yn ddilys ac y derbyniwyd yr argymhellion gan y ddau sefydliad. Ymhelaethwyd bod gwaith eisoes ar y gweill i ymateb i nifer o'r argymhellion, gyda staff y canolfannau bellach yn dechrau gweithio ochr yn ochr â disgyblion yn y dosbarth, yn hytrach na'u tynnu allan o'r dosbarth fel dan yr hen drefn. Nodwyd ymhellach bod adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnig er mwyn ymateb i'r argymhellion, a bod safle wê yn cael ei ddatblygu i roi ciplun o'r hyn sy'n cael ei gyflawni o fewn y canolfannau trochi.

Nodwyd bod yr argymhellion ynglŷn â nifer y dyddiau yn y canolfannau trochi wedi'u pwyso a'u mesur yn llawn gan yr Adran, gyda thabl i'w weld yn yr adroddiad yn cymharu manteision ac anfanteision y pedwar model sydd ar gael. Ystyriwyd bob model yn fanwl cyn penderfynu cadw'r trefniant presennol am y tro, gan fod penaethiaid wedi gofyn am gysondeb.

Mynegwyd pryder gan aelod nad oedd pob pennaeth ysgol yn ymwybodol o'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Tynnwyd sylw at yr anawsterau a amlygwyd o fewn yr adroddiadau o ran strwythur y gwersi ar gyfer y plant sy'n dychwelyd o'r canolfannau trochi i'r ysgolion, a'r angen i ddychwelyd at y model pum diwrnod i fynd i'r afael â hyn. Nodwyd bod adroddiad Estyn yn un arwynebol, heb lawer o fanylder na thystiolaeth i'w gefnogi. Nodwyd ymhellach bod Estyn wedi arolygu nifer o ganolfannau trochi yng Nghymru sydd newydd gychwyn ar eu taith, ac felly bod y canmoliaeth o ganolfannau Gwynedd yn ddealladwy.

Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor yn adroddiad da, gyda mwy o fanylder, tystiolaeth a sylwadau gan athrawon prif lif, athrawon trochi a disgyblion. Nodwyd bod nifer o argymhellion a chasgliadau wedi deillio o'r adroddiad, ac mai un o'r prif negeseuon oedd bod angen mwy o oriau trochi ar blant. Nodwyd o fewn yr adroddiad fod sylwadau gan athrawon trochi yn dangos nad oes cyswllt cyson rhwng yr ysgolion a'r canolfannau, a bod athrawon yn y prif lif yn tueddu i ddod yn fwy cyffyrddus â defnyddio'r Saesneg.

Nodwyd bod model pum diwrnod o fewn y canolfannau trochi yn cynnig strwythur cliriach o ran addysg i'r plant, ond nad oes monitro na dilyniant digonol i hyn o fewn y prif lif, gan nad oes digon o athrawon trochi ar gael i sicrhau hynny. Pwysleisiwyd yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o

gyllid i gynnal y system drochi, gan nad oedd yn deg i ysgolion orfod cyfrannu at ariannu'r ddarpariaeth.

Mewn ymateb, nodwyd bod y pumed diwrnod o fewn yr ysgol o fantais gan ei fod yn galluogi cyfathrebu gwell rhwng y canolfannau a'r ysgolion prif lif. Nodwyd bod lles disgyblion yn parhau'n ystyriaeth ganolog i'r Adran, yn ogystal ag addysgu, a bod y pumed diwrnod yn ôl yn yr ysgol wedi'i nodi fel rhywbeth llesol i'r plant. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad presennol yn adlewyrchu'r hyn sydd orau i'r plant ac i'r ysgolion, yn ogystal â chais y penaethiaid am gysondeb, nid arian oedd y prif ffactor wrth ddod i'r penderfyniad. Cydnabuwyd bod lle i wella o ran cyfathrebu rhwng y canolfannau a'r ysgolion, a bod cynlluniau wedi'u llunio i unioni hyn.

Pwysleisiwyd bod y ddau adroddiad yn bwysig ac yn sefyll ar eu seiliau eu hunain, a bod gwersi i'w dysgu o'r ddau. Mynegwyd barn bod canfyddiadau adroddiad Prifysgol Bangor yn deillio o'r hyn sy'n digwydd ar y pumed diwrnod, sef y dydd Gwener, pan fo'r disgyblion yn ôl yn yr ysgol. Ymhelaethwyd bod cyd-destun yr arolygiad, yn enwedig amser y flwyddyn pan gynhaliwyd y gwaith, yn debygol o fod wedi dylanwadu i ryw raddau ar yr hyn a welwyd ar y dydd Gwener. Nodwyd nad yw dydd Gwener o reidrwydd yn ddiwrnod addas i blant o'r canolfannau trochi ddychwelyd i'r ysgol.

Eglurwyd bod y sefyllfa ariannol yn heriol, ond bod y Cyngor wedi derbyn grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth drochi ac wedi defnyddio pob dull posibl i warchod ysgolion rhag gorfod ariannu'r ddarpariaeth eu hunain.

Nododd aelod y sylwadau canlynol:-

- Bod Estyn wedi camarwain y Pwyllgor hwn unwaith eisoes ynglŷn â'r mater o les a diogelwch plant, ac felly mynegwyd barn nad oedd adroddiad Estyn yn ddibynadwy.
- Bod casgliad adroddiad Prifysgol Bangor bod ysgolion prif lif yn ei chael yn anodd cefnogi disgyblion i ailintegreiddio'n llwyddiannus ar ddydd Gwener, a bod hyn wedi lleihau effeithlonrwydd y broses drochi yn un cadarn.
- Bod casgliad Prifysgol Bangor yn nodi bod dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd ar y dydd Gwener yn cael effaith negyddol ar les y disgyblion o ran cysondeb.
- Mai dim ond £1 miliwn oedd yn cael ei wario ar y system drochi, a bod angen lobio Llywodraeth Cymru am fwy o gyllid.

Mynegwyd barn bod yr adroddiad yn cynnwys tuedd, gan ddiystyru canfyddiadau adroddiad Prifysgol Bangor.

Mynegwyd pryder ynghylch diffyg beirniadaeth yn adroddiad Estyn, gan bwysleisio bod adroddiad Prifysgol Bangor yn cynnig darlun mwy cytbwys ac yn tynnu sylw at ddiffyg strategaethau, cyswllt a dealltwriaeth gan athrawon. Pwysleisiwyd nad oedd newid y model o ddydd Gwener i ddydd Llun yn yr ysgol yn mynd i fod yn ddatrysiad i'r broblem hon. Awgrymwyd bod angen

edrych yn benodol ar les disgyblion wrth benderfynu ar y trefniant gorau, gan fod tystiolaeth wedi dangos bod disgyblion yn teimlo'n fwy hyderus yn yr amgylchedd trochi nag wrth ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd.

Pwysleisiwyd yr angen i ystyried cynyddu'r oriau trochi a rhoi mwy o bwyslais ar y broses o integreiddio disgyblion yn ôl i'w hysgolion, gan sicrhau strategaethau a hyfforddiant priodol i staff. Nodwyd bod diffyg amser i athrawon weithredu'r strategaethau, a bod angen ystyried dychwelyd at system o bum diwrnod yr wythnos a oedd eisoes wedi profi'n llwyddiannus.

Mynegwyd barn nad oedd y Siarter Iaith wedi profi'n llwyddiannus, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel iaith anffurfiol o fewn ysgolion, ac y dylid ei hadolygu a'i chraffu fel mater o frys gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb, nodwyd y canlynol:-

- Bod gwaith ar y gweill i ail-lansio Siarter Iaith Gwynedd gyda brandio newydd.
- Bod unrhyw arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w groesawu.
- Bod yr Adran eisoes wedi defnyddio pob adnodd sydd ar gael i gynnal y ddarpariaeth ac i ddiogelu ysgolion rhag costau ychwanegol, ond bod pwysau ariannol ehangach ar draws y gwasanaethau addysg.
- Ei fod yn bwysig i barhau i ddatlu llwyddiannau'r canolfannau trochi ac i gydnabod y gwaith caled sy'n digwydd yn ddyddiol gan athrawon a staff ledled y sir.
- Bod penaethiaid uwchradd wedi codi pryderon fod cyfathrebu yn parhau'n heriol.
- Bod ysgolion yn cael eu hannog i benodi mentor iaith i weithredu fel cyswllt rhwng y ganolfan drochi a'r ysgol, er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol. Nodwyd bod y rôl hon yn hanfodol i gynnal y cyswllt rhwng disgyblion a'r staff trochi ar ôl y cyfnod yn y ganolfan.
- Bod cyfnod trochi ddim yn dod i ben ar ôl 10 wythnos, ac y bwriedir meithrin perthynas ag ysgolion prif lif i rannu arbenigedd trochi. Nodwyd ymhellach bod angen i'r hyfforddiant ar egwyddorion trochi gael ei lywio gan y prifysgolion, er mwyn iddo fod yn rhan o hyfforddiant pob athro.

Cwestiynwyd ynghylch natur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r penaethiaid. Gofynnwyd a roddwyd cyfle i'r penaethiaid ystyried y gwerthusiad cyn mynegi barn ar y modelau newydd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr holl benaethiaid cynradd ac uwchradd wedi derbyn copi o'r pedwar model a'r wybodaeth berthnasol cyn mynegi barn.

Nodwyd bod achosion wedi'u cofnodi lle nad oedd athrawon yn cyrraedd yr ysgolion prif lif ar amser ar y dydd Gwener, gan olygu bod plant yn gorfod aros am gyfnodau hir. Mynegwyd pryder bod cyfnodau hir o waith ar-lein yn gallu arwain at unigrwydd ymhlith y disgyblion. Pwysleisiwyd felly nad yw cael plant yn ôl ar y pumed diwrnod yn cyflawni ei bwrpas o'u cadw mewn cyswllt â'r ysgol a'u cyd-ddisgyblion.

Pryderwyd ynghylch effaith y pumed diwrnod ar iaith gymdeithasol yr ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd y gall hyn effeithio ar natur ieithyddol yr ysgol gyfan ac ar y diwylliant Cymraeg ar yr iard ac yn y dosbarth. Awgrymwyd y byddai'n werth derbyn barn ysgolion sydd eisoes wedi profi'r trefniant er mwyn cael darlun mwy cyflawn o'r sefyllfa.

Cwestiynwyd ynghylch achosion lle nad oedd rhieni wedi dewis anfon eu plant i'r canolfannau trochi. Mewn ymateb, nodwyd bod rhesymau megis yr angen i setlo mewn cartref newydd yn gyffredin, ond bod yr Adran yn ymestyn y gwahoddiad i gyfnodau yn y dyfodol ac yn parhau i wahodd a darbwyllo rhieni i fynychu drwy ymweliadau personol â'r canolfannau. Pwysleisiwyd bod achosion o wrthod y gwahoddiad i fynychu'r canolfannau trochi yn brin iawn.

Cwestiynwyd sut mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi gan y canolfannau trochi. Mewn ymateb, nodwyd bod trefniadau cadarn ar waith i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion emosiynol. Eglurwyd bod cynlluniau datblygu unigol yn cael eu trosglwyddo i'r canolfannau a bod y staff yn derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ysgolion magwraeth, ymwybyddiaeth o drawma ac ELSA (Cymhorthyddion Llythrennedd Emosiynol).

Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol yn yr ysgolion prif lif, gan bwysleisio'r angen i greu diwylliant lle gall disgyblion ddefnyddio'r iaith yn naturiol ar yr iard ac yn y gymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod dau swyddog o fewn y Cyngor yn gweithio ar ddiwygio'r Siarter Iaith a bod cais ariannol wedi'i gyflwyno er mwyn ehangu'r rolau hyn. Nodwyd ymhellach bod swyddi ar gael o fewn ysgolion ym mhob dalgylch i athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol i weithredu'r Siarter Iaith ac i drefnu un digwyddiad blynyddol yn eu dalgylch.

Nodwyd bod model arall wedi'i awgrymu ynghylch cadw'r pumed diwrnod o fewn yr ysgol ond ymestyn y cyfnod o fewn y canolfannau trochi o 10 wythnos i 12. Ymhelaethwyd ei bod yn amhosibl penderfynu pa mor ymarferol yw'r model hwn ar hyn o bryd, ond ei fod yn rhywbeth i'w ystyried ymhellach yn y dyfodol.

Mynegwyd diolch gan aelod i staff y gwasanaeth trochi, gan eu llongyfarch ar eu gwaith rhagorol a'u canmol am effeithlonrwydd y gwasanaeth. Diolchwyd hefyd i holl athrawon y sir am eu hymdrechion arwrol i drochi disgyblion o ddydd i ddydd yn y dosbarth.

Cynigwyd i wrthod yr adroddiad oherwydd bod yna duedd yng nghloriannu'r adroddiadau a dderbyniwyd gan Brifysgol Bangor ac Estyn; argymhell bod yr Aelod Cabinet Addysg yn llobio Llywodraeth Cymru am arian ychwanegol i gyllido'r ddarpariaeth a diolch i staff y canolfannau trochi am eu gwaith.

Nododd y Cynghorydd Rhys Tudur ei wrthwynebiad i dderbyn yr adroddiad. Ymhelaethodd nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i fodelau o fwy o gyfnod yn y canolfannau trochi; bod angen edrych ar fodelau sydd angen cyllid helaeth e.e. bod disgyblion yn mynd yn ôl i ganolfan drochi unwaith yr wythnos ar ôl y cyfnod 10 wythnos; a ni ystyriwyd effaith disgyblion yn dychwelyd i'r ysgolion o'r

canolfannau am ddiwrnod yr wythnos ar arferion iaith disgyblion yn ysgolion prif lif.

Eiliwyd y cynnig. Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe ddisgynnodd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

Cafwyd trafodaeth yng nghyswllt derbyn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg i:**
 - lobïo Llywodraeth Cymru ymhellach am adnoddau ariannol ychwanegol.
 - roi ystyriaeth bellach i'r opsiwn o ddychwelyd at bum diwrnod a/neu ystyried hyd y cyfnod yn y canolfannau iaith, gan roi ystyriaeth i les y disgyblion.
 - ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid a sicrhau hyblygrwydd o ran y ddarpariaeth wrth symud ymlaen.
- 3. Bod y Pwyllgor Craffu yn estyn diolch i bawb sy'n ymwneud â throchi, yn y canolfannau iaith ac o fewn yr ysgolion prif lif.**

7. STRATEGAETH CAFFAEL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg. Eglurwyd bod deddfwriaeth newydd ym maes caffael wedi dod i rym ym mis Chwefror eleni. Nodwyd bod yr adroddiad yn amlinellu ymateb y Cyngor i'r Ddeddf, ynghyd â'r strategaeth ei hun a chanlyniadau defnyddio'r fethodoleg gwerth cymdeithasol wrth werthuso contractau.

Pwysleisiwyd bod caffael yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i fframwaith cyfreithiol er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, gwerth am arian, ac i gydymffurfio â rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Nodwyd bod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn debygol o ddod i rym y flwyddyn nesaf, a bod gwaith paratoi ar y gweill i ymateb i'r newidiadau hyn.

Eglurwyd bod y Cyngor yn gwario tua £200 miliwn y flwyddyn ar gaffael, ac felly bod angen sicrhau'r gwerth gorau o ran pris, ansawdd a buddion cymdeithasol, gan gynnwys cyfraniad at ddatgarboneiddio. Nodwyd bod y strategaeth yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn ac yn cynnwys saith maes blaenoriaeth: buddion lleol, carbon sero, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.

Atgoffwyd bod y fethodoleg werthuso gwerth cymdeithasol yn adlewyrchu saith nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg, ac y bydd y Cyngor yn peilota system newydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i Wynedd, megis creu cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol, gwariant yn y gadwyn gyflenwi lleol, a chyfraniadau ariannol i elusennau a chlybiau cymunedol. Nodwyd bod

cwmnïau eisoes wedi cynnig buddion cymdeithasol o dros £4 miliwn ers cyflwyno'r dull newydd.

Eglurwyd bod y camau nesaf wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, gyda'r bwriad o gyflwyno'r strategaeth i'r Cabinet ym mis Tachwedd. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn arloesi yn y maes gwerth cymdeithasol ac y bydd y strategaeth hon yn sail i'r gwaith caffael dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth weithredu'r Strategaeth, yn enwedig o ran cyrraedd y targed sero net a chadw'r buddion yn lleol. Mewn ymateb, nodwyd bod heriau ar draws sawl sector, gan gynnwys yr amgylchedd, iaith Gymraeg a'r elfennau cymdeithasol, a bod y newid yn y ddeddfwriaeth a'r angen i ddeall y trefniadau newydd yn peri'r prif heriau ar hyn o bryd.

Cwestiynwyd ynghylch y gost ychwanegol o weithredu polisïau datgarboneiddio, megis prynu cerbydau trydan yn lle cerbydau disel, a pha effaith ariannol oedd hyn yn ei gael ar y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd mai'r brif her oedd cyfrifo'r effaith amgylcheddol wrth gymharu hen contract gydag un newydd, a bod y gwaith hwnnw'n parhau ar lefel genedlaethol. Nodwyd nad oes dull soffistigedig ar hyn o bryd i fesur carbon yn fanwl, ond bod y gobaith yn parhau y byddai'r defnydd o ynni'n lleihau dros amser ac y byddai hynny'n arwain at ostyngiad yn y costau. Cytunwyd i wneud gwaith ymchwil pellach i ddadansoddi'r gost ariannol ychwanegol o weithredu'r targed sero net.

Mynegwyd barn gan aelod bod costau diffyg datgarboneiddio yn y dyfodol yn debygol o fod yn uwch na'r gost o gyrraedd y nod sero net. Cwestiynwyd faint o waith cydweithio sydd wedi'i wneud gyda'r Adran Economi a Chymuned a faint o gymorth sy'n cael ei roi i gwmnïau bach o fewn y Strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod yr Adran Economi a Chymuned yn darparu cymorth drwy grantiau ac yn helpu busnesau yn gyffredinol. Nodwyd hefyd bod y Gwasanaeth Caffael yn cynnig cymorth ac yn darparu gwybodaeth ymlaen llaw i fusnesau ynghylch cyfleoedd tendro, gyda'r gallu i gyfeirio cwmnïau at Busnes Cymru sy'n cynnig cymorth annibynnol. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn ceisio osgoi defnyddio fframweithiau cenedlaethol lle bo modd, er mwyn sicrhau rhagor o gyfleoedd i gwmnïau lleol gystadlu.

Cwestiynwyd ynghylch y trefniadau monitro presennol a'r camau i'w datblygu ymhellach. Mewn ymateb, nodwyd bod rheoli contractau ar hyn o bryd yn digwydd yn bennaf o fewn y gwasanaethau unigol, ac mai'r bwriad yw cryfhau'r trefniadau hynny drwy gyflwyno arferion gorau a sicrhau gwerth llawn o contractau. Nodwyd bod angen gwella'r gwaith o fonitro gwerth cymdeithasol, casglu gwybodaeth am garbon ac adrodd yn gyhoeddus ar ganlyniadau'r tendrau a pherfformiad contractau mawr.

Cwestiynwyd ynghylch yr hyn sy'n newydd yn y Strategaeth hon o'i chymharu â'r un flaenorol. Holwyd os oedd y ffaith ein bod yn mesur gwerth cymdeithasol yn wahanol i awdurdodau eraill ac yn mynd y tu hwnt i ofynion deddfwriaeth.

Mewn ymateb, nodwyd bod yr elfen o fesur gwerth cymdeithasol, y pwyslais ar gadw'r budd yn lleol, yr effaith o gaffael ar sero net, gwerth am arian, gwneud y defnydd gorau o dechnoleg, edrych ar y trefniadau llywodraethu, a hyrwyddo'r Gymraeg yn agweddau ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys mewn strategaethau blaenorol. Ymhelaethwyd bod sawl un o'r elfennau hyn wedi bod yn flaenoriaeth yn y gorffennol, ond heb gael eu dogfennu o fewn strategaeth. Nodwyd bod y pwyslais ar werth cymdeithasol yng Ngwynedd yn uwch nag mewn nifer o awdurdodau eraill. Pwysleisiwyd bod y strategaeth hon yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac yn gosod sylfeini ar gyfer adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.

Cwestiynwyd a oedd technoleg a deallusrwydd artiffisial wedi arwain at arbedion i'r Cyngor hyd yma. Mewn ymateb, nodwyd bod defnydd o dechnoleg deallusrwydd artiffisial eisoes yn digwydd, ond nad oedd manylion yr arbedion ariannol ar gael ar hyn o bryd. Nodwyd bod y maes hwn yn datblygu fel rhan o'r Cynllun Digidol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu.

Pwysleisiwyd y dymuniad i weld y Gymraeg yn cael ei thrin fel ffactor ymarferol ac ystyrlon o bwys wrth gontractio, yn hytrach na dim ond elfen hyrwyddo symbolaidd. Mewn ymateb, nodwyd bod barn gyfreithiol wedi'i derbyn ar y mater hwn a'i rannu gyda'r Aelod, gan nodi'r angen i weithredu o fewn y gyfraith bresennol. Nodwyd bod gwaith pellach ar y gweill i archwilio cyfleoedd newydd i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r cynllun gweithredu manwl.

Cwestiynwyd ynghylch yr amserlen ar gyfer llunio a gweithredu'r cynllun gweithredu. Mewn ymateb, nodwyd bod gwaith eisoes ar y gweill yn y cefndir, ond y byddai'r amserlen yn dibynnu ar gapasiti ac adnoddau'r gwasanaeth. Nodwyd mai strategaeth hirdymor yw hon, gyda'r gweithredoedd i'w blaenoriaethu dros sawl blwyddyn.

Cwestiynwyd beth fydd yn cael ei ddiweddarau o fewn y Polisi Caffael a phryd y bydd hyn yn digwydd. Mewn ymateb, nodwyd y bydd y Polisi yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth. Cadarnhawyd bod fersiwn ddrafft o'r Polisi eisoes wedi'i baratoi, a bod angen cynnal ymgynghoriad mewnol arno cyn iddo gael ei fabwysiadu.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Gofyn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg sicrhau bod popeth posibl, o fewn y cyfyngiadau, yn cael ei wneud i gadw'r budd yn lleol, hybu cwmnïau bach, creu gwerth cymdeithasol ac i gefnogi'r Gymraeg.**

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL A'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg, gan egluro bod yr adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd a wnaed yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr adran.

Nodwyd bod perfformiad wedi ei drafod mewn cyfarfod herio perfformiad ym mis Medi.

Atgoffwyd bod yr adran yn arwain ar chwe phrosiect o fewn meysydd blaenoriaeth amrywiol: cadw'r budd yn lleol, hybu defnydd y Gymraeg, cynllunio'r gweithlu, sicrhau tegwch i bawb, merched mewn arweinyddiaeth ac adolygiad strategol o reolaeth iechyd a diogelwch. Tynnwyd sylw at yr adolygiad strategol o reolaeth iechyd a diogelwch, gan nodi bod llithriad wedi bod mewn dwy garreg filltir o fewn y prosiect. Y cyntaf oedd cyflwyno system technoleg gwybodaeth newydd ar gyfer iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor, a'r ail oedd datblygu cynllun archwiliadau pum mlynedd. Pwysleisiwyd bod y gwaith yn symud ymlaen ac y disgwylir cyflawni'r gwaith yn llawn.

Yn nhermau perfformiad dydd i ddydd, nodwyd bod y sefyllfa'n gadarnhaol ar y cyfan, ond bod nifer o faterion angen sylw pellach. Cyfeiriwyd at asesiadau iaith a gwblhawyd gan staff, lle mae'r ganran wedi bod yn uchel ond heb gyrraedd y targed llawn eto, gydag wyth aelod staff newydd heb gwblhau'r asesiad. Yn yr un modd, nodwyd bod 14 cais DBS yn aros i'w prosesu yn Lerpwl, a 44 arall yn disgwyl gweithrediad gan staff neu reolwyr, gyda'r ffigyrau'n newid yn ddyddiol wrth i staff newydd gyrraedd eu cyfnod adnewyddu. Eglurwyd bod y Grŵp Gweithredol Diogelu'n trafod perfformiad DBS bob chwarter, gydag is-grŵp yn craffu ar y data.

Nodwyd bod 52 cyfeiriad at lechyd Galwedigaethol wedi'u gwneud ym mis Awst, gyda 48 aelod staff wedi mynychu apwyntiadau. O'r rheini, roedd 40 yn absennol o'r gwaith, ond yn sgil camau megis dychwelyd graddol neu addasiadau rhesymol, nodwyd bod 19 o unigolion bellach wedi dychwelyd i'r gwaith.

Yn nhermau ceisiadau diogelu data, derbyniwyd 18 cais yn ystod y chwarter gyda 13 ohonynt wedi'u hateb o fewn yr amserlen. Nodwyd bod cymhlethdod nifer o'r ceisiadau, yn enwedig yn y maes plant, wedi dylanwadu ar y perfformiad, ac y bydd angen adolygu'r adnoddau i ymdopi os bydd y niferoedd a'r cymhlethdod yn cynyddu.

Nodwyd bod cyfartaledd diwrnodau salwch fesul pen ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, yn sefyll ar 4.43 diwrnod, o'i gymharu â 4.23 y llynedd. Eglurwyd bod dadansoddiad manwl ar gyfer 2024-25 wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol, gyda chymau gweithredu i'w cymryd o hynny. Nodwyd bod yr amser cyfartalog i gwblhau arfarniadau ar swyddi wedi gostwng o 49.04 diwrnod ar gyfartaledd i 35.09 diwrnod erbyn diwedd Awst. Pwysleisiwyd bod y perfformiad hwn yn adlewyrchu gwaith y tîm, ond ei fod hefyd yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law a blaenoriaethau eraill o fewn yr adran.

Diolchwyd i holl swyddogion yr adran am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus i waith y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y diffyg cyfeiriad yn yr adroddiad at gynnydd, neu'r diffyg cynnydd, o ran cynllun Ffordd Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr adran yn arwain ar y cynllun ond yn cyfrannu'n sylweddol at y cynllun gan arwain ar nifer o ffrydiau gwaith unigol. Eglurwyd bod adroddiad ar gynllun Ffordd Gwynedd eisoes wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Nodwyd nad oedd ffigwr absenoldeb salwch staff wedi newid llawer ers y llynedd. Cwestiynwyd a oedd unrhyw batrymau neu wahaniaethau rhwng adrannau ynghylch absenoldeb salwch staff. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod dadansoddiad manwl o'r sefyllfa wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan ddangos cynnydd rhwng 2023-24 a 2024-25.
- Bod polisi newydd ar absenoldeb salwch wedi'i gyflwyno, a bod bron i 400 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant arno.
- Bod system newydd i gofnodi absenoldebau wedi arwain at fonitro mwy effeithiol, ac o bosibl wedi cynyddu'r ffigyrau oherwydd gwell cofnodi.
- Bod straen a chyflyrau cyhyrsgerbydol yn parhau'n brif ffactorau, gyda phecynnau ymyrraeth ar gael a ffocws ar rôl y rheolwr wrth gefnogi lles staff.

Cwestiynwyd ynghylch straen, gan ofyn a oedd pwysau gwaith a thoriadau ariannol yn cyfrannu at y sefyllfa. Mewn ymateb, nodwyd bod straen yn cael ei gofnodi un ai fel un personol neu'n gysylltiedig â gwaith, ac y gall fod yn gyfuniad o'r ddau. Eglurwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i annog rheolwyr i gynnal sgysiau rheolaidd am lesiant gyda staff, drwy hyfforddiant a chysiau newydd megis yr hyfforddiant i-act a'r system gwerthuso parhaus.

Holwyd a oedd yr adran yn pryderu ynghylch ffigyrau cwblhau DBS, a beth oedd y rhesymau pam nad oedd rhai aelodau staff wedi cwblhau neu adnewyddu eu DBS. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y ffigyrau'n peri pryder i'r adran, gan ei bod yn ymwybodol o statws gwaith yr unigolion hyn, ac y caiff y ffigurau eu hadrodd yn rheolaidd i'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu. Nodwyd bod yr unigolion heb DBS naill ai'n weithwyr newydd, ar gyfnod salwch tymor hir neu ar gyfnod mamolaeth.

Cwestiynwyd ynghylch y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth, gan ofyn am effaith y gwaith a gwybodaeth am y prosiectau yn benodol i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion wedi datblygu. Mewn ymateb, nodwyd bod yr ymateb gan ddynion wedi bod yn gymysg oherwydd brandio'r prosiect, ond bod sesiynau wedi'u cynnal o fewn Rhwydwaith Rheolwyr er mwyn sicrhau bod pob rheolwr, boed yn ddyn neu'n fenyw, yn derbyn yr un neges.

Cwestiynwyd i ba raddau y mae cynlluniau rhannu swyddi wedi'u hystyried i annog ac i hwyluso merched i symud ymlaen i swyddi uwch o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod nifer o enghreifftiau llwyddiannus o ferched wedi symud ymlaen i swyddi uwch, a bod rhagor o waith yn cael ei wneud i ehangu cyfleoedd drwy hyblygrwydd a chontractau addas. Cydnabuwyd bod lle i wella ymhellach.

Holwyd am fwy o wybodaeth ynghylch yr archwiliadau iechyd a diogelwch a fydd yn cael eu cynnal drwy'r Fforwm Corfforaethol a'r Fforymau Adran. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwaith yn rhan o gynllun strategol ehangach. Nodwyd bod cynnal yr archwiliadau iechyd a diogelwch o fewn y Fforymau Adran yn rhoi cyfle i lais y staff gael ei glywed ynghylch pryderon iechyd, diogelwch a lles, a bod cynrychiolaeth drawsadrannol ar y panel sy'n cymeradwyo polisïau.

Cwestiynwyd ynghylch y ganran isel o 54% o reolwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant rheoli safle, gan ofyn am yr eglurhad dros hyn. Mewn ymateb, nodwyd nad yw pob rheolwr yn rheolwr safle. Eglurwyd bod y cwrs dan sylw yn gwrs adnewyddu, a bod y mwyafrif o reolwyr safle eisoes wedi cwblhau'r cwrs gwreiddiol. Pwysleisiwyd bod trefniadau iechyd a diogelwch sylfaenol ar waith ym mhob safle, gyda swyddogion iechyd a diogelwch yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i athrawon neu reolwyr newydd.

Cwestiynwyd y perfformiad o 72% o geisiadau diogelu data wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod cymhlethdod y ceisiadau yn effeithio ar berfformiad.
- Bod y ganran ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cynyddu i 95%.
- Bod gwaith yn parhau i wella trefniadau a hyfforddiant ar ymateb i geisiadau.
- Bod defnydd o dechnoleg yn gallu cynorthwyo, ond bod nifer y systemau o fewn y Cyngor yn golygu bod gwaith o'r fath yn cymryd amser sylweddol i'w gwblhau.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch y prosiect i ddatblygu system gyflogaeth newydd i'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod y prosiect ar hyn o bryd yn y cam caffael, gyda'r broses dendro ar y gweill a bwriad i asesu o fewn y mis nesaf, gyda'r nod o roi'r system ar waith erbyn dechrau mis Rhagfyr 2026.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Cyflwynwyd adroddiad Gwasanaethau Cyfreithiol gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg, gan nodi bod y gwasanaeth yn cynnwys pedwar tîm, sef cyfreithiol, priodoldeb, etholiadau a chefnogaeth i'r crwner. Nodwyd bod 91% o'r ymatebion i'r arolwg boddhad gan gwsmeriaid wedi nodi "fodlon iawn", gyda 9% yn "fodlon", a bod nifer yr ymatebion wedi cynyddu'n sylweddol. Nodwyd bod y gwasanaeth bellach wedi symud ymlaen o'r heriau recriwtio blaenorol ac wedi elwa ar gynlluniau Gwynedd Yfory a phrentisiaethau.

Nodwyd bod yr adran bellach wedi ymgorffori system rheoli achosion newydd ac wedi edrych ar y posibilrwydd o fabwysiadu nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd i'r adran. Nodwyd bod yr adran yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau'r Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddol. Ymhelaethwyd fod y gwaith hwn yn barhaus, ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau "Penderfyniadau

Da" o fis Hydref ymlaen. Pwysleisiwyd y bydd yr adran yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau, ynghyd â swyddogion perthnasol, i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymhlith cynghorwyr. Atgoffwyd Cynghorwyr i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Pwysleisiwyd mai'r brif her ar hyn o bryd yw'r gwaith rhanbarthol a darparu cymorth cyfreithiol i Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC). Nodwyd bod y cyfnod presennol yn heriol gan fod nifer o elfennau o waith y CBC yn dod yn weithredol yn ystod y chwarter cyfredol. Cyfeiriwyd hefyd at drefniadau'r etholiadau seneddol newydd ar gyfer 2026, gan nodi'r newidiadau i'r system bleidleisio a'r etholaeth newydd "Gwynedd Maldwyn".

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd lle mae'r adran arni ynghylch hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i gynghorau tref a chymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod dwy neu dair sesiwn wedi'u cynnal ar gyfer clerod a chadeiryddion ar ddechrau'r flwyddyn, ond bod blaenoriaethau staffio wedi arwain at oedi dros dro yn y ddarpariaeth. Pwysleisiwyd bod hyfforddiant ar-lein ar gael.

Cwestiynwyd a oedd yr adran yn hyderus y gellir ymdopi â'r holl newidiadau sy'n ymwneud â'r etholiadau sydd ar y gorwel. Cwestiynwyd ymhellach a oes gan yr adran y capasiti i gyflawni'r gofynion. Mewn ymateb, nodwyd bod her ddaeryddol amlwg, ond bod gwaith cynllunio eisoes wedi dechrau ar y cyd â chynghorau Powys, Wrecsam, Dinbych a Chonwy, gyda threfniadau cydweithio clir ar waith rhwng yr awdurdodau er mwyn sicrhau trefn effeithiol.

Cwestiynwyd ynghylch profiad yr adran gyda'r peilot cofrestru awtomatig gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Cyngor wedi cyfrannu at y cynllun peilot, ac y disgwylir derbyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar y system er mwyn llywio'r camau nesaf.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Croesawu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â straen, hybu rôl merched mewn arweinyddiaeth, a sicrhau bod llais i'r gweithwyr o fewn trefniadau ieuchy a diogelwch yn y Fforymau Adrannol.**

9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2025/26

Nodwyd y rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025, ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26.

Eglurwyd y darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod

er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nodwyd ni lwyddwyd i wneud hyn eleni gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer bob cyfarfod. Nodwyd bod yr aelodau o'r farn bod yr eitemau a flaenoriaethwyd angen eu craffu yn ystod y flwyddyn. Tanlinellwyd y disgwyliad i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

Nodwyd yr adnabuwyd 'Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd' a 'Gwasanaeth Gwella Ysgolion' fel eitemau i'w rhaglennu yn 2026/27. Nodwyd bod gwaith yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn parhau. Eglurwyd bwriadwyd cyflwyno adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2025.

Nodwyd er mwyn sicrhau bod llais disgyblion yn cael sylw haeddiannol fel rhan o'r ymchwiliad fel y pwysleisiwyd gan aelodau'r ymchwiliad ynghyd â'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i Droseddu, ei fod yn anorod bydd yr amserlen o gyflwyno adroddiad terfynol drafft i'r Pwyllgor yn gorfod llithro. Eglurwyd o ganlyniad cysylltwyd gyda'r adrannau perthnasol o ran y posibilrwydd o ail-raglennu eitem o gyfarfod mis Chwefror i gyfarfod mis Rhagfyr. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Adran Addysg bod modd symud yr eitem 'Strategaeth Addysg' i gyfarfod 11 Rhagfyr 2025.

Atgoffwyd yr aelodau bod gweithrediad y Siarter Iaith yn fater a godwyd yn ystod y drafodaeth o dan yr eitem 'Cyfundrefn Addysg Drochi' fel maes posib i'w graffu.

PENDERFYNWYD

- 1. Mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26.**
- 2. Ystyried blaenoriaethu craffu gweithrediad y Siarter Iaith pan yn amserol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:10 yp

Cadeirydd

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	11eg Rhagfyr 2025
TEITL	Strategaeth Ysgolion 2026 – 2036, cyflwyno dogfen ddrafft
RHESWM DROS GRAFFU	I graffu ar y Strategaeth Ysgolion 2026 – 2036 ddrafft
AWDUR	Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, rydym yn cyflwyno drafft o Strategaeth Ysgolion 2026-2036. Bydd arweiniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ein galluogi i fireinio'r Strategaeth, sicrhau bod llais y rhanddeiliaid yn cael ei adlewyrchu'n llawn, ac adeiladu'r sylfaen angenrheidiol i weithredu'n llwyddiannus.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Bydd blaen graffu'r Strategaeth yn gyfle i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y Strategaeth Ysgolion a chynnig sylwadau. Cyflwynir hefyd fersiwn gychwynnol o Asesiad Effaith Cydraddoldeb

2.2 Gofynnir am sylwadau ac adborth gan y Pwyllgor Craffu ar y canlynol:

- Gweledigaeth y Strategaeth (tud.6).
- Yr wyth o werthoedd yr ydym wedi eu defnyddio i siapio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd i'r dyfodol (tud. 7-15).
- Egwyddorion ac ystyriaethau i bob sector er mwyn gwireddu ein gweledigaeth (tud 33 – 38)
- Y drefn o adolygu'n flynyddol stad ysgolion Gwynedd. (tud 39 – 41)

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'r Strategaeth yn chwarae rhan amlwg yng Nghynllun y Cyngor sydd yn gosod cyfeiriad clir i ni fel awdurdod hyd at 2028 ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni uchelgais y Cyngor. Mae Gwynedd Yfory yn amlygu sut y byddwn yn sicrhau'r cychwyn gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc.

3.2 Mae gweledigaeth Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026–2036 yn uchelgeisiol ond hefyd yn gadarn o ran ei sylfeini. Ei phrif fwriad yw sicrhau cyfundrefn addysg deg, gynhwysol a chynaliadwy sy'n galluogi pob dysgwr i gyrraedd ei lawn botensial.

3.3 Er bod y weledigaeth hon yn uchelgeisiol, gellir ei hystyried yn realistig, gan ei bod wedi'i seilio ar bolisiâu cenedlaethol a lleol presennol megis Cwricwlwm i Gymru, Cymraeg 2050, a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018). Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu cyfeiriad polisi addysg Cymru, ac felly'n adeiladu ar sylfeini cadarn yn hytrach na dechrau o'r newydd.

3.4 Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn gosod blaenoriaethau ymarferol a mesuradwy, gan gynnwys:

- Buddsoddi mewn seilwaith ac adeiladau ysgolion drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy;
- Cryfhau arweinyddiaeth ac ymateb i'r her o recriwtio a chadw penaethiaid ac athrawon;
- Datblygu gweithlu dwyieithog medrus, gan ymateb i heriau recriwtio athrawon Cymraeg mewn pynciau arbenigol;
- Sicrhau tegwch ariannol a chefnogaeth i ysgolion bach gwledig drwy gynlluniau fel y Cynllun Gwarchodaeth;
- Blaenoriaethu lles a diogelu, gan sicrhau amgylcheddau dysgu diogel, cynhwysol ac ecogyfeillgar.

Mae hyn yn dangos fod y Strategaeth yn cynnwys mecanweithiau realistig i gyflawni ei nodau dros amser.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Cyhoeddwyd y Strategaeth wreiddiol Rhaglen Strategol *"Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd* yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Ysgolion ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2036.

4.2 Mae'r Adran Addysg wedi llunio'r Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026-2036 er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r ddarpariaeth ysgolion dros y ddegawd nesaf. Mae newidiadau pellgyrhaeddol wedi bod yn y maes addysg yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Strategaeth newydd yn ymateb i newidiadau cenedlaethol megis y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2028) ynghyd â disgwyliadau cynyddol ar ysgolion, ac yr angen i foderneiddio adeiladau ac adnoddau.

4.3 Mae ystyriaethau a gyrwyr lleol yn dylanwadu ar y gyfundrefn addysg, gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth hefyd. Rydym angen sicrhau ein bod yn cynnal a chefnogi'r hyn sydd yn dda ac yn unigryw am y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ymateb i rai o'r heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn rŵan, ac i'r dyfodol, megis:

- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a

chymorthyddion yn ein hysgolion.

- Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.
- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.
- Gwella ein stad ysgolion er mwyn sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.

- 4.4** Mae teitl y ddogfen wedi ei newid o Strategaeth Addysg i Strategaeth Ysgolion er mwyn cydnabod nad yw'r ddogfen hon yn cwmpasu darpariaeth ôl-16 na'r blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae'n cynnwys y sector Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, sef craidd y rhwydwaith ysgolion yng Ngwynedd.

Wrth ei llunio, mae'r Adran Addysg wedi ystyried ystod eang o bolisiâu a ffactorau perthnasol, megis:

- Cenedlaethol: Cymraeg 2050, Cwricwlwm i Gymru, Deddf ADY a'r Tribiwnlys 2018 a'r Cod 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Lleol: Cynllun y Cyngor 2023–2028, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, ymrwymiad y Cyngor i Garbon Sero Net, a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog.

- 4.5** Gweledigaeth ar gyfer Addysg yng Ngwynedd.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cyfundrefn addysg deg a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr y Sir, ac sy'n rhoi'r cyfle iddynt gyrraedd eu llawn potensial. Nid yw cefndir teuluol, lleoliad nag amgylchiadau personol i fod yn rhwystr i lwybr bywyd nac i ddewis cyfleoedd.

Rydym yn anelu at gyfundrefn sy'n:

- meithrin a hyrwyddo llesiant,
- darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf,
- ehangu gorwelion a datblygu sgiliau perthnasol i'r economi leol, ranbarthol, genedlaethol a'r byd-eang,
- creu llwybrau cadarn i sicrhau ffyniant i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd.

- 4.6** Mae'r Strategaeth yn cydnabod yn glir fod y drefn bresennol yn cynnwys nifer o wendidau sy'n gallu cael effaith andwyol ar ansawdd addysg. Ymhlith y rhain mae amrywioldeb sylweddol rhwng ysgolion o ran adnoddau a chyfleoedd cwricwlaidd, heriau recriwtio sy'n arwain at ddiffyg cysondeb mewn addysgu, a bregusrwydd

ysgolion llai o ran arweinyddiaeth a chynaliadwyedd. Gall y ffactorau hyn greu profiad anghyson i ddysgwyr a lleihau eu cyfleoedd i gyrraedd eu potensial. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn mewn ffordd gadarnhaol, mae'r Strategaeth yn nodi cyfres o gamau gweithredu clir i wella ansawdd addysg a sicrhau cysondeb ar draws y sir:

1. Cryfhau arweinyddiaeth ysgolion

Trwy hyrwyddo modelau arweinyddiaeth hyblyg, rhannu arbenigedd ac adeiladu capasiti yng nghyfrwng arweinwyr presennol a'r rhai sy'n dod drwodd, mae'r Strategaeth yn ceisio creu system fwy gwydn sy'n llai agored i darfu.

2. Sicrhau rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac effeithiol

Mae'r Strategaeth yn ystyried sut y gellir trefnu'r rhwydwaith ysgolion fel bod pob un yn gallu cynnig cwricwlwm eang, cefnogaeth briodol a darpariaeth o ansawdd, gan leihau'r anghysondebau a welir yn y drefn bresennol.

3. Datblygu gweithlu medrus a dwyieithog

Drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, hybu cadw staff a denu athrawon newydd, mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r heriau recriwtio sy'n gwanhau ansawdd addysgu mewn rhai lleoliadau.

4. Buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu modern

Mae'r Strategaeth yn blaenoriaethu adeiladau ac isadeiledd sy'n cefnogi addysg gyfoes, gan leihau'r amrywioldeb mewn safonau rhwng safleoedd ac yn gwella profiadau dysgwyr.

5. Pwyslais ar les, ymddygiad a chynhwysiant

Trwy ddatblygu dull ysgol gyfan sy'n cefnogi iechyd emosiynol, rheoli ymddygiad cadarnhaol a chynhwysiant, mae'r Strategaeth yn adeiladu'r seiliau sy'n galluogi dysgwyr i ffynnu.

6. Cefnogaeth fwy cydlynol i ysgolion

Mae trefniadau cefnogi newydd yn cynnig ymateb cyflymach ac unffurf i heriau, gan sicrhau bod ymyriadau effeithiol yn digwydd cyn i broblemau waethygu.

Yn ei chyfanrwydd, mae'r Strategaeth yn ymateb i wendidau'r system bresennol drwy greu trefn fwy teg, fwy cynaliadwy a mwy cadarn sy'n galluogi pob dysgwr i elwa ar addysg o'r safon uchaf.

5. Ymgynghori

- 5.1** Wrth lunio'r Strategaeth, cymerwyd y cyfle i ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid er mwyn derbyn mewnbyn ac adlewyrchu safbwynt a barn y rhai fydd yn defnyddio a gweithredu'r Strategaeth.

- 5.2** Mae sesiynau ymgysylltu pellach wedi'u trefnu gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig, ynghyd â chyfarfodydd gyda'r Fforwm Pobl Ifanc Sirol a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd yn ystod Rhagfyr 2025. Bydd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei ddiweddarau yn dilyn y sesiynau hyn.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 6.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.
- 6.2** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
- 6.3** Gellir gweld yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn Atodiad 2, sy'n nodi sut yn union mae'r Strategaeth yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy weithredu'r pum ffordd o weithio, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

- 7.1** Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau ar ffurf drafft i gyd-fynd â'r Strategaeth Ysgolion, ac fe fydd copi terfynol yn cael ei gyflwyno pan fydd y Strategaeth gerbron y Cabinet.

8. Camau Nesaf

- 8.1** Bwriedir cyflwyno'r Strategaeth Ysgolion 2026-36 i Gabinet Cyngor Gwynedd ar 10 Chwefror 2026.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Strategaeth Ysgolion 2026-2036

Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb Drafft

Atodiad 3 – Cwestiynau'r Pwyllgor Craffu – Cwestiwn ac Ateb

STRATEGAETH YSGOLION

CYNGOR GWYNEDD

2026 – 2036



CYFLWYNIAD

Rhoi'r cychwyn gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc yw calon Cynllun y Cyngor. Ein gweledigaeth yw creu system addysg yng Ngwynedd sy'n cyfarch anghenion pob dysgwr ac yn cynnig y cyfleoedd gorau i bawb wireddu eu llawn botensial.

Pwrpas y strategaeth hon yw gosod ein huchelgais ar gyfer addysg yng Ngwynedd dros y degawd nesaf. Mae gan bob plentyn un cyfle unigryw i gael addysg, ac mae'n ddyletswydd arnom greu system sy'n galluogi ein plant a'n pobl ifanc i ddilyn eu breuddwydion, datblygu'n unigolion llawn hyder, a chyflawni unrhyw beth y maent yn dymuno.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld newidiadau pwysig yn ein trefniadaeth addysg – megis sefydlu ysgolion gydol oes a datblygu darpariaeth gynradd. Wrth i niferoedd disgyblion newid, daw cyfleoedd newydd i ail-lunio'r system addysg mewn ffordd sy'n gadarn, yn gynaliadwy ac sy'n paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol.

Mae ysgolion bach ac ysgolion o bob maint yn cynnig profiadau gwerthfawr, ond gyda newidiadau'r cwricwlwm, disgwyliadau cynyddol ar benaethiaid ac athrawon, a'r angen i reoli adnoddau'n ddoeth, mae'n hanfodol gosod cyfeiriad clir sy'n sicrhau sefydlogrwydd a llwyddiant tymor hir. Drwy edrych ymlaen gyda chynllun pendant, gallwn sicrhau bod pob ysgol yn rhan o rwydwaith addysg sy'n gryf ac yn gynhwysol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion i'n cymunedau gwledig a'u rôl allweddol wrth feithrin a chynnal yr iaith Gymraeg. Dyna pam y mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd – rhieni, staff, dysgwyr a chymunedau – i lunio dyfodol sy'n diogelu'r elfennau hyn ac yn eu gwneud yn fwy cadarn nag erioed.

Mae'r strategaeth hon yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer pob agwedd arall ar ein gwaith addysg – o Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant, i Ddysgu Digidol a hyrwyddo'r Gymraeg. Trwy'r sylfaen hon, byddwn yn adeiladu system addysg gynaliadwy sy'n cynnig profiadau dysgu o'r safon uchaf i'n holl blant a'n pobl ifanc.

Gwern

Beth sydd yn effeithio ar ddyluniad ein strategaeth?

Ni all unrhyw strategaeth sefyll ar ei phen ei hun - mae'n rhaid iddi gyd-fynd ag ystod o amcanion cenedlaethol, corfforaethol ac addysgol. Tu cefn i'r amcanion yma mae nifer o ddogfennau a pholisïau cenedlaethol a lleol allweddol megis y rhai canlynol;

Cenedlaethol

- Cymraeg 2050
- Cwricwlwm i Gymru
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Canllawiau Diogelu Plant Mewn Addysg

Lleol

- Cynllun y Cyngor 2023-2028
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032
- Carbon Sero Net/Argyfwng Hinsawdd
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Sut mae'r strategaeth yma yn chwarae rhan yng Nghynllun y Cyngor?

Mae'r strategaeth yn chwarae rhan amlwg yng Nghynllun y Cyngor sydd yn gosod cyfeiriad clir i ni fel awdurdod hyd at 2028 ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni uchelgais y Cyngor. Mae Gwynedd Yfory yn amlygu sut y byddwn yn sicrhau'r cychwyn gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc.

Nodir yng Nghynllun y Cyngor mai ein huchelgais yw sicrhau bod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

Eu trin yn gyfartal ac yn deg, eu hannog i drin eraill yn gyfartal ac yn deg, a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.

Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.

Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.

Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.

Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.

Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol am ddim i gymaint o ddisgyblion â phosibl.

Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.


Sicrhau bod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

Mae Gwynedd Gymraeg yn amlygu sut y byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Nodir yng Nghynllun y Cyngor mai ein huchelgais yw:

Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.

Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.

Addysg yng Ngwynedd



 www.gwynedd.nysw.cymru/ymlaen



Beth yw'r pedwar diben a sut y byddant yn chwarae rhan yn ein strategaeth?

Y pedwar diben yw'r sylfaen ar gyfer cwricwlwm newydd Cymru ac felly mae'n chwarae rhan allweddol yn ein strategaeth addysg ni yma yng Ngwynedd. Mae'r cwricwlwm presennol yn wahanol i'r cwricwlwm blaenorol a oedd â chanllawiau llym yn nodi pa bynciau y dylid eu haddysgu, gyda pha gynnwys a heb unrhyw nodau terfynol diffiniedig ar gyfer yr addysg.

Ynghyd â'r pedwar diben i Gymru, mae'r pynciau ysgol traddodiadol yn cael eu disodli gyda Meysydd Dysgu a Phrofiad (AoLEs).

Mae chwe Maes Dysgu a Phrofiad sydd wedi cwmpasu pynciau traddodiadol, sef:

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Mathemateg a Rhifedd	Celfyddydau Mynegiannol
Dyniaethau	Iechyd a Lles	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r pedwar diben yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunnir gan ysgolion Gwynedd. Nod cwricwlwm pob ysgol yng Ngwynedd yw cefnogi ei dysgwyr i ddod yn:

ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau

gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd

unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r **Pedwar Diben** yn greiddiol i'n huchelgais addysgol, ac maent yn sylfaen i'r strategaeth newydd. Ein nod yw grymuso ein hysgolion i ddylunio a chyflwyno cwricwlwm cyfoes, ysbrydoledig ac uchelgeisiol sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i wireddu'r dibenion hyn.

Rydym yn croesawu'r cwricwlwm newydd fel cyfle euraidd i ail-lunio profiadau dysgu ein plant a'n pobl ifanc. Er bod newidiadau o'r fath yn dod â heriau naturiol, maent hefyd yn cynnig posibilrwydd enfawr i sicrhau addysg sy'n fwy perthnasol, creadigol a chynhwysol nag erioed.

Bydd ein strategaeth yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ysgolion Gwynedd i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn, gan sicrhau'r gefnogaeth, yr adnoddau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r Pedwar Diben – ac felly galluogi pob plentyn i dyfu'n ddysgwyr uchelgeisiol, unigolion hyderus, cyfranwyr mentrus a dinasyddion egwyddorol.

Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer addysg yng Ngwynedd?



Ein gweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg deg sydd yn cyfarch anghenion ein holl ddysgwyr ac sydd yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial.

Ni ddylai eich cefndir, lle'r ydych yn byw nac amgylchiadau bennu eich dewis na'ch llwybr i'r dyfodol. Yr ydym am weld cyfundrefn wedi ei seilio ar degwch sydd yn meithrin ac yn hyrwyddo llesiant, sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf gan ehangu gorwelion, a meithrin sgiliau y mae galw amdanynt yn yr economi leol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, er mwyn sicrhau llwybr cadarn tuag at ffyniant i bob person ifanc.



Beth yw'r gwerthoedd yr ydym wedi eu ddefnyddio i siapio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd i'r dyfodol?

Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Beth bynnag fo'r newidiadau y byddwn yn eu hystyried i'r dyfodol, yr ydym yn ymrwymo i'r gwerthoedd yma:

- 

1 Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un.
- 

2 Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol ein dysgwyr gan sicrhau bod ein hysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- 

3 Sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.
- 

4 Sicrhau cyfundrefn sydd yn cadw ein dysgwyr yn ddiogel ac sydd yn eu gwarchod rhag unrhyw gamdriniaeth.
- 

5 Paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol.
- 

6 Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau yn arferion a phrosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg.
- 

7 Datblygu sefydliadau addysgol sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol.
- 

8 Cryfhau'r laith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog.

1




Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un.

Mae addysg a hyfforddiant yn sylfaen i bob agwedd ar fywyd plant a phobl ifanc – hawl sylfaenol sy'n gallu torri cylchoedd tlodi ac anfantais, a chreu cyfleoedd bywyd newydd. Mae derbyn addysg o safon uchel mewn sefydliadau modern ac addas yn rhoi cychwyn bywyd eithriadol i blant a phobl ifanc, gan gynnig y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i lwyddo a ffynnu. Mae hyn yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb ac yn meithrin uchelgais ar gyfer pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir.



Er bod perfformiad dysgwyr Gwynedd eisoes ymhlith y gorau yng Nghymru, ein huchelgais yw mynd gam ymhellach. Rydym yn benderfynol o wella canlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc, gyda ffocws arbennig ar y rhai mwyaf bregus a'r dysgwyr hynny sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hwn yn gonglfaen i'n strategaeth.

Rydym am sicrhau mynediad cyfartal i addysg o ansawdd ar bob cam – o'r blynyddoedd cynnar, drwy addysg gynradd ac uwchradd, ymlaen i addysg ôl-16, hyfforddiant a byd gwaith. Bydd system integredig o addysg a gofal plentyndod cynnar sy'n gryf, yn gynaliadwy ac wedi'i gwreiddio yn y Gymraeg, iechyd, gofal plant a chymorth i deuluoedd yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer pob plentyn. Bydd ehangu darpariaeth fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau posibl i'w taith addysgol a'u bywyd.



Mae **Cwricwlwm i Gymru** yn gyfle unigryw i wireddu hyn. Gyda chefnogaeth a gweledigaeth, gall ein hysgolion greu profiadau dysgu sy'n wirioneddol ystyrlon ac yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif – profiadau sy'n meithrin gwybodaeth, creadigrwydd, gwytnwch emosiynol a moeseg gref. Ein cyfrifoldeb yw sicrhau bod y gweithlu addysg yn cael yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r gefnogaeth i ddylunio cwricwlwm arloesol, asesu cynnydd dysgwyr yn effeithiol, a chynnig adborth sy'n llywio dysgu o safon uchel.

Rydym hefyd am weld ein hysgolion yn **ffynnu fel sefydliadau sy'n dysgu**, yn cydweithio'n agos, yn rhannu arbenigedd ac yn cynllunio gwelliannau ar y cyd. Drwy gryfhau'r cydweithio hwn, gallwn sicrhau bod cryfderau'n cael eu rhannu ar draws y gyfundrefn, ac y bydd pob aelod o'n gweithlu addysg yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu grymuso i godi safonau ymhellach.



Yn y pen draw, ein nod yw sicrhau bod **pob dysgwr yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd i gyflawni ei botensial llawn** – gan feithrin pobl ifanc uchelgeisiol, hyderus ac ysbrydoledig sy'n barod ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.



Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol ein dysgwyr gan sicrhau bod ein hysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae plant a phobl ifanc Gwynedd yn dangos ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd llesiant, gan ddeall yr heriau y gallant eu hwynebu wrth dyfu i fyny mewn cymdeithas sy'n newid yn gyflym. Trwy gefnogi eu lles corfforol, emosiynol a meddyliol, gallwn eu grymuso i gadw'n iach, adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, a datblygu'r sgiliau i lywio newidiadau bywyd gyda hyder.

Mae llesiant da yn ganolog i bob agwedd ar fywyd plentyn – mae'n meithrin gwydnwch, yn paratoi dysgwyr i ymgysylltu'n llawn â'u haddysg, ac yn tanio chwilfrydedd a meddwl creadigol am y byd o'u cwmpas. Mae'n cynnig manteision parhaol, megis hunan-hyder cryfach, sgiliau cymdeithasol gwell, llai o orbryder ac iselder, a datblygiad deallusrwydd emosiynol – rhinweddau gwerthfawr a fydd yn eu cefnogi drwy gydol eu bywydau.

Mae dull **ysgol gyfan** o hyrwyddo lles yn hanfodol i greu amgylchedd cadarnhaol. Trwy ymgorffori llesiant fel rhan greiddiol o fywyd ysgolion Gwynedd, byddwn yn adeiladu diwylliant lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cefnogi i ffynnu – yn bersonol, yn academiaidd ac yn gymdeithasol.

Bydd hyn yn digwydd mewn ysgolion lle mae athrawon a staff yn teimlo eu bod hwy hefyd yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Drwy roi llesiant wrth wraidd popeth a wnawn, gallwn sicrhau bod ysgolion Gwynedd yn fan lle mae dysgwyr yn datblygu'n unigolion hyderus, gwytnus ac ysbrydoledig, yn barod i wireddu eu potensial llawn.



3

Sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.

O safbwynt dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ein hymrwymiad clir yw parhau i weithredu'n llawn ofnion y Ddeddf newydd, ochr yn ochr â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Nod y strategaeth yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc (0-25 oed) sydd ag ADY yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau addysg a hyfforddiant sy'n briodol ac yn gynhwysol, gan eu galluogi i wneud cynnydd, datblygu sgiliau ac ennill hyder, er mwyn cyflawni eu potensial mewn lleoliadau sy'n addas i'w hanghenion unigol.

Rydym yn falch iawn fod Gwynedd yn sefyll allan fel yr unig sir yng Nghymru lle mae pob aelod o staff y Gwasanaeth ADYaCh sy'n cefnogi ysgolion yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn sicrhau bod cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gael yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnig profiad diwylliannol a ieithyddol cyfoethog i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod recriwtio staff arbenigol – megis Seicolegwyr Addysg cymwysedig dwyieithog, Athrawon Nam Synhwyrdd, Cymorthyddion Ysgol ac arbenigwyr eraill – yn her gynyddol ledled Cymru, ac felly'n gosod pwyslais newydd ar y gwaith o feithrin a denu gweithlu medrus yma yn lleol. Er bod hyn yn her, rydym yn gweld cyfle mawr i fuddsoddi yn ein pobl, datblygu llwybrau gyrfa clir, a denu unigolion brwdfrydig i ymuno â'r maes, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a rhagoriaeth parhaus yn y ddarpariaeth, gan gynnwys ein hysgolion arbennig.

Drwy hyn, ein huchelgais yw sicrhau nad oes plentyn nac unigolyn ifanc yng Ngwynedd yn cael ei adael ar ôl, a'u bod i gyd yn cael yr addysg a'r gefnogaeth sydd eu hangen i ffynnu a chyflawni eu llawn botensial.

4



Sicrhau cyfundrefn sydd yn cadw ein dysgwyr yn ddiogel ac sydd yn eu gwarchod rhag unrhyw gamdriniaeth.

Mae gan bob awdurdod lleol, ysgol a choleg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol a moesol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc dan 18 oed. Oherwydd eu cysylltiadau dyddiol a pharhaus â dysgwyr, mae lleoliadau addysg mewn sefyllfa unigryw i sylwi'n gynnar ar unrhyw arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Ein nod yw sicrhau bod ein hysgolion a'n colegau yn cael yr arweiniad, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth lawn sydd eu hangen arnynt i gadw plant yn ddiogel, i ymateb yn effeithiol pan fo angen, ac i greu amgylcheddau cadarnhaol sy'n hybu lles, diogelwch ac ymddiriedaeth.

Drwy weithio gyda'n gilydd fel cymuned addysg, gallwn wneud yn siŵr fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd nid yn unig yn cael eu diogelu rhag niwed, ond hefyd yn cael y cyfle i ffynnu a datblygu'n llawn mewn awyrgylch diogel a chefnogol.

5



Paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol.

Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau llwybrau addysg clir ac effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n wynebu heriau a rhwystrau ychwanegol – megis Plant Mewn Gofal, pobl ifanc sy'n cael addysg y tu allan i'r ysgol (EOTAS), a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ein nod yw agor drysau at gyfleoedd dysgu cyfoethog a phrofiadau addas a fydd yn eu galluogi i ffynnu, meithrin hyder a datblygu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Bydd datblygu model integredig o addysg yn ganolog i hyn – model sy'n rhoi'r dysgwr wrth galon y system, gan sicrhau mynediad cyfartal at ddysgu wedi'i gynllunio'n ofalus o amgylch eu hanghenion unigol drwy gydol eu taith addysgol. Bydd hyn yn adeiladu ar y diwylliant cryf o gynhwysiant sydd eisoes yn nodwedd allweddol o'n hysgolion yng Ngwynedd, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn parhau i fod yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol.

Ar yr un pryd, rydym yn benderfynol o gyfoethogi profiadau'r dysgwyr mwyaf abl a thalentog, gan ymestyn eu cyfleoedd academiaidd a chreadigol er mwyn eu galluogi i herio eu hunain, datblygu sgiliau newydd a chyrraedd eu gwir botensial.

Drwy gyfuno cefnogaeth gref gyda chyfleoedd heriol a chyffrous, ein huchelgais yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn cael y gefnogaeth a'r profiadau sydd eu hangen i wireddu eu breuddwydion a ffynnu yn y dyfodol.



Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau yn arferion a phrosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg.

Dros y degawd diwethaf, mae buddsoddiad sylweddol o dros £80 miliwn wedi gwella cyfleusterau dysgu mewn ysgolion ar draws Gwynedd. Er gwaethaf hyn, rydym yn cydnabod bod angen parhau i foderneiddio llawer o adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl addas i gefnogi Cwricwlwm i Gymru ac anghenion dysgwyr heddiw a'r dyfodol.

Drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a thrwy fuddsoddiadau pellach gan y Cyngor, ein nod yw creu ysgolion modern, hyblyg ac arloesol sy'n cynnig cyfleusterau dysgu, chwaraeon ac awyr agored o'r radd flaenaf. Bydd yr amgylcheddau hyn yn cefnogi dulliau dysgu creadigol ac amrywiol, gan roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ffynnu y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae Strategaeth Addysg Ddigidol Gwynedd, a fabwysiadwyd yn 2021, yn allweddol i'r weledigaeth hon. Drwy sicrhau mynediad cyfartal i dechnoleg o safon, rydym yn grymuso dysgwyr ac athrawon i ddatblygu'r sgiliau digidol, creadigol a beirniadol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i fod yn garbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Felly, wrth gynllunio adeiladau newydd, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ysgolion sy'n amgylcheddol gyfeillgar, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn hyrwyddo ethos gwyrdd a theithio llesol.

Gyda rhaglen fuddsoddi genedlaethol newydd yn cael ei chyhoeddi yn 2023, byddwn yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y naw mlynedd nesaf. Ein huchelgais yw creu ystâd ysgolion gynaliadwy, modern ac ecogyfeillgar sy'n cefnogi safonau addysgu o'r radd flaenaf ac yn gallu ymateb i anghenion cymdeithasol a demograffig newidiol y Sir.





Datblygu sefydliadau addysgol sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol.

Mae datblygu sefydliadau addysgol fel canolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol yn hanfodol er mwyn meithrin cymunedau cryfach, mwy cydlynol a chynaliadwy. Mae ysgolion a cholegau yn meddu ar y gallu i fynd ymhell y tu hwnt i'w rôl draddodiadol, gan ddod yn fannau sy'n uno pobl a chynnig cefnogaeth a chyfleoedd eang i'r gymuned gyfan.

Drwy gydweithio'n agos â sefydliadau lleol, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, gall ysgolion a cholegau ddarparu profiadau dysgu amrywiol ac ystyrlon sy'n cynyddu sgiliau, yn ehangu dyheadau ac yn cryfhau cysylltiadau cymdeithasol.

Fel sefydliadau sy'n dysgu, mae ysgolion yn adeiladu partneriaethau gyda rhieni, ysgolion eraill, prifysgolion, busnesau a sefydliadau cyhoeddus. Trwy'r cydweithio hwn, maent yn gallu ymateb yn hyblyg i newid, rhannu arbenigedd ac arloesi wrth ddatblygu cyfleoedd newydd i ddysgu a thyfu gyda'i gilydd.

Yn y modd hwn, daw ein hysgolion a'n colegau yn fannau canolog i fywyd cymunedol, yn chwarae rhan hanfodol nid yn unig wrth gefnogi cynnydd academiaidd, ond hefyd wrth feithrin cydlyniant cymdeithasol, datblygu sgiliau bywyd a chreu dyfodol gwell i bawb.



8



Cryfhau'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog.

Yn ôl Cyfrifiad

2021

mae

70.9% o blant**3-4 oed**

yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg - tystiolaeth o'r sylfaen gryf sydd eisoes yn bodoli yn ein cymunedau.



Mae gosod y sylfaen hon mor gynnar â phosibl yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu paratoi ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog yn ein hysgolion maes o law.

Mae'n galonogol bod cyfran uchel o blant tair oed yn derbyn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg, ond rydym yn cydnabod bod heriau recriwtio yn y maes. Er mwyn cynnal y safonau a'r cyfleoedd gorau i blant ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg o oedran cynnar, rhaid cynllunio'n ofalus i sicrhau bod ein gweithlu yn parhau i feddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol ac yn derbyn cyfleoedd i'w datblygu ymhellach.

Rydym yn cydnabod nad yw'r un cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ym mhob ysgol ar hyn o bryd, yn enwedig yn y tair ysgol drosiannol yn y sir. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y cyd rhwng yr ysgolion hyn a'r Adran Addysg eisoes yn dwyn ffrwyth, ac mae cynnydd yn cael ei weld. Bydd angen amser i'r Gymraeg wreiddio'n llawn yn yr ysgolion hyn, ond rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion yng ngweddill Gwynedd. Bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Strategaeth hon, i'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at y weledigaeth genedlaethol Cymraeg 2050.

Mae

97.3%

o

athrawon cynradd

ac

86.3%

o

athrawon uwchradd

yn nodi eu bod yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg – sef cryfder sylfaenol unigryw i'r sir.



Eto i gyd, mae recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg yn parhau'n her, yn enwedig mewn pynciau arbenigol a rhai ardaloedd penodol. Mae cadw a recriwtio cymorthyddion ysgol hefyd yn her gynyddol.

Ein hymateb fydd parhau ac ehangu'r cyfleoedd i'r gweithlu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, darparu hyfforddiant a gwersi iaith i staff, a hyrwyddo gyrfaoedd deniadol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd. Trwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau dyfodol lle mae pob dysgwr yn elwa ar addysg sy'n meithrin eu sgiliau dwyieithog ac yn eu grymuso i fyw a gweithio'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Pan fyddwn yn cyrraedd Medi 2035, sut y byddwn yn gwybod fod y strategaeth hon wedi llwyddo i roi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth ac sydd yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial?



Ein huchelgais yw rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd. Rydym yn credu bod pob plentyn yn haeddu teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i ffynnu. Byddwn yn meithrin eu lles corfforol ac emosiynol, eu hamddiffyn rhag niwed, a chynnig profiadau bywyd cynnar sy'n eu galluogi i dyfu'n unigolion hyderus, chwilfrydig a chreadigol.



Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf – cyfleoedd sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gwerthoedd i'w galluogi i wireddu eu potensial llawn. Rydym am weld ein dysgwyr yn tyfu'n ddinasyddion byd-eang cyfrifol, yn barod i wynebu'r heriau ac i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n perthyn i'r 21ain ganrif. Bydd hyn yn golygu mynd i'r afael yn weithredol â bylchau mewn cyfleoedd ac anghydraddoldebau, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.



Byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu sgiliau dysgwyr ymhellach – nid yn unig y cymwysterau academiaidd, ond hefyd y sgiliau bywyd allweddol megis creadigrwydd, arloesedd, entrepreneuriaeth, gwydnwch a dyfalbarhad. Byddwn yn sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, ac yn cael eu cefnogi i ddilyn llwybrau bywiog a phwrpasol sy'n eu harwain at fywydau cynhyrchiol a boddhaus.



Byddwn yn cefnogi ysgolion Gwynedd i ddatblygu cwrwclwm lleol sy'n adlewyrchu ein hanes, ein hiaith, ein diwylliant a'n hamgylchedd unigryw. Bydd hyn yn meithrin balchder yn eu cymunedau ac yn creu dealltwriaeth ddyfnach o'u cyfrifoldebau tuag at y blaned. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan ganolog o'n gweledigaeth, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb elwa ohoni, ac yn arloesi yn y modd rydym yn cefnogi hwyrddyfodiaid i'w meistrolï.



Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf. Byddwn yn parchu ac yn grymuso ein hathrawon a'n gweithlu addysg ehangach, gan sicrhau eu lles a chynnig cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol. Bydd hyn yn ein galluogi i greu diwylliant lle mae dysgu, arloesi a chefnogi ei gilydd yn ganolog.



Llais y dysgwr fydd wrth wraidd pob penderfyniad a wnawn. Byddwn yn hyrwyddo Hawliau'r Plentyn yn weithredol, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gynllunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.




Drwy ddarparu safonau addysg uchel mewn amgylcheddau modern, hyblyg ac ecogyfeillgar, a thrwy ddefnyddio technoleg yn greadigol i gefnogi dysgu, byddwn yn adeiladu system addysg sy'n paratoi ein plant a'n pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol. Bydd gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill, asiantaethau a'r gymuned leol yn ein galluogi i gynnig gwasanaethau sydd yn deg, yn gynhwysol, ac sy'n cynnig gwerth da am arian.



Ac uwchlaw popeth, byddwn yn dathlu llwyddiannau ein dysgwyr ac yn gwerthfawrogi pob cyflawniad, bach a mawr. Drwy gydweithio, gallwn sicrhau dyfodol lle mae pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn ffynnu – gan greu cymunedau cryfach, mwy cydlynol ac yn llawn gobaith ar gyfer y dyfodol.

Pam fod angen i ni edrych i foderneiddio ysgolion yma yng Ngwynedd?

Effaith Newid Demograffeg ar Niferoedd Dysgwyr:



Grŵp Oedran	2021	2011	+/-
0-15 oed	19,423	20,951	-7.3%
16-24 oed	14,260	16,723	-14.7%
Pob Oed	117,397	121,874	-3.7%



Dros yr un cyfnod, mae nifer y genedigaethau yng Ngwynedd wedi gostwng

25%

gyda gostyngiad cyson bob blwyddyn rhwng 2012 a 2022 o 1,327 yn 2012 i 997 yn 2022. Am y tro cyntaf, rydym wedi gweld nifer y genedigaethau yng Ngwynedd yn gostwng o dan

1,000 y flwyddyn.




Mae'r gostyngiad cyson yn nifer y genedigaethau yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf wedi cael effaith amlwg ar niferoedd plant yn y grwpiau oedran uchod, ac yn sgil hynny wedi cael effaith ar niferoedd plant yn ein hysgolion hefyd. Dengys y tabl isod niferoedd dysgwyr yn ysgolion cynradd Gwynedd rhwng 2016 a'r niferoedd a ragwelir erbyn 2026, sef gostyngiad o 1,243 (-14%):

Rhagwelir gostyngiad o

**1,243
(14%)**


yn niferoedd y dysgwyr yn ysgolion cynradd Gwynedd erbyn

2026



Niferoedd 2016-2026

Ar hyn o bryd, rydym yn gweld effaith y gostyngiad hwn ar ei waethaf yn y sector gynradd yng Ngwynedd, gyda'r gostyngiad mwyaf i'w weld yn y Cyfnod Sylfaen fel y dengys y tabl isod:



Rydym hefyd yn ymwybodol bod effaith y newid demograffeg a'r gostyngiad yn niferoedd plant i'w weld yn fwy dwys mewn rhai ardaloedd a dalgylchoedd yng Ngwynedd. O ystyried y gyfundrefn gynradd yn ei chyfanrwydd, o'r 78 o ysgolion cynradd a geir yng Ngwynedd, un ysgol gydol oes a 5 safle cynradd Ysgol Bro Idris, mae 25 ohonynt gyda llai na 42 o ddysgwyr.


Mae 15 o ysgolion yng Ngwynedd sydd mewn gwarchodaeth gyllidol, gyda llai na 30 o ddysgwyr, ac o'r rheiny, mae 6 gyda llai nag 20 o ddysgwyr.

Mae'r gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion yn golygu bod gan Wynedd lefelau uchel o leoedd gweigion yn ein hysgolion Cynradd ac Uwchradd. Yn 2024, roedd gan Wynedd 24% o gyfanswm ei gapasiti heb ei lenwi, sef y ganran uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i dros 4,700 o leoedd gweigion rhwng ein hysgolion Cynradd ac Uwchradd.

Tegwch Cyllidol

Mae system ariannu ysgolion Gwynedd yn cael ei seilio ar ddyraniad fesul disgybl, sy'n ffordd deg a thryloyw o ddosbarthu adnoddau yn ôl niferoedd dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau cysondeb a thegwch i bob plentyn, yn enwedig mewn ysgolion llai neu mewn ardaloedd gwledig lle mae niferoedd disgyblion yn isel.

Dyna bwrpas y cynllun gwarchodaeth – mecanwaith unigryw sy'n sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynnal lefel isafswm staffio er mwyn darparu addysg o safon. Hebdo, byddai rhai ysgolion mewn sefyllfa lle nad oedd modd darparu athro ar gyfer dosbarth cyfan.



Ar hyn o bryd, mae 23 o ysgolion cynradd ac un ysgol gydol oes yn rhan o'r cynllun, ac mae'n debygol y bydd y nifer hwn yn cynyddu dros amser. Mae hyn yn adlewyrchu'r dirywiad parhaus mewn niferoedd disgyblion, ac yn golygu y bydd mwy o ysgolion yn dibynnu ar y cymorth hwn i sicrhau darpariaeth addysgiadol o safon. Er bod hyn yn gadarnhaol i'r ysgolion sy'n cael cefnogaeth uniongyrchol, mae'n bwysig nodi bod yr adnoddau'n cael eu hariannu drwy leihau dyraniad i weddill ysgolion Gwynedd.

Mae'r sefyllfa hon yn gallu arwain at wahaniaethau amlwg rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae gwahaniaeth o dros

£10,500+

y pen rhwng dyraniad ysgol gynradd sy'n derbyn gwarchodaeth ac ysgol hebdo, a thua

£1,500

y pen yn y sector uwchradd.

Tair ysgol fechan



66

o blant

6

o athrawon

Ysgol unigol



66

o blant

2

o athrawon

Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at sefyllfaoedd lle gall tair ysgol fechan gyda chyfanswm o 66 o blant gyflogi hyd at 6 athro, tra byddai ysgol unigol gyda'r un nifer o ddisgyblion ond heb gymorth gwarchodaeth yn gallu fforddio dim ond 2 athro.

Rydym yn deall bod hyn yn gallu bod yn destun rhwystredigaeth i benaethiaid ac ysgolion mwy, gan greu ymdeimlad o amgylchiadau gwaith anghyson. Dyna pam ein bod yn ymrwymo i adolygu ac esblygu'r trefniadau ariannu yn barhaus, gyda ffocws ar sicrhau:

Cysondeb a thegwch i bob plentyn, beth bynnag fo maint eu hysgol.

Cefnogaeth gynaliadwy i ysgolion bach sy'n rhan annatod o'n cymunedau gwledig ac sy'n cyfrannu'n helaeth i gynnal yr iaith Gymraeg a diwylliant lleol.

Tryloywder a deialog agored gyda phenaethiaid ac ysgolion o bob maint i sicrhau bod pawb yn deall y rhesymeg a'r egwyddorion tu ôl i'r dyraniadau.

Mae'r cynllun gwarchodaeth felly yn adlewyrchiad o'n hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn Gwynedd yn cael yr un cyfle i dderbyn addysg o safon, ond hefyd yn ein hatgoffa o'r angen i ddod o hyd i gydbwysedd teg ac ystyriol wrth rannu adnoddau ar draws y sir. Drwy weithio gyda'n gilydd – ysgolion bach a mawr, cymunedau a phenaethiaid – gallwn sicrhau system ariannu sy'n deg, cynaliadwy ac yn galluogi pob dysgwr i ffynnu.

Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth gref ac ysbrydoledig yn hanfodol i sicrhau dyfodol llwyddiannus i'n plant a'n pobl ifanc yng Ngwynedd. Er bod sawl her yn wynebu'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd – megis recriwtio, cadw arweinwyr a rheoli pwysau gwaith – rydym yn gweld hyn fel cyfle i ail-lunio a chryfhau'r ffordd rydym yn cefnogi arweinwyr ysgolion ar bob lefel.


Rydym yn cydnabod bod angen rhoi mwy o amser digyswllt a chefnogaeth i benaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr canol fel y gallant ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig – arwain yn effeithiol ac ysbrydoli eu timau. Mae'n bwysig i ni hefyd wneud y daith rhwng rôl arweinydd canol a swydd pennaeth yn fwy deniadol, gan ddangos yn glir y cyfleoedd datblygu personol a phroffesiynol sydd ar gael.

Er mwyn sicrhau trefniadau olyniaeth cadarn, byddwn yn cryfhau'r cydweithio rhwng yr Awdurdod, llywodraethwyr a phenaethiaid. Bydd hyn yn cynnwys adnabod unigolion talentog yn gynnar, cynnig cyfleoedd mentora a datblygu, a chreu llwybrau clir i arweinyddiaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i feithrin arweinwyr ifanc sy'n hyderus, medrus ac yn barod i gamu i fyny i rolau uwch pan fydd yr angen.

Rydym yn ymwybodol bod proffil oedran ein harweinwyr presennol yn golygu y bydd angen inni fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o arweinwyr dros y blynyddoedd nesaf. Drwy weithio'n rhagweithiol a chynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth, gallwn sicrhau parhad a sefydlogrwydd i'n hysgolion a'n cymunedau.

Ar hyn o bryd, mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi arwain yn gymharol fach. Ond rydym yn benderfynol o newid hyn drwy greu system sy'n denu, cadw a meithrin arweinwyr o'r radd flaenaf, gan wneud arweinyddiaeth ysgol yng Ngwynedd yn opsiwn gyrfael atyniadol a gwerthfawr.

Yn y pen draw, ein nod yw adeiladu ecosystem arweinyddiaeth gynaliadwy sy'n cynnig cefnogaeth, cyfleoedd a chydweithio. Bydd hyn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn elwa ar addysg sy'n cael ei harwain gan unigolion brwdfrydig, medrus ac uchelgeisiol sy'n gosod safonau uchel ac yn ysbrydoli llwyddiant.



Diogelu

Mae diogelu plant a sicrhau llesiant staff yn flaenoriaeth barhaus i ni yng Ngwynedd. Mae ein trefniadau mewnol a'r arweiniad a roddir i ysgolion yn gadarn, gan greu sylfaen gref i sicrhau system ddiogel a chefnogol i bawb.

Rydym yn cydnabod, serch hynny, fod maint rhai ysgolion yn gallu creu heriau ymarferol. Mewn sefyllfaoedd o absenoldeb staff neu brinder athrawon llanw, gall fod yn anodd cynnal y gymhareb ddelfrydol o oedolion i blant, ac weithiau gall hyn olygu cau dosbarthiadau neu ysgolion am gyfnod byr. Er ei fod yn heriol, mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio rhagweithiol a datblygu systemau mwy gwydn i sicrhau lefelau staffio diogel ym mhob ysgol.

Mae'r defnydd o systemau digidol i gofnodi pryderon am lesiant eisoes yn arfer rhagorol mewn mwyafrif helaeth o'n hysgolion. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu'n gyflym ac yn gywir, ac yn galluogi'r Awdurdod i fonitro'n effeithiol o bell. Rydym yn cydnabod bod cost y meddalwedd yn gallu bod yn rhwysr i rai ysgolion llai, ac felly mae cyfle clir i ni ystyried ffyrdd mwy cynaliadwy o sicrhau bod pob ysgol yn elwa ar yr un gefnogaeth a'r un lefel o dechnoleg.

Yn ogystal â'r trefniadau ymarferol hyn, rydym yn deall mai diwylliant ysgol cadarnhaol yw'r allwedd i sicrhau lles parhaol i ddisgyblion a staff. Gall unrhyw ddiwylliant negyddol, lle bynnag y mae'n codi, gael effaith andwyol ar gymuned gyfan yr ysgol. Dyna pam rydym yn benderfynol o greu amgylcheddau sy'n hyrwyddo parch, ymddiriedaeth a chefnogaeth, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi.

Mae gofynion diogelwch corfforol hefyd yn cynyddu. Mae angen sicrhau trefniadau mynediad diogel, uwchraddio seilwaith a gosod ffensys lle bo hynny'n briodol. Er bod rheoli cymaint o ysgolion ar draws ardal fawr yn golygu bod cyllidebau'n dynn, rydym yn benderfynol o flaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith modern a diogel.

Wrth edrych ymlaen, ein huchelgais yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn gallu dysgu mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chynhwysol, lle mae llesiant a diogelwch yn sylfaen i bopeth a wnawn. Trwy gryfhau staffio, ehangu mynediad digidol, hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ac uwchraddio ein cyfleusterau, gallwn fod yn hyderus y bydd ein hysgolion yn parhau i fod yn leoedd lle mae pob dysgwr a phob aelod o staff yn ffynnu.

Daearyddiaeth


Yma yng Ngwynedd, mae'r cysylltiad agos rhwng ein poblogaeth a'n cefn gwlad unigryw yn creu patrwm arbennig sy'n cael dylanwad mawr ar y sector addysg. Mae'r sir yn gartref i dirweddau naturiol eang a chymunedau gwledig cryf, yn ogystal â threfi mwy poblog fel Bangor a Chaernarfon. Mae'r cymysgedd hwn yn rhan o'n cymeriad, ac yn cynnig cyfleoedd a heriau i sut rydym yn trefnu a darparu addysg i'n plant a'n pobl ifanc.



Mewn ardaloedd gwledig, mae poblogaeth is a chymunedau gwasgaredig yn gallu arwain at nifer llai o blant yn y dalgylchoedd ysgolion. Ceir hyd yn oed enghreifftiau o ysgolion cynradd lle nad oes 10 o blant yn byw yn y dalgylch bellach. Nid yn unig yn y cymunedau gwledig y mae'r newid hwn i'w weld – mae rhai wardiau ym Mangor a Chaernarfon hefyd yn profi lleihad yn nifer y plant.

Rydym yn cydnabod fod ysgolion yn chwarae rôl ganolog mewn cymunedau gwledig – nid yn unig fel manau dysgu, ond fel canolfannau sy'n meithrin yr iaith Gymraeg, diwylliant a chydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n glir na allwn barhau i ddarparu addysg yn union fel yr ydym ar hyn o bryd mewn cymunedau lle nad oes digon o blant i gynnal system gynaliadwy.

Yn hytrach, mae hyn yn gyfle i ni ailfeddwl ac ail-lunio'r ddarpariaeth addysg mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob plentyn, waeth ble maent yn byw, yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel, gyfoes ac addas i'w hanghenion. Drwy gynllunio'n ofalus a gweithio gyda chymunedau, gallwn greu rhwydwaith ysgolion sy'n gynaliadwy, yn deg ac yn gadarn – rhwydwaith sy'n parchu ein tirwedd gwledig unigryw ac yn cynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd.



Cludiant

Mae darparu cludiant addysg yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn cefnogi dysgwyr yng Ngwynedd, yn enwedig oherwydd natur wledig y sir a'r dosbarthiad gwasgaredig o'r boblogaeth. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am drefnu a chyllido cludiant i ddisgyblion sy'n gymwys, gan sicrhau eu bod yn gallu teithio'n ddiogel o'u cartrefi i'r ysgol benodedig. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o drafnidiaeth, o fysiau i dacsis, ac mae'n rhoi sylw arbennig i'r rhai sydd â anghenion addysgol arbennig.

Yn 2024/25, rhagwelir y bydd Gwynedd yn buddsoddi tua £8.5 miliwn mewn cludiant i ddisgyblion – sef 7.25% o gyllideb Addysg y sir. Mae hyn yn dyst i'n hymrwymiad i sicrhau mynediad cyfartal i addysg o safon i bob plentyn a pherson ifanc, waeth ble maent yn byw.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r gofynion amgylcheddol a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â chludiant. Dyna pam yr ydym yn gweithio i greu system fwy effeithlon a chynaliadwy, gan gynnwys cynllunio llwybrau cludiant mwy cost-effeithiol, lleihau allyriadau, a hyrwyddo opsiynau amgen fel bysiau cerdded a chynlluniau beicio lle bo'n ymarferol.

Wrth wneud penderfyniadau am ddyfodol darpariaeth addysg yng Ngwynedd, bydd effaith ar gludiant yn cael ei hystyried bob tro fel rhan greiddiol o'r broses. Mae hyn yn sicrhau nad yn unig y caiff dysgwyr addysg o ansawdd, ond hefyd fod y system yn cefnogi dyfodol mwy gwyrdd, cynaliadwy a chydawns â'n hymrwymiad i sero net erbyn 2030.



Safonau

Mae'n anodd mesur yn uniongyrchol effaith strwythur ein cyfundrefn addysg ar safonau, ond mae'n galonogol gweld bod safonau addysg yng Ngwynedd yn gadarn, ac mae adroddiadau Estyn yn adlewyrchu hyn yn gyson ar draws pob sector a maint ysgol. Mae hyn yn dyst i gryfder ein hysgolion, i arweinyddiaeth effeithiol ac i ymroddiad ein staff addysgu.

Er hynny, rydym yn cydnabod bod safonau'n fregus pan fo unrhyw wendid yn ymddangos. Mewn sir fel Gwynedd, lle mae llawer o sefydliadau llai, gall diffyg gwydnwch strwythurol olygu fod unrhyw newid – megis colli arweinydd pwnc neu bennaeth – yn cael effaith sylweddol. Yn aml, mae'n heriol dod o hyd i olynnydd ar gyfer rolau arbenigol neu uwch, ac mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i feithrin capasiti a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Dyma'r prif risg i safonau yn y dyfodol – nid diffyg ansawdd addysgu na chadernid presennol, ond diffyg gwydnwch hirdymor os na chaiff hyn ei lunio'n fwriadol.

Mae'r her hon hefyd yn gyfle: cyfle i greu system arweinyddiaeth mwy hyblyg a chydweithredol. Drwy feithrin rhwydweithiau arbenigedd cryfach rhwng ysgolion, rhannu arweinwyr pwnc a datblygu modelau arweinyddiaeth ar y cyd, gallwn sicrhau bod arbenigedd ar gael i bawb, nid yn gaeth i un ysgol yn unig. Bydd datblygiad proffesiynol parhaus yn allweddol i baratoi mwy o unigolion i gamu i mewn i rolau arwain, gan sicrhau parhad a sefydlogrwydd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar leihau'r risg o fylchau arwain ac ar gryfhau gwydnwch ar draws y sir. Trwy gynlluniau olyniaeth cadarn, cefnogaeth barhaus ac ymrwymiad i gydweithio, gallwn sicrhau bod safonau addysg Gwynedd nid yn unig yn cael eu cynnal ond hefyd yn cael eu codi ymhellach. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'n cymunedau a'n rhieni, ac yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn Gwynedd yn elwa ar addysg o'r safon uchaf.



Dalgylchoedd a Chymunedau

Mae gan bob ysgol ei dalgylch a'i chymuned unigryw i'w gwasanaethu. Ers y 1990au, mae rhieni wedi gallu mynegi eu hawl i ddewis ysgol ar gyfer eu plant, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dewis ysgolion y tu allan i'w dalgylch traddodiadol. Mae sawl rheswm dros hyn – o hwylustod o ran teithio, argaeledd clwb cyn neu ar ôl ysgol, ac argraff ar ansawdd profiadau dysgu, i leoliad teulu estynedig neu rwydwaith cymdeithasol.

O ganlyniad, mae bron bob ysgol yng Ngwynedd bellach yn cynnwys cymysgedd o blant o'i dalgylch a dalgylchoedd cyfagos. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at ddiboblogi sylweddol mewn dalgylchoedd penodol, i'r graddau nad oes digon o blant lleol i gynnal ysgol yn gynaliadwy.

Er gwaethaf hyn, mae ysgolion yn parhau i gael eu gweld fel calon cymunedau Gwynedd. Yn nifer o bentrefi a chymunedau, mae'r ysgol yn aml yn un o'r ychydig sefydliadau cyhoeddus sy'n parhau'n weithredol, ac mae'r ymdrech i sicrhau ei dyfodol yn cael ei ystyried yn gyfystyr â diogelu dyfodol y gymuned gyfan. Mae hyn yn dangos pa mor ganolog yw ysgolion i'n hunaniaeth leol, i gynnal yr iaith Gymraeg, a i feithrin teimlad o berthyn a chydlyniant.

Wrth i'r cyswllt rhwng teuluoedd a'u dalgylchoedd newid, mae'r berthynas rhwng ysgolion a'u cymunedau hefyd yn esblygu. Rydym felly'n gweld cyfle i ail-ddifinio'r syniad o ddalgylch – nid fel ffin weinyddol yn unig, ond fel sylfaen gadarn sy'n rhoi'r profiadau dysgu gorau wrth ganolbwyntio ar les a llwyddiant pob plentyn.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob ysgol, beth bynnag fo'i lleoliad, yn rhan o rwydwaith cynaliadwy sy'n adlewyrchu ei chymuned ac yn cynnig addysg o safon uchel. Drwy wneud hyn, gallwn sicrhau nid yn unig fod ysgolion Gwynedd yn parhau'n ffynnu, ond hefyd fod ein cymunedau'n parhau'n fyw, yn gryf ac yn barod ar gyfer y dyfodol.



Eiddo

Mae gan Wynedd nifer uchel o ysgolion o'i gymharu â niferoedd y plant sy'n mynychu, ac mae hyn yn creu gofyn sylweddol o ran cynnal a chadw'r adeiladau. Serch hynny, mae'n galonogol nodi fod adroddiadau cyflwr ein hysgolion yn gyffredinol yn gadarnhaol, gan adlewyrchu'r buddsoddiad a'r gwaith gofal a fu dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn ymwybodol fod pwysau chwyddiant a chyfyngiadau ar gyllidebau refeniw yn debygol o wneud hi'n anodd cynnal pob adeilad i'r safon uchaf bob amser. Fodd bynnag, mae hyn yn gyfle i ni edrych ar y mater yn fwy strategol ac ar y tymor hir. Bydd cynllunio gofalus yn ein galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael, gan flaenoriaethu'r prosiectau hynny sy'n dod â'r manteision mwyaf i'n dysgwyr a'n cymunedau.

Mae buddsoddiadau sylweddol eisoes wedi digwydd – gyda dros £73 miliwn o wariant cyfalaf dros y degawd diwethaf ynghyd â grantiau Llywodraeth Cymru megis y grant ysgolion cymunedol a'r grant ADY. Mae'r rhain wedi gwella isadeiledd nifer o ysgolion, gan gryfhau'r amgylchedd dysgu a sicrhau cyfleusterau mwy modern. Mae'r rhain yn enghreifftiau clir o sut mae buddsoddiad cyfalaf wedi trawsnewid profiadau dysgu mewn sawl cymuned.

Wrth edrych ymlaen, mae'n rhaid i ni gydnabod y realiti y gall rhai adeiladau newydd fod yn ddrutach i'w cynnal na'r hen adeiladau, ond mae'r buddion i ddysgu ac i iechyd a lles ein dysgwyr yn sylweddol. Bydd angen inni fod yn feirniadol o'n penderfyniadau buddsoddi, a bydd hynny'n golygu, mewn rhai achosion, peidio â buddsoddi mewn rhai ysgolion dros gyfnod estynedig er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y mannau lle cânt yr effaith fwyaf.

Drwy fabwysiadu dull cynllunio hir-dymor, integreiddio ein defnydd o gyllidebau refeniw a chyfalaf, ac adeiladu ar gryfderau ein rhaglen fuddsoddi bresennol, gallwn sicrhau bod ein hysgolion yn parhau i gynnig amgylcheddau modern, diogel ac ysbrydoledig i'n plant a'n pobl ifanc. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â chynnal adeiladau, ond â chreu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein system addysg gyfan.



Ynni

Mae defnydd ynni yn chwarae rhan allweddol yng nghynaliadwyedd ein hysgolion, ac mae'n gyfle i ni arwain ar newid cadarnhaol. Mae Cymru a Chyngor Gwynedd wedi ymrwymo i leihau ein hól troed carbon a chyflawni targedau amgylcheddol uchelgeisiol. Yn y cyd-destun hwn, mae ysgolion Gwynedd mewn sefyllfa gref i wneud cyfraniad pwysig – nid yn unig drwy leihau eu defnydd o ynni, ond hefyd drwy feithrin ymwybyddiaeth a sgiliau cynaliadwyedd ymhlith y genhedlaeth nesaf.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion Gwynedd yn defnyddio oddeutu

17,000,000 kWh



o ynni bob blwyddyn, gyda chyfuniad o drydan, nwy, olew a biomas. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu

3104 tonnall



o allyriadau carbon – lefel y byddai angen plannu tua 147,000 o goed bob blwyddyn i'w gwrthbwyso.



147,000

Mae'n glir fod ysgolion mwy newydd a modern eisoes yn llawer mwy effeithlon – bron ddwywaith yn well – a bod defnydd fesul disgybl yn sylweddol is mewn ysgolion mwy. Mae hyn yn tynnu sylw at y cyfle mawr i wella effeithlonrwydd wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r effaith gadarnhaol o leihau defnydd ynni yn mynd ymhell y tu hwnt i dargedau carbon yn unig. Mae rheoli ynni'n effeithiol yn creu amgylcheddau dysgu mwy cyfforddus ac iachus, gan osgoi ystafelloedd sy'n rhy oer neu'n rhy boeth, a chynorthwyo disgyblion i ganolbwyntio a llwyddo'n academiaidd. Yn ogystal, mae'r arbedion ariannol o reoli ynni'n ddoeth yn rhyddhau adnoddau gwerthfawr y gellir eu hailfuddsoddi yn yr hyn sy'n bwysicaf – profiadau dysgu cyfoethog, adnoddau newydd a chefnogaeth i les a datblygiad ein plant a'n pobl ifanc.

Mae hefyd agwedd addysgol allweddol: drwy weithredu arferion cadwraeth ynni, mae ein hysgolion yn dod yn fodelau byw o ymddygiad cyfrifol, gan ddangos i ddisgyblion sut i fyw'n gynaliadwy. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac yn eu grymuso i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddyfodol gwell.

Er mwyn cyflawni ein hymrwymadau i ostwng ein hól troed carbon, bydd angen i ni ystyried defnydd ynni wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hir. Drwy fuddsoddi mewn adeiladau mwy effeithlon, hyrwyddo ynni adnewyddadwy, ac annog diwylliant o gynaliadwyedd ym mhob ysgol, gallwn greu system addysg sy'n gyfrifol, yn gynaliadwy ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i wneud yr un peth.

MODERNEIDDIO ADDYSG

Er mwyn cynllunio a rheoli newid yn effeithiol, mae'n hanfodol bod gennym strategaeth eglur, gadarn ac ymarferol sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Ni ddylai hon fod yn ddogfen weinyddol yn unig, ond yn hytrach yn fap ffordd sy'n cynnig gweledigaeth ac yn creu momentwm i wella. Mae'n rhaid i'r strategaeth adlewyrchu'n glir ein dyhead i greu ystod o ysgolion sy'n cynnig profiadau addysg o'r safon uchaf, gan sicrhau eu bod yn addas i ddisgyblion heddiw ac yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym eisoes wedi nodi ein hegwyddorion craidd, ond mae'r cam nesaf yn gofyn am amcanion strategol clir a chydlynol sy'n llywio pob penderfyniad a buddsoddiad. Bydd yr amcanion hyn yn gweithredu fel colofnau i gynnal y broses o foderneiddio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, gan sicrhau fod pob sector – o'r blynyddoedd cynnar i'r uwchradd ac ymlaen i addysg ôl-16 – yn symud ymlaen gyda phwrpas cyffredin.

Mae hyn yn golygu creu strwythur lle mae pob penderfyniad ynghylch ysgolion yn seiliedig ar werthoedd megis tegwch, cynhwysiant, cynaliadwyedd, a chydweithrediad. Mae'n ymwneud nid yn unig â sicrhau adeiladau modern ac adnoddau addas, ond hefyd â meithrin ethos lle mae arweinyddiaeth gref, dysgu o ansawdd uchel, a lles disgyblion yn cael eu gosod wrth wraidd pob cam.

Yn ymarferol, bydd strategaeth o'r fath yn diffinio blaenoriaethau fesul sector, yn cynnig atebion clir i'r heriau sy'n ein hwynebu, ac yn gosod mecanweithiau i fonitro cynnydd a mesur llwyddiant. Drwy wneud hyn, gallwn sicrhau nad yw'r broses o foderneiddio yn adwaith byr-dymor i bwysau, ond yn gynllun hirdymor sy'n paratoi ein hysgolion i ffynnu mewn cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n newid yn barhaus.

Yn y pen draw, bydd strategaeth glir ac ysbrydoledig yn rhoi hyder i'n cymunedau, yn rhoi arweiniad pendant i'n hysgolion, ac yn cynnig sicrwydd i'n dysgwyr eu bod yn rhan o system addysg sy'n cael ei llunio gyda'u dyfodol nhw yn ganolog iddi.



Beth yw'r amcanion strategol sydd yn arwain y gwaith o foderneiddio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd?

Datblygu rhwydwaith o ysgolion sydd yn rhagorol yn addysgol ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy, gan sicrhau dyfodol cadarn i'n darpariaeth addysg yn y tymor hir.

Ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio ysgolion sydd i'w cadw yn y tymor hir, fel eu bod yn diwallu'r safonau dylunio uchaf posibl ac yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol, cyfoes ac effeithiol.

Creu patrwm darpariaeth sy'n galluogi pob lleoliad dysgu i gynnig addysg o ansawdd uchel i'w holl ddysgwyr, boed fel ysgol unigol neu fel rhan o ffederasiwn neu drefniant cydweithredol gyda lleoliadau a darparwyr eraill.

Cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion polisi ehangach – megis adfywio cymunedol, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, a chynyddu cyfleoedd lles – drwy ddatblygu seilwaith modern a chynhwysol sy'n cefnogi'r nodau hyn.

Sicrhau amgylcheddau ysgol sy'n ysbrydoli dysgwyr i gyrchu cwricwlwm cyfoethog ac ysgogol, gan eu hannog i gyflawni eu llawn botensial, ochr yn ochr â rhaglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n hyrwyddo iechyd, lles a datblygiad personol.

Gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth trwy leihau nifer y lleoedd gwag i lefel resymol, gan ymateb yn hyblyg i newidiadau demograffig a chefnogi dewisiadau rhieni lle bo hynny'n bosibl.

Datblygu seilwaith modern ym mhob ysgol sy'n cefnogi addysg o safon uchel yn yr 21ain ganrif, ac sy'n galluogi codi safonau academiaidd, cynnal perfformiad rhagorol a chreu profiadau dysgu bywiog.

Sicrhau fod seilwaith ein hysgolion yn gwbl hygyrch, gan alluogi pob dysgwr, beth bynnag fo'i anghenion unigol, i gyrchu addysg o ansawdd uchel a chyfartal.

Buddsoddi'n strategol mewn cyfalaf ac integreiddio hynny â chynlluniau i resymoli a chryfhau'r ddarpariaeth ar draws rhwydwaith yr ysgolion, gan sicrhau ymateb hyblyg ac effeithiol i'r galw.

Datblygu atebion creadigol ac arloesol, boed unigol neu gydweithredol, sy'n cryfhau'r system addysg gyfan ledled Gwynedd ac yn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n dysgwyr a'n cymunedau.

Beth fydd yr egwyddorion y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwireddu ein gweledigaeth yn y sector gynradd yng Ngwynedd?

Bydd gan bob ysgol ddigon o ddisgyblion i sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy a chadarn, gydag arweinwyr sy'n rhydd i ganolbwyntio ar arwain a rheoli'n effeithiol, gan ysbrydoli dysgwyr a staff.

Bydd ysgolion yn gadarn yn ariannol ac yn gweithredu'n hyderus yn y tymor hir, gan gynnig sefydlogrwydd a sicrwydd heb ddibynnu ar gynlluniau gwarchodaeth na chyllidebau ychwanegol.

Bydd gan bob ysgol fynediad at gyfleusterau awyr agored deniadol a phwrpasol sy'n gwella profiadau dysgu ac yn cefnogi iechyd corfforol, lles emosiynol a chysylltiad â'r amgylchedd.

Bydd yr ysgolion yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr beth bynnag fo'u cefndir neu anghenion unigol.

Bydd cyfleusterau modern a chyfoes yn cefnogi dysgu digidol creadigol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith yn yr 21ain ganrif.

Bydd amgylcheddau dysgu o'r safon uchaf yn meithrin lles, hyder a chynnydd pob dysgwr, gan gefnogi cyflawniadau rhagorol ar draws ystod eang o sgiliau, pynciau a phrofiadau cwricwlaidd.



Beth allwn ni ystyried i alluogi hyn?

1. Arweinyddiaeth gref a chynaliadwy

Rhoi blaenoriaeth i greu modelau arweinyddiaeth hyblyg, gan gynnwys rhannu arweinyddiaeth ar draws mwy nag un safle, er mwyn sicrhau bod penaeithiaid a rheolwyr yn cael yr amser a'r adnoddau i arwain yn effeithiol.

Datblygu rhaglen olyniaeth i adnabod a chefnogi arweinwyr y dyfodol yn gynnar, gan sicrhau parhad ac arloesedd.

2. Rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac effeithiol

Ystyried dyfodol pob ysgol sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r cynllun gwarchodaeth, gan edrych ar atebion tymor hir sy'n cynnig mwy o sefydlogrwydd i gymunedau a disgyblion.

Lle bo angen, cau rhai ysgolion, a lle'n bosib, ystyried creu darpariaeth newydd gan sicrhau mynediad teg i bob cymuned.

Sicrhau bod pob safle'n hyfyw yn ariannol, gyda digon o ddisgyblion a chyfleusterau i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel.

3. Amgylcheddau dysgu modern a chynhwysol

Buddsoddi mewn adeiladau a seilwaith sy'n gyfoes, hyblyg ac yn addas ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys mynediad llawn at gyfleusterau digidol a mannau awyr agored o safon.

Sicrhau bod pob safle'n gwbl hygyrch ac yn cynnig profiadau cynhwysol i bob dysgwr, beth bynnag fo'u hanghenion unigol.

4. Lles a chyfleoedd dysgu eang

Meithrin diwylliant o ofal a lles lle mae'r amgylchedd ysgol yn cefnogi iechyd corfforol ac emosiynol.

Cynnig cwricwlwm a chyfleoedd allgyrsiol cyfoethog sy'n ysbrydoli dysgwyr i gyrraedd eu potensial.

5. Cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol

Rheoli adnoddau'n effeithiol drwy integreiddio buddsoddiadau cyfalaf â chynlluniau i resymoli'r rhwydwaith ysgolion, gan sicrhau gwerth am arian yn y tymor hir.

Lleihau defnydd ynni a chryfhau ethos cynaliadwyedd drwy'r holl ysgolion, gan gyfrannu at ymrwymiad Gwynedd i fod yn sero net erbyn 2030.

Beth fydd yr egwyddorion y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwireddu ein gweledigaeth yn y sector uwchradd yng Ngwynedd?

Creu safleoedd addysg sy'n addas, hyblyg ac yn hyfyw ar gyfer anghenion Gwynedd heddiw, ac yn barod i ymateb i heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Sicrhau digon o ddisgyblion i alluogi arweinyddiaeth gref a chynaliadwy, gyda'n harweinwyr yn rhydd i ganolbwyntio ar arwain ac ysbrydoli, gan godi safonau ar draws y system.

Cynnig digon o ddisgyblion mewn pob ysgol i sicrhau bod pob pwnc yn cael ei addysgu gan athrawon medrus ac arbenigol, gan roi profiad dysgu cyfoethog i bawb.

Darparu ystod eang a chyson o gyfleoedd dysgu o'r cychwyn cyntaf hyd at ddiwedd addysg statudol, gan roi llwybrau clir i bob dysgwr gyrraedd eu potensial.

Galluogi ysgolion i fod yn hyfyw yn ariannol, yn gweithredu'n gynaliadwy yn y tymor hir, ac yn gallu buddsoddi yn eu dysgwyr yn hytrach nag yn ddibynnol ar gynlluniau gwarchodaeth.

Sicrhau mynediad i bob dysgwr at gyfleusterau addysg gorfforol ac awyr agored o safon, gan feithrin iechyd, lles corfforol ac emosiynol wrth gefnogi dysgu creadigol.

Creu ysgolion sy'n gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, gan ddathlu amrywiaeth a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob plentyn a pherson ifanc.

Datblygu cyfleusterau modern sy'n cefnogi dysgu digidol, gan baratoi dysgwyr i ffynnu mewn byd technolegol sy'n newid yn barhaus.

Sicrhau amgylcheddau dysgu o safon uchel sy'n cefnogi llesiant pob dysgwr, gan feithrin cynnydd, cyrhaeddiad ac ystod eang o sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Beth allwn ni ystyried i alluogi hyn?

1. Arweinyddiaeth gref a chynaliadwy

Rhoi blaenoriaeth i greu modelau arweinyddiaeth hyblyg er mwyn sicrhau bod penaethiaid a rheolwyr yn cael yr amser a'r adnoddau i arwain yn effeithiol.

Datblygu rhaglen olyniaeth i adnabod a chefnogi arweinwyr y dyfodol yn gynnar, gan sicrhau parhad ac arloesedd.

Moderneiddio'r patrwm ysgolion drwy uno a chryfhau, fel bod llai o ysgolion mwy hyfyw yn gweithredu ar yr un nifer o safleoedd, gan sicrhau adnoddau cryfach a gwell cyfleoedd i ddysgwyr.

Sicrhau bod pob safle'n hyfyw yn ariannol, gyda digon o ddisgyblion a chyfleusterau i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel.

Rhannu arweinyddiaeth ar wahanol lefelau ar draws sawl safle, gan feithrin tîm arweinwyr hyblyg a chydweithredol sy'n rhannu'r cyfrifoldeb a'r arbenigedd.

Rhannu arbenigedd pynciau ar draws safleoedd, fel bod pob dysgwr – ni waeth beth yw maint eu hysgol – yn cael mynediad at addysgu gan arbenigwyr.

Symud staff rhwng safleoedd yn hytrach na dysgwyr, gan leihau'r angen i blant deithio a sicrhau parhad a chysondeb yn eu profiad addysgol.

2. Amgylcheddau dysgu modern a chynhwysol

Ymchwilio'n ddyfnach i'r defnydd o ddysgu o bell, gan gynnwys technolegau arloesol megis VR, er mwyn ehangu'r arlwy o bynciau TGAU ac uwchraddio profiadau dysgu.

Buddsoddi mewn adeiladau a seilwaith sy'n gyfoes, hyblyg ac yn addas ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys mynediad llawn at gyfleusterau digidol a mannau awyr agored o safon.

Sicrhau bod pob safle'n gwbl hygyrch ac yn cynnig profiadau cynhwysol i bob dysgwr, beth bynnag fo'u hanghenion unigol.

3. Lles a chyfleoedd dysgu eang

Meithrin diwylliant o ofal a lles lle mae'r amgylchedd ysgol yn cefnogi iechyd corfforol ac emosiynol.

Cynnig cwricwlwm a chyfleoedd allgyrsiol cyfoethog sy'n ysbrydoli dysgwyr i gyrraedd eu potensial.

Sicrhau bod pob ysgol yn cynnig darpariaeth gynhwysol, sy'n gallu ymateb i anghenion amrywiol pob plentyn a pherson ifanc, gan feithrin ymddygiad cadarnhaol, parch a diwylliant o ofal mewn pob cymuned ysgol.

4. Cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol

Mapio a chynllunio cyllidebau dros gyfnod hwy na blwyddyn ariannol, gan greu mwy o eglurder, rhagweladwyedd a sefydlogrwydd ariannol i ysgolion a'r awdurdod.

Rheoli adnoddau'n effeithiol drwy integreiddio buddsoddiadau cyfalaf â chynlluniau i resymoli'r rhwydwaith ysgolion, gan sicrhau gwerth am arian yn y tymor hir.

Lleihau defnydd ynni a chryfhau ethos cynaliadwyedd drwy'r holl ysgolion, gan gyfrannu at ymrwymiad Gwynedd i fod yn sero net erbyn 2030.

Beth fydd yr egwyddorion y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwireddu ein gweledigaeth yn y sector arbennig yng Ngwynedd?

Byddwn yn sicrhau bod ein dysgwyr mwyaf bregus yn cael mynediad i ddarpariaeth addysgol ac ofal o'r safon uchaf, mewn amgylcheddau sy'n adlewyrchu parch, urddas a gofal. Bydd ein penderfyniadau'n cael eu harwain gan yr egwyddorion canlynol:

Creu digon o le ac adnoddau priodol i ddarparu addysg a gofal arbenigol sy'n diwallu'r amrywiaeth lawn o anghenion dysgwyr, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ffynnu.

Sicrhau bod pob ysgol arbennig a darpariaeth arbenigol yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, gan roi cyfle cyfartal i bob plentyn gyrchu profiadau addysgol o safon uchel beth bynnag fo'u hanghenion unigol.

Buddsoddi mewn cyfleusterau modern a thechnoleg ddigidol, gan greu cyfleoedd arloesol a hyblyg i ddysgu sy'n cefnogi annibyniaeth, creadigrwydd a datblygiad sgiliau bywyd.

Datblygu amgylcheddau dysgu cynnes, diogel a gofalgarn sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol dysgwyr, gan feithrin gwydnwch a hunan-hyder, a chreu'r amodau gorau posibl i wella cynnydd a chyflawniadau ar draws ystod eang o sgiliau a meysydd cwricwlwm.



Beth allwn ni ystyried i alluogi hyn?

1. Arweinyddiaeth gref a chynaliadwy

Cynllunio capasiti a lle arbenigol – sicrhau digon o le corfforol ac adnoddau i gwrdd â'r galw cynyddol, gan gynnwys gofod ar gyfer therapïau, cefnogaeth unigol a darpariaeth hyblyg. Gall hyn gynnwys adeiladu neu addasu mannau dysgu pwrpasol.

Rhannu arbenigedd ar draws safleoedd – datblygu modelau lle mae staff arbenigol (e.e. therapyddion, athrawon ADY, gweithwyr cefnogi) yn gweithio ar draws mwy nag un ysgol, gan rannu gwybodaeth a sgiliau i godi safonau'n gyson ar draws Gwynedd.

Cydweithio â'r sector prif lif – cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn hwyluso cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau priodol a rhannu arfer dda.

Rhoi blaenoriaeth i greu modelau arweinyddiaeth hyblyg er mwyn sicrhau bod penaeithiaid a rheolwyr yn cael yr amser a'r adnoddau i arwain yn effeithiol.

Datblygu rhaglen olyniaeth i adnabod a chefnogi arweinwyr y dyfodol yn gynnar, gan sicrhau parhad ac arloesedd.

Buddsoddi mewn arweinyddiaeth a chynllun olyniaeth – sicrhau bod gan bob ysgol arbennig dîm arwain cryf, gyda chyfleoedd i ddatblygu arweinwyr newydd drwy fentora, hyfforddiant a rhwydweithiau ar draws Gwynedd.

Cynllunio'n strategol ar gyfer gweithlu cynaliadwy – denu a chadw staff arbenigol drwy ddarparu hyfforddiant parhaus, cymorth lles ac opsiynau gyrfaol deniadol, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu arbenigedd pellach yn y maes.

2. Amgylcheddau dysgu modern a chynhwysol

Defnyddio technoleg ddigidol a dysgu o bell – ehangu mynediad at adnoddau digidol, dulliau arloesol (e.e. VR, apiau rhyngweithiol) a chymorth cyfathrebu er mwyn galluogi pob dysgwr i gyrchu profiadau dysgu cyfoes, beth bynnag fo'u hanghenion.

3. Lles a chyfleoedd dysgu eang

Meithrin diwylliant o ofal a lles lle mae'r amgylchedd ysgol yn cefnogi iechyd corfforol ac emosiynol.

Mynediad at adnoddau cymunedol ac iechyd – cryfhau partneriaethau gyda gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn cynnig darpariaeth integredig sy'n cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd.

Hygyrchedd ac ynni cynaliadwy – sicrhau bod pob adeilad ysgol arbennig yn gwbl hygyrch i bawb, ac yn unol â safonau eco a sero net, gan greu amgylcheddau dysgu modern, iach a gwyrdd.



ADNABOD YSGOLION GWYNEDD

Yn wyneb newid cyson yn ein cymdeithas a'n poblogaeth, mae gennym gyfle unigryw yma yng Ngwynedd i ail-lunio dyfodol ein rhwydwaith ysgolion er budd pob plentyn a pherson ifanc. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob ysgol yn fan lle mae dysgwyr yn cael eu hysbrydoli, eu cefnogi a'u grymuso i gyflawni eu llawn botensial, tra'n parhau'n greiddiol i'w cymunedau lleol. Drwy adolygu'n rheolaidd ac yn dryloyw, gallwn wneud penderfyniadau doeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, buddsoddi'n ddoeth yn ein hysgolion, a chreu amgylcheddau dysgu modern, cynhwysol a chynaliadwy sy'n addas i'r 21ain Ganrif ac i genedlaethau'r dyfodol.

Sut y byddwn yn dod i benderfyniad a oes angen adolygu dyfodol ysgol neu ddalgylch?

Cyn ystyried dyfodol unrhyw ysgol neu ddalgylch penodol, mae'n rhaid i ni edrych yn ofalus ar ystod eang o ffactorau. Ar ddechrau pob blwyddyn galendr byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r sefyllfa addysgol yng Ngwynedd. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ni gadw'r rhaglen yn gyfredol ac yn sensitif i newidiadau mewn polisïau addysg, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion cymdeithas sy'n newid o hyd. Yn yr hinsawdd bresennol, lle mae nifer y dysgwyr yn gostwng yn sylweddol mewn rhai ardaloedd, mae'r dull gweithredu hwn hyd yn oed yn fwy hanfodol i sicrhau bod ein penderfyniadau yn deg, yn dryloyw ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Pwy fydd yn ystyried sefyllfa bresennol yr ysgolion?

Fe fydd y panel yn cynnwys Swyddogion Addysg ynghyd â chynrychiolwyr o Benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion Gwynedd. Fe fydd Swyddogion o adrannau eraill y Cyngor gan gynnwys Cyllid, Eiddo ac Economi.

Beth fydd yn cael ei ystyried cyn adolygu ysgol neu ddalgylch?

Caiff pob ysgol ei gwerthuso yn erbyn cyfres o feini prawf yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol bob ysgol.

Bydd hyn yn ein galluogi i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystâd ysgolion mewn modd sy'n dryloyw a theg.

Bydd pob ysgol yn cael ei rhoi mewn categori o ran hyfywedd, i gadarnhau'r sefyllfa ar gyfer yr ysgol honno. Bydd crynodeb o'r asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli o fewn y rhaglen gyffredinol.

Bydd asesiad hyfywedd a'r casgliad ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar ddarpariaeth prif ffrwd a bydd dulliau eraill o ddarpariaeth megis y blynyddoedd cynnar, anghenion dysgu ychwanegol, ymddygiad ac ôl-16 yn cael eu llywio gan strategaethau ar wahân.

Beth fydd y meini prawf a fydd yn cael ei ddefnyddio gan y panel adolygu?

Ansawdd a Safonau mewn Addysg:

Blaenoriaethu safonau uchel ar gyfer pob dysgwr drwy fesurau clir ac arolygiadau Estyn. Pan fo angen cymorth ychwanegol, bydd hynny'n sbardun i gryfhau'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau profiadau dysgu rhagorol i bawb.

Arweinyddiaeth:

Sicrhau arweinyddiaeth gref a chynaliadwy, gyda'n harweinwyr yn rhydd i arwain ac yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol i arwain ysgolion at lwyddiant tymor hir.

Nifer y Disgyblion:

Cynnal niferoedd disgyblion sy'n galluogi darpariaeth gynaliadwy ac effeithiol, gan sicrhau bod gan bob ysgol y capasiti i gynnal strwythurau staffio cadarn ac amgylchedd dysgu cyfoethog.

Tueddiadau o ran Disgyblion:

Dadansoddi patrymau tymor hwy i sicrhau ein bod yn cynllunio'n rhagweithiol, gan ymateb yn brydlon i newidiadau ac amddiffyn cyfleoedd dysgu i bob plentyn.

Rhagamcan o Nifer y Disgyblion:

Sicrhau cynllunio hirdymor drwy ragweld tueddiadau demograffig, fel bod pob ysgol yn gallu parhau'n hyfyw ac yn berthnasol i'w chymuned yn y blynyddoedd i ddod.

Lleoedd Gwag:

Defnyddio lleoedd yn effeithlon i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth, gan greu rhwydwaith ysgolion sy'n gynaliadwy ac yn gallu cynnig profiadau dysgu o ansawdd uchel.

Hyfywedd Ariannol:

Cryfhau sefydlogrwydd ariannol ysgolion, gan sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith cyllido cenedlaethol a chynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol.

Cyflwr Adeiladau'r Ysgol:

Buddsoddi mewn adeiladau sy'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn addas i greu amgylchedd dysgu deniadol sy'n ysbrydoli plant a phobl ifanc.

Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol:

Sicrhau fod adeiladau a safleoedd ysgolion yn gwbl addas ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned ehangach.

Cyfleoedd Cyllido/Adfywio Cydweithredol:

Croesawu partneriaethau ac ymgysylltu â chyllid allanol er mwyn cryfhau ysgolion, cefnogi adfywio cymunedol, a hyrwyddo ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw.

Pa ganllawiau a deddfwriaethau a fyddwn yn eu dilyn wrth adolygu dyfodol ysgol neu ddalgylch?

Mae unrhyw newid trawsnewidiol i'r ystâd ysgolion yn dibynnu ar y canlynol:

Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) – canllawiau statudol sy'n nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion a'r gofynion ffurfiol ar gyfer newidiadau a reoleiddir.

Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru – canllawiau statudol ar sefydlu ffederasiynau ysgolion a'r trefniadau llywodraethu perthnasol.

Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru – rhaglen fuddsoddi cyfalaf genedlaethol sy'n darparu cyfleoedd cyllido cydweithredol trwy broses achosion busnes ffurfiol.

Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod Lleol – cynllun cyllido pum mlynedd sy'n diffinio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ysgolion a'r Adran Addysg.

Y Broses Ddemocrataidd o Wneud Penderfyniadau – proses ffurfiol Cyngor Gwynedd ar gyfer penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion; y Cyngor Sir yw'r corff penderfynu terfynol.

Deddf Addysg 1996 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 – y fframwaith statudol sy'n gosod dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gofyn i unrhyw newid hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol.

Deddf Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2004 a Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – sicrhau bod hawliau a lles plant yn ganolog i bob penderfyniad.

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2021) – sicrhau bod unrhyw drefniant newydd yn cydymffurfio â hawliau a darpariaeth dysgwyr ag ADY.

Canllawiau Cynllunio a Pholisi Lleol – gan gynnwys cynllun datblygu lleol ac unrhyw ganllawiau ar gynaliadwyedd ac amgylchedd a all effeithio ar safleoedd ysgolion.



CYNGOR
GWYNEDD

DRAFFT

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i

sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Awdur: Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg

Dyddiad: 01/11/25

Fersiwn: Drafft 1

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

Polisiau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Cyhoeddwyd y Strategaeth wreiddiol Rhaglen Strategol “Tuag at 2025”: Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Ysgolion ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2036.

Mae'r Strategaeth newydd yn chwarae rhan amlwg yng Nghynllun y Cyngor sydd yn gosod cyfeiriad clir i ni fel awdurdod hyd at 2028 ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni uchelgais y Cyngor. Mae 'Gwynedd Yfory' yn amlygu sut y byddwn yn sicrhau'r cychwyn gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc.

Mae'r Adran Addysg wedi llunio'r Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026-2036 er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r ddarpariaeth ysgolion dros y ddegawd nesaf. Mae rhaid cydnabod fod newidiadau pellgyrhaeddol wedi bod yn y maes addysg yng Nghymru dros y blynnyddoedd diwethaf, ac mae'r Strategaeth newydd yn ymateb i newidiadau cenedlaethol megis y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2028) ynghyd â disgwyliadau cynyddol ar ysgolion, ac yr angen i foderneiddio adeiladau ac adnoddau.

Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Beth bynnag fo'r newidiadau y byddwn yn eu hystyried i'r dyfodol, yr ydym yn ymrwmo i'r gwerthoedd yma:

- 1) Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un.
- 2) Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol ein dysgwyr gan sicrhau bod ein hysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- 3) Sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.
- 4) Sicrhau cyfundrefn sydd yn cadw ein dysgwyr yn ddiogel ac sydd yn eu gwarchod rhag unrhyw gamdriniaeth.
- 5) Paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol.
- 6) Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau yn arferion a phrosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg.
- 7) Datblygu sefydliadau addysgol sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol.
- 8) Cryfhau'r laith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Disgyblion

Rhieni

Penaethiaid

Llywodraethwyr

Staff Addysg

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig	Chwefror 2025	Trafodaeth ar brif themâu'r Strategaeth a chytunwyd i symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.
Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd	Chwefror 2025	Trafodaeth ar brif themâu'r Strategaeth a chytunwyd i symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.
Cyfarfod gyda Staff yr Adran Addysg	Mawrth 2025	Trafodaeth ar brif themâu'r Strategaeth a chytunwyd i symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.
Cyfarfod gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sirol	Mawrth 2025	Trafodaeth ar brif themâu'r Strategaeth a chytunwyd i symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.
Cyfarfod gyda Staff yr Adran Addysg	Tachwedd 2025	Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft
Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd	Rhagfyr 2025	Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft
Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig	Rhagfyr 2025	Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft

Cyfarfod gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sirol	Rhagfyr 2025	Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft
Cyfarfod gyda Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd	Rhagfyr 2025	Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Rhagfyr 2025	Cyflwyno Strategaeth Ddrafft

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol

Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol

Hil	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiâu Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol.	Positif
------------	--	---------

	Mae gan bob ysgol eu polisiâu gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn “...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.” Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Mae rhif 1 (gweler cwestiwn 2) yn nodi y byddwn yn anelu i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, a grwpiau o ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg.	
Anabledd	Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Mae rhif 1 (gweler cwestiwn 2) yn anelu i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, a grwpiau o ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg. O safbwynt plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae rhif 3 (gweler cwestiwn 2) yn nodi y byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.	Positif

	Mae'r Strategaeth yn nodi y byddwn yn sicrhau fod seilwaith ein hysgolion yn gwbl hygyrch, gan alluogi pob dysgwr, beth bynnag fo'i anghenion unigol, i gyrchu addysg o ansawdd uchel a chyfartal. Byddwn yn parhau â'r gwaith o weithredu gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn ogystal â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Nod y Strategaeth ADYaCh yw sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau addysg a hyfforddiant sydd wedi eu cynllunio'n briodol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd a chyflawni eu potensial mewn lleoliadau addysg sy'n addas i'w anghenion. Rhagwelir y bydd rhif 2 o'n gwerthoedd (gweler cwestiwn 2) yn cyfrannu'n bositif at y nodwedd yma hefyd drwy ymgorffori llesiant da yn ysgolion Gwynedd; gan greu awyrgylch gefnogol lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i wireddu eu potensial personol ac academiaidd, lle maent yn ffynnu, yn dysgu ac yn datblygu'n emosiynol, gyda chymorth athrawon a staff sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n rhoi gwerth ar eu llesiant hwythau. Bydd sicrhau bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn arfer am	
--	---	--

	oes yn gyfrwng i wella iechyd plant a phobl ifanc nawr ac wrth iddynt dyfu'n hŷn, gan gyfrannu at wella hapusrwydd a gwytnwch cyffredinol.	
Rhyw		Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma
Oedran	Ein gweledigaeth yw sicrhau system addysg deg a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr y Sir, ac sy'n rhoi'r cyfle iddynt gyrraedd eu llawn botensial.	Positif
Crefydd a Chred	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Mae gan bob ysgol eu polisiau gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion." Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Mae rhif 1 (gweler cwestiwn 2) yn nodi y byddwn yn anelu i wella canlyniadau ar gyfer ein dysgwyr	Positif

	mwyaf bregus, a grwpiau o ddysgwyr sy'n aml yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg.	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.	Positif
Ail-bennu rhywedd	Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."	Positif
Priodas a Phartneriaeth Sifil		Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma
Beichiogrwydd a Mamolaeth		Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma

laith Gymraeg	Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Rhagwelir y bydd rhif 8 yn y Strategaeth Ddrafft (Cryfhau'r laith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Rhagwelir y bydd hyn hefyd yn cyfrannu at gefnogi staff i wella eu sgiliau yn y Gymraeg neu i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith ynghyd â hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a dwyieithog ymysg rhieni. Yn ogystal, bydd hyn yn hyrwyddo cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd ac o fewn yr Adran Addysg.	Positif
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Rhagwelir y bydd rhif 1 (gweler cwestiwn 2) yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.	Positif

	Bydd ehangu ymhellach ar ardaloedd darpariaeth bresennol Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant yn sicrhau'r cychwyn gorau i blant o'r blynyddoedd cynnar ymlaen ac yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau mynediad at ofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig o'r sir. Rydym hefyd yn cydnabod effaith y cynnydd mewn costau byw presennol, gan gynnwys costau deunyddiau dyddiol megis gwisg ysgol, bwyd, cludiant a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd ac yn effeithio ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd y cynllun prydau ysgol am ddim i holl ddysgwyr cynradd yn gymorth mawr i deuluoedd o ran lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae'r ymrwymiad i ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau hefyd yn debygol o leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.	
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd	Ein gweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg deg sydd yn cyfarch anghenion ein holl ddysgwyr ac sydd yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial.	Positif
Hawliau Dynol	Ein gweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg deg sydd yn cyfarch anghenion ein holl ddysgwyr ac sydd yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial.	Positif

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau a byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronns)?

Mae yn bosibl y bydd pwysau ychwanegol ar ysgolion ac athrawon os nad oes digon o adnoddau neu gefnogaeth i weithredu'r Strategaeth.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd (gweler cwestiwn 2). Rhagwelir y bydd rhif 1 "Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un" yn effeithio'n bositif ar y dyletswydd yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.

Rhagwelir y bydd rhif 8, "Cryfhau'r Iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog" yn effeithio'n bositif ar y ddyletswydd yma drwy sicrhau fod pob plentyn a Pherson ifanc yn gallu elwa'n llawn ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a geir yn ysgolion Gwynedd.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y

ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau.

Rhagwelir y bydd rhif 2 o'r gwerthoedd yn y Strategaeth ddrafft "Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol ein dysgwyr gan sicrhau bod ein hysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd" yn cyfrannu at feithrin perthnasau da wrth i blant a phobl ifanc Gwynedd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd lles, ac yn ymwybodol o broblemau amrywiol y maent yn eu hwynebu yn aml o ran cadw'n ddiogel, cadw'n iach, rheoli perthnasau, a delio efo'r heriau o dyfu'n hŷn mewn cymdeithas sydd mor newidiol.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Er mwyn siapio'r system addysg i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Rhagwelir y bydd rhif 1 "Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un" yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial. Bydd ehangu ymhellach ar ardaloedd darpariaeth bresennol Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant yn sicrhau'r cychwyn gorau i blant o'r blynyddoedd cynnar ymlaen ac yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau mynediad at ofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig o'r sir.

Rydym hefyd yn cydnabod effaith y cynnydd mewn costau byw presennol, gan gynnwys costau deunyddiau dyddiol megis gwisg ysgol, bwyd, cludiant a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd ac yn effeithio ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd y cynllun prydau ysgol am ddim i holl ddysgwyr cynradd yn gymorth mawr i deuluoedd o ran lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae'r ymrwymiad i ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau hefyd yn debygol o leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Er mwyn siapio'r gyfundrefn i'r dyfodol yr ydym wedi pennu wyth o werthoedd craidd. Rhagwelir y bydd rhif 8 "Cryfhau'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog" yn cyfrannu'n bositif at y nod yma drwy sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Nodau Llesiant:

Cymru lewyrchus - Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:

- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn potensial.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion.

- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a di-boblogi gwledig. Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.
- Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.

Cymru gydnerth - Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r gwerthoedd, rhif 6 yn benodol "Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau yn arferion a phrosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg". Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o'r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â'u cymunedau.

Cymru iachach - Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r gwerthoedd, yn benodol rhif 2, "Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol, anghenion a lles emosiynol ein dysgwyr gan sicrhau bod ein hysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd". Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol.

Cymru sy'n fwy cyfartal - Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r gwerthoedd, yn benodol rhif 1, "Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i'n dysgwyr gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang fydd yn ysgogi dysgu a dealltwriaeth ac yn arwain at wella safonau a deilliannau i bob un". Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial.

Cymru o gymunedau gydlynus - Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r gwerthoedd, yn benodol rhif 6 "Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cynllunio i ymateb i'r newidiadau yn arferion a phrosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg". Pwrpas hyn yma yw ceisio sicrhau fod ysgolion Gwynedd yn cynnig amgylchedd dysgu diogel, ysbrydoledig a chynaliadwy o'r radd flaenaf i ddysgwyr ac athrawon y sir, ac yn sefydliadau sydd â chysylltiad cryf â'u cymunedau.

Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Mae'r Strategaeth ddrafft yn cyfrannu'n bositif at y nod yma trwy'r gwerthoedd, yn benodol rhif 8, "Cryfhau'r laith Gymraeg fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog". Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o ddarpariaeth

addysg Gymraeg a dwyieithog o'r radd flaenaf, ynghyd â mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn eu galluogi i lwyddo, ffynnu, a gwireddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.

5 ffordd o weithio:

Hirdymor - Mae'r Strategaeth yn gosod gweledigaeth hir dymor a fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2035.

Atal - Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, megis:

- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol a'r cymunedau a wasanaethir yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn botensial.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i'r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion.
- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel, poblogaeth sy'n heneiddio a diboblogi gwledig.
- Gwella ein stad ysgolion er sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i'w cynnal, a disgwyliad i'r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.
- Ymateb i'r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.

Integreiddio - Bwriedir i'r Strategaeth ddrafft hon fod o fudd i holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai heriau sy'n debygol o wynebu'r gyfundrefn nawr ac i'r dyfodol, fel a nodir uchod.

Cydweithio - Yn ystod Chwefror 2025, bu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau gyda'r Penaethiaid Ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig ar y weledigaeth a'r amcanion drafft ar gyfer y Strategaeth Ysgolion newydd.

Cynnwys - Yn ystod Chwefror 2025, bu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau gyda'r Penaethiaid Ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig ar y weledigaeth a'r amcanion drafft ar gyfer y Strategaeth Ysgolion newydd. Yn ogystal, mae sesiynau ymgysylltu wedi'u trefnu gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig, ynghyd â cyfarfod gyda'r Fforwm Pobl Ifanc Sirol a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd. Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei ddiweddarau yn dilyn y sesiynau hyn.

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyriwyd 7 nod y Ddeddf Llesiant a deuir i'r casgliad na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'r Strategaeth. Nod y Strategaeth a'i bwriad sylfaenol yw cael cyfundrefn addysg sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth, drwy gynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd.

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

Partneriaeth:

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ac nad yw'r asesiad effaith yn derfynol, rhagwelir y bydd y Strategaeth yn debygol o gael effaith bositif ar yr nodweddion cydraddoldeb (gweler cwestiwn 5). Byddwn yn diweddarau'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd y Strategaeth yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Cynamserol i adnabod unrhyw fesurau ar y pwynt yma.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynamserol i adnabod unrhyw fesurau ar y pwynt yma.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd i gyflawni ei botensial llawn – gan feithrin pobl ifanc uchelgeisiol, hyderus ac ysbrydoledig sy'n barod ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiad	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol
Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Rhagfyr 2025	Rhagfyr 2025	Pennaeth Addysg

Cyflwyno'r Strategaeth Ddrafft i'r Cabinet	Chwefror 2026	Chwefror 2026	Pennaeth Addysg
--	---------------	---------------	-----------------

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol
Adolygu'r Strategaeth	Bob 5 mlynedd	Pennaeth Addysg

Atodiad 3 – Cwestiynau'r Pwyllgor Craffu

1) A yw cyflawni gweledigaeth y Strategaeth yn realistig?

Mae Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026-2036 yn uchelgeisiol ond wedi'i seilio ar bolisiau cadarn. Ei hamcan yw creu system addysg deg, gynhwysol a chynaliadwy sy'n helpu pob dysgwr i lwyddo. Mae'r weledigaeth yn realistig gan ei bod yn adeiladu ar bolisiau cenedlaethol fel Cwricwlwm i Gymru, Cymraeg 2050 a'r Ddeddf ADY.

Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau clir, gan gynnwys:

- Sicrhau lles, diogelwch ac amgylcheddau dysgu cynhwysol ac ecogyfeillgar.
- Buddsoddi yn adeiladau ac isadeiledd ysgolion;
- Cryfhau arweinyddiaeth ac ymateb i heriau recriwtio;
- Datblygu gweithlu dwyieithog medrus;
- Cefnogi ysgolion bach gwledig a hyrwyddo tegwch ariannol;

Er bod y cynllun yn gadarn, ceir heriau allweddol:

- Llai o ddisgyblion, yn enwedig yn y sector gynradd, sydd yn ei dro yn arwain at lai o ddisgyblion yn y sector uwchradd hefyd;
- Pwysau ariannol parhaus;
- Anhawster recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ym meysydd cyfrwng Cymraeg;
- Newidiadau polisi cenedlaethol sy'n gallu cynyddu'r baich ar ysgolion a'r Awdurdod.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y rhwystrau hyn ac yn cynnig camau i'w lliniaru. Felly, mae'r weledigaeth yn realistig ar gyfer 2026–2036, cyn belled â bod ymrwymiad, adnoddau digonol a chydweithio agos rhwng yr Awdurdod, ysgolion a chymunedau.

2) A yw blaenoriaethau'r Adran Addysg a nodir yn y Strategaeth yn addas ac amserol?

Mae blaenoriaethau'r Adran Addysg yn y Strategaeth Ysgolion 2026–2036 yn adlewyrchu'n glir anghenion a heriau presennol y sir. Maent yn cyd-fynd â pholisiau cenedlaethol allweddol fel Cwricwlwm i Gymru, Cymraeg 2050, y Ddeddf ADY a'r Ddeddf Llesiant, gan sicrhau cyfeiriad strategol cadarn.

Prif flaenoriaethau'r Strategaeth yw:

1. **Codi safonau a gwella profiadau dysgu** - yn unol â Chwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais ar greadigrwydd a mynediad cyfartal.
2. **Hyrwyddo lles** – yn hanfodol yn sgil effaith y pandemig a'r cynnydd mewn pryderon iechyd meddwl.
3. **Cryfhau darpariaeth ADY** – yn amserol wrth weithredu'r Ddeddf ADY yn llawn.
4. **Datblygu'r gweithlu ac arweinyddiaeth** – yn bwysig oherwydd prinder athrawon a phenaethiaid.
5. **Buddsoddi mewn adeiladau modern a chynaliadwy** – sy'n cefnogi dysgu digidol ac ymateb i dargedau carbon.
6. **Cryfhau'r Gymraeg** – yn ganolog i weledigaeth y Cyngor ac yn allweddol i gyrraedd nodau Cymraeg 2050.
7. **Adolygu rhwydwaith yr ysgolion** – yn angenrheidiol oherwydd gostyngiad mewn niferoedd disgyblion a phwysau ariannol.

Mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu realiti'r sector addysg yn y sir ac yn canolbwyntio ar feysydd sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ansawdd darpariaeth a lles dysgwyr. Maent yn addas ac yn amserol, cyn belled â bod yr Adran yn derbyn yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i'w gweithredu'n llwyddiannus.

3) I ba raddau mae blaenoriaethau'r Strategaeth yn alinio gyda chyfeiriad a blaenoriaethau corfforaethol eraill y Cyngor, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol?

Mae Strategaeth Ysgolion 2026–2036 wedi'i llunio i gyd-fynd yn agos â chyfeiriad corfforaethol y Cyngor. Mae'n ategu prif ddogfennau polisi fel Cynllun y Cyngor 2023–2028, y CSGA, y Cynllun Hinsawdd a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Prif feysydd alinio strategol:

1. **Blaenoriaeth gorfforaethol ar les a chyfleoedd i blant a phobl ifanc**

Mae'r Strategaeth yn rhannu'r nod o sicrhau tegwch, cynhwysiant a chefnogaeth i bob dysgwr i gyrraedd ei botensial.

2. **Cefnogi'r Gymraeg**

Mae ymrwymiad clir i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ac atgyfnerthu Cymraeg 2050, gan gyd-fynd â'r CSGA.

3. **Cyfrannu at dargedau hinsawdd y Cyngor**

Drwy adeiladau ecogyfeillgar, effeithlonrwydd ynni a pholisïau teithio llesol, mae'r Strategaeth yn cefnogi nod "Carbon Sero Net erbyn 2030".

4. **Cysoni â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

Mae'r Strategaeth yn ystyried pwysau cyllidol ac yn hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli adnoddau, gan gynnwys cefnogi ysgolion bach drwy ddulliau ariannu teg.

5. **Cefnogi nodau'r Ddeddf Llesiant**

Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r saith nod llesiant, gan gynnwys cymunedau cryf, diwylliant bywiog a chynaliadwyedd amgylcheddol.

6. **Gweithio ar y cyd ar draws adrannau**

Mae pwyslais ar bartneriaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, gwasanaethau plant a'r gymuned yn adlewyrchu dull integredig y Cyngor.

Yn gryno, mae'r Strategaeth Ysgolion yn cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau corfforaethol Cyngor Gwynedd. Mae'n darparu fframwaith ymarferol i weithredu nodau'r Cyngor o ran tegwch, cynaliadwyedd, cryfhau cymunedau a hybu'r Gymraeg dros y degawd nesaf.

4) A oes angen adnoddau ychwanegol i wireddu dyheadau'r Strategaeth?

Er bod y Strategaeth Ysgolion yn seiliedig ar ddefnydd effeithlon o adnoddau presennol, mae'n amlwg y bydd angen buddsoddiad ychwanegol i wireddu'r uchelgais yn llawn. Mae rhai o'r camau a ddisgrifir yn mynd y tu hwnt i waith statudol craidd yr Adran Addysg, felly bydd llwyddiant yn dibynnu ar gefnogaeth ariannol a gweithredol barhaus gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Yn y bôn, er bod y Strategaeth yn ymdrech i ddefnyddio'r adnoddau presennol yn fwy effeithlon, mae angen buddsoddiad ychwanegol ar ffurf arian cyfalaf, **pobl ac amser** i wireddu'r weledigaeth. Mae hyn yn arbennig o wir ym meysydd adeiladau ysgolion, datblygu'r gweithlu, ehangu darpariaeth Gymraeg a digidol, a sicrhau mynediad cyfartal mewn ardaloedd gwledig.

O ganlyniad, byddwn yn datblygu **cynllun ariannol clir** ochr yn ochr â'r Strategaeth, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a bod Aelodau'n deall y goblygiadau tymor canolig.

5) Pa fewnbwn sydd wedi bod gan randdeiliaid allweddol i weledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth?

Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu drwy broses o ymgysylltu gyda'r prif rhanddeiliaid addysgol. Mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau bod y weledigaeth a'r blaenoriaethau'n adlewyrchu'n gywir anghenion a disgwyliadau gwirioneddol dysgwyr, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned.

1. Mewnbwn gan ysgolion

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phenaethiaid ysgolion ar draws y sir i gasglu safbwyntiau ar ddyfodol y rhwydwaith ysgolion, yr heriau recriwtio, a'r angen am gefnogaeth arweinyddiaeth. Mae sesiynau ychwanegol i ymgysylltu â'r Penaethiaid ar fersiwn ddrafft o'r Strategaeth wedi'u trefnu ar gyfer Rhagfyr 2025.

2. Cyfraniad gan ddisgyblion

Cynhaliwyd trafodaethau gyda phobl ifanc mewn fforwm ieuenctid i nodi eu dyheadau a'u blaenoriaethau o ran lles, sgiliau a phrofiadau dysgu. Mae sesiwn ychwanegol i drafod y Strategaeth ddrafft wedi'i threfnu gyda'r Fforwm Sirol Pobl Ifanc ym mis Rhagfyr 2025.

3. Dull parhaus o ymgysylltu

Mae'r Strategaeth yn cael ei disgrifio fel dogfen fyw, gyda'r bwriad o gynnal adolygiadau rheolaidd a mecanyddion adborth parhaus i sicrhau bod lleisiau'r rhanddeiliaid yn parhau i lywio'r broses weithredu.

Gellir cadarnhau bod mewnbwn rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn ganolog i lunio gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth. O ganlyniad, mae'r Strategaeth yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion gwirioneddol dysgwyr Gwynedd ac yn adlewyrchu egwyddorion partneriaeth a chydweithio sy'n nodwedd allweddol o bolisi corfforaethol y Cyngor.

6) Sut bwriedir ymateb i heriau demograffeg?

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod newidiadau demograffeg yn her fawr i gynaliadwyedd ysgolion dros y degawd nesaf. Mae nifer y plant cynradd yn gostwng yn sylweddol, gyda lleoedd gwag yn cynyddu ac effaith uniongyrchol ar ariannu, gweithlu ac ansawdd darpariaeth.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth:

- Mae nifer y dysgwyr cynradd wedi gostwng tua 14% ers 2016.
- Mae gan y sir tua 24% o leoedd ysgol yn wag, sy'n creu pwysau ariannol a chynllunio mawr.

I ymateb, mae'r Strategaeth yn nodi camau clir:

1. Cynllunio rhwydwaith ysgolion cynaliadwy

- Adolygu ac, os oes angen, ailstrwythuro neu uno ysgolion lle mae niferoedd yn isel.
- Datblygu modelau cydweithredol i gynnal darpariaeth leol yn effeithlon.

2. Defnyddio data i lunio darpariaeth

- Integreiddio rhagolygon poblogaeth a datblygiadau tai i gynllunio capasiti ysgolion.
- Monitro dewisiadau rhieni i ddeall patrymau symud disgyblion.

3. Cefnogi ysgolion gwledig

- Parhau â'r Cynllun Gwarchodaeth i ysgolion bach.
- Rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng ysgolion, gan gynnwys dulliau digidol.
- Sicrhau bod penderfyniadau'n diogelu'r Gymraeg a'r gymuned leol.

4. Buddsoddi mewn ysgolion modern ac hyblyg

- Canolbwyntio ar adeiladau ecogyfeillgar a hyblyg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Dylunio ysgolion sy'n addasu i newid poblogaeth.

5. Ystyried cludiant ac hygyrchedd

- Adolygu polisiau trafnidiaeth i sicrhau mynediad teg.
- Cefnogi dulliau cludiant mwy effeithlon ac eco-gyfeillgar.

6. Cynllunio'r gweithlu

- Rheoli newidiadau staffio'n sensitif, gyda chyfleoedd ailhyfforddi lle bo angen.
- Datblygu system arweinyddiaeth sy'n adlewyrchu rhwydwaith ysgolion y dyfodol.

Yn gryno, mae'r Strategaeth yn cynnig dull rhagweithiol, sy'n defnyddio data ac yn gweithio'n agos â chymunedau i greu system ysgolion sy'n fwy cynaliadwy ac o ansawdd uchel. Mae llwyddiant yn dibynnu ar gynllunio gofalus, partneriaethau cryf, a chefnogaeth ariannol barhaus gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

7) Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried o ran gwneud penderfyniadau i fynd i gyfnod o ymgynghori ar gau ysgol?

Mae'r Strategaeth 2026 – 2036 yn pwysleisio bod cau ysgol yn benderfyniad difrifol, ac yn gam olaf ar ôl ystyried pob opsiwn arall. Mae'r broses yn seiliedig ar dystiolaeth, ac mae lles y dysgwyr a chynaliadwyedd y system addysg yn ganolog.

Wrth benderfynu a ddylid dechrau ymgynghori ar gau ysgol, caiff nifer o ffactorau eu hystyried:

1. Demograffeg

- Nifer a thueddiadau disgyblion yn y dalgylch.
- Capasiti'r ysgol a lefel y lleoedd gwag.

2. Ansawdd addysg

- Adroddiadau Estyn, perfformiad a chynnydd dysgwyr.
- Y gallu i gynnig cwricwlwm eang ac arbenigedd athrawon.
- Cryfder arweinyddiaeth ac opsiynau i wella.

3. Llesiant y dysgwyr

- Effaith ar deithio, gweithgareddau ac amser hamdden.
- Effaith gymdeithasol ac emosiynol ar ddisgyblion.
- Bod trefniadau amgen yn cynnig profiad o ansawdd cyfartal neu well.

4. Cynaliadwyedd ariannol

- Cost fesul disgybl.
- Gallu'r ysgol i gynnal staffio diogel o fewn y gyllideb.
- Effaith ar gyllidebau eraill, gan gynnwys y Cynllun Gwarchodaeth.

5. Cyflwr yr adeilad

- Addasrwydd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a dulliau dysgu modern.
- Costau cynnal, ynni a gofynion cynaliadwyedd.
- Effaith os yw'r ysgol yn ganolfan gymunedol.

6. Effaith ar yr iaith Gymraeg

- Effaith ar gymunedau Cymraeg a defnydd y Gymraeg.
- Sicrhau bod trefniadau newydd yn cynnal neu'n cryfhau addysg Gymraeg.
- Cydymffurfiaeth â'r CSGA a nodau Cymraeg 2050.

7. Cludiant a hygyrchedd

- Pellter ac amser teithio i ysgolion eraill.
- Diogelwch llwybrau a theithio llesol.
- Effaith amgylcheddol a chostau trafnidiaeth.

8. Ymgysylltu â'r gymuned

- Barn rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol.
- Ystyried datrysiadau cydweithredol cyn symud at gau.
- Cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Cymru.

Yn gryno, dim ond ar ôl dadansoddi tystiolaeth lawn ac ystyried effaith ar addysg, cymunedau, cyllid a'r Gymraeg y bydd ymgynghori ar gau ysgol yn cael ei ddechrau. Nod y broses yw sicrhau penderfyniadau teg, tryloyw a chynaliadwy i gefnogi pob dysgwr yng Ngwynedd.

8) Beth yw rôl y Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion yn gwireddu'r Strategaeth?

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion Gwynedd yn chwarae rôl ganolog ac estynedig wrth weithredu ac atgyfnerthu'r Strategaeth, yn dilyn trosglwyddo dyletswyddau GwE i'r Awdurdod Lleol. Mae'r trefniant newydd hwn yn sicrhau dull unedig, lleol a chyson o gefnogi ysgolion, gan osod cyfrifoldeb llawn am welliant addysgol o fewn y strwythur addysg leol.

Fydd y Swyddogion Cefnogi fodd bynnag ddim yn arwain ar y gwaith moderneiddio, fe fydd hyn dan law Pennaeth yr Adran Addysg a'r Tîm Moderneiddio.

1. Sicrhau safonau addysg a chefnogi gwelliant parhaus

Mae'r Swyddogion Cefnogi Ysgolion yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion i fonitro safonau addysgu, cynnydd dysgwyr ac ansawdd arweinyddiaeth.

Trwy ymweliadau rheolaidd, dadansoddi data a dulliau hunanarfarnu, maent yn gweithio ochr yn ochr â phenaethiaid i greu cynlluniau gwella ymarferol ac i fesur effaith fesul ysgol.

Mae'r trefniant lleol hwn yn galluogi ymateb cyflymach a mwy cyd-destunol i anghenion unigol ysgolion, gan gryfhau atebolrwydd a pherthynas broffesiynol adeiladol.

2. Datblygu arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol

Mae'r Gwasanaeth yn arwain ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer penaethiaid ac athrawon, gan gynnwys rhaglenni mentora, datblygu arweinyddiaeth ganol ac olyniaeth.

Mae hyn yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth i feithrin arweinwyr gwydn, hyderus ac uchelgeisiol sy'n gallu arwain ysgolion drwy gyfnodau o newid.

Trwy ddull lleol, mae'r gefnogaeth yn fwy wedi'i theilwra i anghenion pob clwstwr ac ysgol unigol.

3. Cefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Swyddogion Cefnogi Ysgolion yn darparu cyfeiriad ymarferol, modelau ac arweiniad i ysgolion wrth ddatblygu eu cwricwlwm lleol, asesu dysgwyr a chynllunio profiadau dysgu arloesol.

Mae'r Gwasanaeth yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion i rannu arfer dda ac i sicrhau bod safonau addysgu'n gyson ar draws y sir.

Mae hyn yn sicrhau bod y weledigaeth addysgol genedlaethol yn cael ei gwireddu'n lleol, gan adlewyrchu hunaniaeth a diwylliant Gwynedd.

4. Hybu'r Gymraeg a dwyieithrwydd

Mae'r Swyddogion yn cefnogi ysgolion i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu ac i feithrin ethos Cymraeg bywiog sy'n cyd-fynd ag uchelgais Cymraeg 2050.

Trwy fonitro cynnydd ieithyddol disgyblion a darparu arweiniad ar fodelau addysg Gymraeg, mae'r Gwasanaeth yn sicrhau cysondeb a chynnydd ar draws y sir.

5. Cefnogi llesiant dysgwyr a staff

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Lles Dysgwyr, ac iechyd i sicrhau dull integredig o gefnogi lles corfforol ac emosiynol.

Mae'r Swyddogion Cefnogi Ysgolion yn darparu hyfforddiant, canllawiau a chefnogaeth ymarferol i ysgolion ar ddiogelu, ymddygiad cadarnhaol ac iechyd meddwl.

Mae'r pwyslais hwn ar lesiant yn ategu un o themâu trawstoriadol y Strategaeth Ysgolion.

6. Cynllunio strategol ac atebolrwydd lleol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion yn rhan annatod o'r broses o gasglu, dadansoddi ac adrodd data perfformiad, gan gefnogi'r Adran Addysg i wneud penderfyniadau strategol ar sail tystiolaeth.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfrannu at adolygiadau o'r rhwydwaith ysgolion, cynllunio'r gweithlu a chynlluniau gwella lleol.

Mae'r model lleol newydd yn sicrhau atebolrwydd clir rhwng ysgolion, swyddogion a'r Awdurdod, gyda llinellau cyfathrebu byrrach a chefnogaeth fwy personol.

Gyda dyletswyddau GwE bellach wedi'u hintegreiddio'n llawn i strwythur y Cyngor, mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion yn gweithredu fel prif fecanwaith i weithredu'r Strategaeth Ysgolion. Ei rôl yw trawsnewid y weledigaeth strategol yn effaith ymarferol, gan sicrhau;

- fod pob ysgol yn cael ei chefnogi'n briodol;
- fod safonau addysg a lles yn codi'n barhaus; ac
- fod cyfundrefn addysg Gwynedd yn gynaliadwy, ddwyieithog ac o safon uchel ar gyfer y dyfodol.

9) Sut fydd cynnydd yn cael ei fonitro?

Bydd cynnydd yn gweithredu'r Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 – 2036 yn cael ei fonitro'n systematig drwy gyfuniad o brosesau ffurfiol a phartneriaethol:

- Cynlluniau Gweithredu Blynnyddol – bydd pob blaenoriaeth strategol yn cael ei throsi'n dargedau blynnyddol gyda mesurau perfformiad clir, wedi'u hadolygu'n flynyddol gan yr Adran Addysg.
- Adroddiadau Monitro Ffurfiol – cyflwynir adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Addysg, y Cabinet, ac Aelodau Etholedig perthnasol.
- Hunanarfarnu ac Asesu Effaith – bydd ysgolion a Swyddogion Cefnogi Ysgolion yn casglu tystiolaeth o effaith ar safonau, lles a defnydd o'r Gymraeg, gan lywio gwella parhaus.
- Defnyddio Data ac Adroddiadau Estyn – monitro dangosyddion allweddol megis cyrhaeddiad, presenoldeb, a chynnydd ieithyddol, ynghyd â chanfyddiadau archwiliadau Estyn.
- Adolygiad Canol Tymor (2028-2030) - cynhelir adolygiad ffurfiol o'r Strategaeth i fesur cynnydd yn erbyn y targedau tymor canolig ac i ail-bwysleisio blaenoriaethau os bydd angen.

Bydd y broses fonitro'n sicrhau atebolrwydd, tryloywder a gwelliant parhaus, gan roi hyder i Aelodau fod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau pendant i ddysgwyr Gwynedd.

10) Sut mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â materion megis presenoldeb, ymddygiad a chanlyniadau profion PISA?

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar les dysgwyr, safonau ac arweinyddiaeth effeithiol. Er nad yw'n sôn yn benodol am PISA, mae'r camau a gynigir yn cefnogi'r un nod o wella cyrhaeddiad.

1. Presenoldeb

- Pwyslais ar sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan lawn yn y dysgu.
- Cydweithio rhwng ysgolion, gwasanaethau lles a theuluoedd i wella presenoldeb.
- Creu amgylcheddau dysgu deniadol i gynyddu cymhelliant.

2. Ymddygiad a llesiant

- Llesiant wrth galon y ddarpariaeth addysgol.
- Dull cynhwysol ac adferol o reoli ymddygiad sy'n deall anghenion dysgwyr.
- Hyfforddiant a rhannu arfer da i feithrin ymddygiad cadarnhaol.

3. Safonau a chyrhaeddiad (gan gynnwys PISA yn ehangach)

- Codi safonau ar draws y sir, gan ganolbwyntio ar gynnydd.
- Pwyslais ar ansawdd addysgu, arweinyddiaeth a chydweithio rhwng ysgolion.
- Datblygu Cwricwlwm i Gymru o ansawdd uchel i wella llythrennedd, rhifedd a meddwl beirniadol.

Drwy roi lles, presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a safonau addysgu wrth wraidd y gwaith, mae'r Strategaeth yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer gwella canlyniadau dysgwyr. Er nad yw'n cyfeirio at PISA, mae'n gwbl gyson â'r egwyddorion sy'n sail i wella safonau rhyngwladol.

11) A yw'r Strategaeth yn rhoi sylw i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd a'u rôl fel rhan o'r Strategaeth?

Ydy. Mae'r Strategaeth yn rhoi sylw clir a chadarn i rôl y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd fel elfennau allweddol yn y gwaith o wireddu ei gweledigaeth ieithyddol a diwylliannol.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio bod hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg wrth wraidd pob agwedd ar ddarpariaeth addysg yn y sir, gan gydnabod mai'r system addysg yw'r prif fecanwaith i wireddu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA 2022–2032) ac uchelgais Cymraeg 2050.

Yn benodol:

- Mae'r Siarter Iaith (sector cynradd) yn cael ei hadnabod fel fframwaith ymarferol i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymhlith plant, teuluoedd a chymunedau ysgol, gan hyrwyddo defnydd naturiol o'r iaith y tu hwnt i'r dosbarth.
- Mae'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn gweithredu ochr yn ochr â'r Strategaeth Ysgolion i barhau â'r momentwm ieithyddol i'r cyfnod uwchradd, gan gefnogi ysgolion i gynllunio cyfleoedd cymdeithasol ac academiaidd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae'r Strategaeth yn rhoi sylw penodol, cadarn ac ymarferol i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd fel rhan annatod o'i hymrwymiad i feithrin dysgwyr dwyieithog hyderus a chryfhau'r Gymraeg fel prif iaith fyw addysg a chymuned yng Ngwynedd.

12) Pa ystyriaeth sy'n cael ei roi i ddefnydd arall ar gyfer ysgolion sy'n cael eu cau?

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod pob adeilad ysgol yn ased cymunedol gwerthfawr, ac mae'n pwysleisio'r angen i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r asedau addysgol er mwyn cefnogi darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol.

Pan fo ysgol yn cau, mae'r Strategaeth yn nodi'n glir y bydd yr Awdurdod yn ystyried opsiynau ar gyfer ail-ddefnyddio'r adeilad neu'r safle, gan adlewyrchu anghenion addysgol, cymunedol ac amgylcheddol lleol. Mae hyn yn rhan o'r ymrwymiad i gynllunio rhwydwaith ysgolion cynaliadwy a rheoli adnoddau yn effeithlon.

Yn unol â'r Strategaeth:

- Caiff pob achos o newid neu gau ysgol ei ystyried yn unol â phroses asesu manwl, gan gynnwys ystyried effaith ar y gymuned, ar y Gymraeg, ac ar ddarpariaeth addysg leol.
- Mae'r Strategaeth yn pwysleisio y bydd yr Awdurdod yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio adeiladau ysgolion at ddibenion addysgol neu gymunedol eraill, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.
- Y nod yw sicrhau bod unrhyw adnodd sydd eisoes yn bodoli yn parhau'n fuddiol i ddysgwyr a chymunedau, yn hytrach na'i golli'n llwyr o'r system addysgol neu gymunedol.
- Ceir hefyd gyfeiriad at y gofyn am gynllunio tymor hir ar gyfer seilwaith ysgolion, er mwyn osgoi gormodedd o gapasiti diangen a sicrhau defnydd effeithlon o adeiladau a safleoedd.

Nid yw'r Strategaeth yn nodi manylion penodol am greu hybiau addysg amgen, ond mae'n darparu egwyddor glir: pan fo ysgol yn cau, bydd yr Awdurdod yn ystyried defnydd addysgol neu gymunedol amgen fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau system ysgolion cynaliadwy, effeithlon ac o fudd i'r gymuned leol.

13) Pa gymorth sydd ar gael i lywodraethwyr yn y Strategaeth?

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod llywodraethwyr ysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysg o ansawdd uchel a chynaliadwy. Mae'r ddogfen yn pwysleisio'r angen i sicrhau cefnogaeth barhaus a datblygiad proffesiynol i lywodraethwyr fel rhan o'r system arweinyddiaeth addysgol.

Yn unol â'r Strategaeth:

- Mae'r gwaith o gryfhau arweinyddiaeth ysgolion yn cynnwys datblygu ac ymgysylltu efo llywodraethwyr fel partneriaid gweithredol yn y broses o godi safonau.
- Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r bwriad i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i lywodraethwyr, gan sicrhau eu bod yn hyderus wrth gyflawni eu dyletswyddau strategol ac atebolrwydd ariannol.
- Ceir cyfeiriad at bwysigrwydd cyfathrebu agored rhwng llywodraethwyr, penaethiaid a'r Awdurdod, fel rhan o'r gwaith o gryfhau arweinyddiaeth a chynllunio gwella ysgolion.
- Mae'r Strategaeth yn pwysleisio bod cefnogaeth i lywodraethwyr yn rhan o'r dull ehangach o feithrin arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys penaethiaid, timau uwch a chyrrff llywodraethu.

14) Beth fydd sgil effaith toriadau cyllid ar ysgolion yn y dyfodol, yn enwedig y sector uwchradd gyda nifer y disgyblion yn lleihau?

Mae'r Strategaeth yn cydnabod yn glir bod pwysau ariannol sylweddol ar y system addysg, a bod hyn yn debygol o barhau dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r her ariannol hon yn cael ei chydabod fel un o'r prif risgiau i gynaliadwyedd y rhwydwaith ysgolion, yn enwedig wrth i nifer y disgyblion leihau.

Yn ôl y Strategaeth:

- Mae disgwyl i nifer y disgyblion ostwng tua 14% erbyn 2026, gan leihau incwm ysgolion yn sgil fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar niferoedd disgyblion.
- Bydd y sector uwchradd yn wynebu'r effaith fwyaf o ran cynnal cwricwlwm eang a chynnig ystod lawn o bynciau pan fydd niferoedd yn lleihau.
- Mae'r Strategaeth yn nodi y bydd angen adolygu'r rhwydwaith ysgolion i sicrhau bod pob ysgol yn dal i fod yn ariannol hyfyw ac yn gallu darparu addysg o safon.
- Ceir ymrwymiad i sicrhau tegwch ariannol, drwy adolygu'r Cynllun Gwarchodaeth i ysgolion bach a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ar draws y sir.
- Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen i fuddsoddi'n ddoeth mewn seilwaith ac adnoddau dynol, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd tymor hir yn hytrach na mesurau tymor byr.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y bydd toriadau cyllid a'r gostyngiad demograffig yn cael effaith sylweddol ar ysgolion. Ymateb y Strategaeth yw cynllunio'n rhagweithiol, sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau, a chynnal darpariaeth addysg gynaliadwy sy'n gallu cynnig cwricwlwm o ansawdd i bob dysgwr, er gwaethaf y pwysau ariannol.

15) Beth yw'r ddarpariaeth fydd yn cael ei chynnig i blant nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol am amryw o resymau?

Mae'r Strategaeth Ysgolion yn pwysleisio'r ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg addas, waeth beth fo'i amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd am resymau meddygol, emosiynol, cymdeithasol neu eraill.

Yn ôl y Strategaeth:

- Mae'r Awdurdod yn ymrwymo i ddarparu darpariaeth addas i ddysgwyr sy'n methu mynychu'r ysgol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael mynediad at addysg o safon ac yn gwneud cynnydd.
- Ceir darpariaeth addysg amgen a chymorth unigol i blant sydd angen dull gwahanol o ddysgu, yn unol â'u hanghenion penodol.
- Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth trwy Wasanaethau Lles Dysgwyr, Iechyd Emosiynol ac ADY, gan sicrhau dull amlasiantaeth a chynhwysol.
- Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd pontio'n ofalus yn ôl i'r ysgol pan fo'n bosibl, gyda chynlluniau cefnogi unigol i hwyluso dychwelyd dysgwyr i addysg brif ffrwd.
- Yn unol â'r egwyddor o addysg gynhwysol a theg, mae'r Awdurdod yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd cyfartal i gyrraedd ei botensial, beth bynnag fo'i sefyllfa.

Mae'r Strategaeth yn darparu ar gyfer ddarpariaeth hyblyg, unigol a chynhwysol i blant nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol. Mae'r ffocws ar sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i gael addysg o safon a chefnogaeth amlasiantaeth, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i les a chydaddoldeb addysgol i bawb.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	11eg Rhagfyr 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg
RHESWM DROS GRAFFU	Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol
AWDUR	Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau’r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi’i gyflawni yn y maes rwy’n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu’r diweddaraf gyda’r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr Adran.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Medi 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau’n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o’r addewidion sy’n newydd yn y ddogfen ers Ebrill 2024. Er hynny, mae’r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

2.2.1 Perfformiad Addewidion Prosiectau Cynllun y Cyngor

Rwy’n fodlon iawn gyda’r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mae diweddariadau ar holl brosiectau Cynllun y Cyngor yr Adran Addysg i’w gweld yn **Atodiad 1**. Hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau canlynol:

2.2.2 Moderneiddio adeiladau a’r amgylchedd dysgu

Mae bwriad i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Hirael, ac mae’r rhan gyntaf o’r gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle maes parcio Byw’n Iach Bangor er mwyn uwchraddio’r ardal a chreu gofodau parcio ar gyfer staff Ysgol Hirael er mwyn i’r ysgol fod yn safle di-geir.

Mae'r proses dendro ar gyfer penodi contractwyr i ddylunio a gwneud gwelliannau i Ysgol Hiraef yn parhau i fynd rhagddo.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Mae'r gwaith adeiladu yn parhau i fynd rhagddo ac anelir at agor yr ysgol newydd yn nhymor yr Haf 2026.

2.2.3 Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn weithredol ers mis Medi 2025 sy'n nodi ei fod yn ddisgwyliedig i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yn ysgolion Gwynedd fod wedi eu toiledu cyn cychwyn. Rydym yn parhau i rannu adnoddau gyda rhieni a rhannu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gwaith o ehangu darpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd yn weithredol, gyda 30 o leoliadau gofal plant yn darparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ers Medi 2025. Mae'r tîm o Athrawon Ymgynghorol a'r Swyddogion Gofal Plant yn cefnogi'r lleoliadau newydd drwy ymweliadau, cefnogaeth a grantiau cychwynnol i fuddsoddi mewn adnoddau pwrpasol i sicrhau codi safonau i gyfarch gofyn Dechrau'n Deg.

2.2.4 Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Yn dilyn derbyn bron i 800 o ymatebion i holiadur yn 2024 gan rieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid ysgolion mae'r heriau ariannol o anfon plant i'r ysgol wedi eu hamlygu'n glir. Yn ddyddiol mae teuluoedd yn wynebu costau gwisg ysgol, teithiau ysgol, a chostau cinio/egwyl (yn yr Uwchradd) ac mae canfyddiadau'r holiaduron yn adlewyrchu hyn.

Mae'r Ysgolion unigol wedi derbyn dadansoddiad manwl o'r canfyddiadau ac mae gweithgor wedi cyfarfod i sefydlu Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar. Bydd y Siarter yma yn cynnwys nifer o fesuryddion i ysgolion eu cyrraedd er mwyn cael eu hadnabod fel Ysgol 'Cost Gyfeillgar.'

Mae'r Awdit Ysgol Cost Gyfeillgar a gynlluniwyd gan y gweithgor wedi ei rannu gyda'r ysgolion yn ystod mis Tachwedd. Bydd pob ysgol yn derbyn copi o'r ymatebion ar ffurf cynllun er mwyn iddynt weithredu ar yr agweddau maent wedi eu hadnabod sydd angen sylw.

3. Perfformiad yr Adran

Mae Gwasanaethau'r Adran yn perfformio'n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda'u perfformiad presennol. Nid yw'r wybodaeth isod yn cyfeirio at bob Gwasanaeth yn yr Adran, gweler isod rhai o'r uchafbwyntiau. Am fanylion llawn ar berfformiad mesurau'r Adran, gweler **Atodiad 2**.

Arlwyo

Ers 1 Medi 2023, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, a hynny flwyddyn o flaen yr amserlen genedlaethol.

Yn ystod 2024/25, bu i Gyngor Gwynedd weini 902,160 o brydau cinio ysgol am ddim, o'i gymharu â 896,083 yn ystod 2023/24. Mae 71.3% o blant ysgolion cynradd Gwynedd wedi manteisio ar y cynnig cinio am ddim yn ystod mis Medi 2025. Rwy'n hynod o falch o'r llwyddiant hwn, ac yn awyddus i'r Adran hyrwyddo'r cynnig ymhellach ymysg plant a theuluoedd er mwyn annog rhagor o deuluoedd i fanteisio ar y cynnig.

Her Ysgolion Cynaliadwy

Yn dilyn llwyddiant y cais Her Ysgolion Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, mae'n bleser adrodd ar gynnydd prosiect sydd yn rhoi mewnbwn yr holl rhanddeiliaid yn ganolog i'r weledigaeth o adeiladu ysgol a chyfleusterau cymunedol eco gyfeillgar. Mae'r prosiect yn anelu i gyrraedd gofynion carbon uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o 350 kgCO₂/m² sef y targed a osodwyd ganddynt erbyn 2030 drwy ganolbwyntio ar egwyddorion yr economi gylchol ble bydd deunyddiau adeiladu o adeiladu eraill nad ydynt mewn defnydd mwyach yn cael eu hail ddefnyddio yn yr adeilad newydd.

Erbyn hyn mae dysgwyr Ysgol Bontnewydd wedi ymgartrefu yn yr ysgol dros dro sydd ar y safle ble bydd yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu. Yn ystod y cyfnod nesaf bydd ystod o weithgareddau sy'n ymwneud ag adeiladu a'r amgylchedd ac adnoddau dysgu pynciau STEM yn cael eu datblygu gyda'r ysgol gan gynnwys Mathemateg mewn Adeiladu a Gweithdai Amgylcheddol er mwyn sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn chwarae rhan lawn yn y broses adeiladu o'r dechrau.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Mae'r galw am y Gwasanaeth Cwnsela wedi gweld cynnydd oherwydd y nifer o ddysgwyr yn enwedig oed Cynradd sydd yn cael eu cyfeirio. Rydym yn ceisio ymateb i'r galw yma trwy addasu amser cwnsela ar gyfer y Cynradd, ac yn monitro'r rhestrau aros yn ofalus.

Rydym yn parhau i edrych ar gapasiti ein hysgolion arbennig a chanolfannau. At hyn, mae'r gwaith o addasu rhai dosbarthiadau yn Ysgol Pendalar wedi ei gwblhau, ynghyd â gosod 'pod' ar gyfer hybu sgiliau bywyd ac annibyniaeth y dysgwyr. Mae'r datblygiad hwn wedi bod yn wych, ac yn cael ei groesawu gan y dysgwyr.

Presenoldeb

Mae'r maes presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ni, â'r lefelau heb ddychwelyd i'r hyn oeddent cyn y pandemig. Mae canran presenoldeb yr Awdurdod ar gynnydd gyda chyfartaledd y flwyddyn academiaidd i ddyddiad yn 91.92% (Cyfradd Cymru yn 91.9% ym mis Hydref 2025). Mae tueddiad y tair blynedd diwethaf ar i fyny ond rydym yn cydnabod fod gwaith yn parhau er mwyn codi presenoldeb i lefelau cyn y pandemig.

Mae ffocws arbennig yn cael ei roi ar grwpiau bregus (e.e. disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phlant Mewn Gofal), ac mae amrywiaeth o strategaethau gan gynnwys cefnogaeth gan y Swyddogion Lles yn cael eu gweithredu i barhau â'r duedd gadarnhaol hon.

Gwaharddiadau

Maes arall sydd wedi derbyn sylw dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r gwaharddiadau penodol a pharhaol o ganlyniad i ymddygiadau heriol o fewn ein hysgolion. Yn dilyn arolwg manwl o'r Gwasanaeth Cynhwysiad mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau'r ddarpariaeth gan gynnwys symud ymlaen i ddatblygu Uned Cyfeirio Disgyblion, gweithio gydag ysgolion ar Strategaeth Cynhwysiad newydd ac ail fodelu'r ddarpariaeth ymestyn allan sef y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.

Uned Cyfeirio Disgyblion – Camu I'r Copa

Mae'n bleser gen i adrodd bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion sydd wedi'i lleoli ar safle cyn Ysgol Felinwnda yn Llanwnda, bellach wedi cychwyn gweithredu fel darpariaeth gofrestredig, ac wedi cychwyn cefnogi dysgwyr. Bydd y Ganolfan hon yn adnodd hanfodol i bobl ifanc yn yr ardal sydd angen cymorth addysgol wedi'i deilwra, gan eu helpu i ffynnu mewn amgylchedd diogel, meithringar ac ymatebol i'w hanghenion unigol.

Fel Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), mae Canolfan Felinwnda - sy'n cael ei hadnabod fel *Camu I'r Copa* - yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd, o bosibl, yn cael trafferth mewn addysg brif ffrwd. Mae'r Ganolfan yn cynnig dosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol iawn, a chymorth emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol cynhwysfawr.

Ein cenhadaeth yw adfer hyder, meithrin gwydnwch, a rhoi'r offer sydd eu hangen ar ddisgyblion i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd lle bo'n bosibl, neu i wneud pontio cadarnhaol i addysg bellach neu lwybrau galwedigaethol. Drwy gynnig cwricwlwm eang, cymorth therapiwtig, a thîm ymroddedig o staff, ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial ac yn gwella ei lesiant ochr yn ochr â'i gyrhaeddiad academiaidd.

Wedi'i lleoli yng nghanol y gymuned yn Felinwnda, mae'r ganolfan hefyd yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynhwysiant. Drwy gynnig darpariaeth leol, rydyn ni'n lleihau rhwystrau mynediad ac yn sicrhau nad oes rhaid i bobl ifanc deithio'n bell i gael cymorth arbenigol. Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Cyngor Gwynedd ar gyfer moderneiddio addysg.

Gwasanaeth Ieuentid

Mae'r ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuentid sy'n cael ei chynnig yn cynnwys gwaith cymunedol gyda phartneriaid lleol, ynghyd â chefnogaeth mewn ysgolion Uwchradd a'r gymuned i hyrwyddo llesiant personol ac emosiynol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd y tu allan i addysg, hyfforddiant neu waith gan gynnwys cyngor ar gyflogadwyedd, iechyd a materion tai.

Rhwng Ebrill 2025 a Medi 2025, roedd 3,240 o gyfranogiadau gan bobl ifanc ym mhrosiect 11-19 oed. Dros y misoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i ehangu a chryfhau ei ddarpariaeth gymunedol gyda chynnydd amlwg o gymharu â data'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys pedwar clwb cymunedol ieuenctid newydd yn Ty'n Llan (Llandwrog), Trawsfynydd, Tywyn a Mynytho, a dau glwb ychwanegol sydd i agor yn y flwyddyn newydd yn Aberdyfi a Bala.

Ar hyn o bryd, mae 32 o brosiectau a chlybiau cymunedol yn cael eu darparu'n wythnosol ar draws Gwynedd; 16 wedi'u lleoli yn Arfon, 9 ym Meirionnydd a 7 yn Nwyfor. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys 10 clwb wedi'u hariannu gan gynghorau lleol, 3 Clwb Cyfeillgar mewn cydweithrediad â Derwen, 18 clwb cymunedol symudol ac 1 clwb 'Niwro', gan sicrhau cymysgedd cytbwys o ddarpariaeth gyffredinol ac arbenigol i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc y sir.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth symudol, mae deg clwb cymunedol sefydlog yn parhau i weithredu'n rheolaidd gyda chyllid gan gynghorau tref leol, gan ddarparu cyfanswm o 12 noson yr wythnos. Mae'r rhain wedi'u lleoli ym Methesda, Caernarfon, Bethel, Rhiwlas, Llanrug, Deiniolen, Blaenau Ffestiniog a Phenygroes. Mae'r clybiau hyn yn chwarae rôl ganolog wrth feithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu, datblygu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol.

Wrth edrych ymlaen, mae dau glwb cymunedol newydd eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer y flwyddyn newydd, ynghyd â'r bwriad i agor dau glwb ychwanegol yn y flwyddyn academaidd nesaf, yn adlewyrchu twf parhaus a galw cynyddol am ddarpariaeth ieuenctid gymunedol ar draws pob rhan o Wynedd, gan gryfhau ymhellach allu'r Gwasanaeth Ieuenctid i ymateb i anghenion pobl ifanc yn lleol.

4. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Addysg, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau:

Atodiad 1: Adroddiad ar brosiectau Cynllun y Cyngor 2025-26

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran Addysg

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3 (2025/26) - Adran Addysg

Diweddariad Chwarter 2 2025/26

Gwynedd Yfory: Rhoi’r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma:	Ydi’r garreg filltir wedi’i chwblhau / yn debygol o’i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol? (Ydi / Nac Ydi)
Adran Addysg Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	1. Newid Polisi Toiledu i Ysgolion Gwynedd erbyn Medi 2025 a pharatoi teuluoedd at y newid drwy gydweithio yn draws adrannol a gyda’r Bwrdd Iechyd. 2. Ymestyn y Cynllun gofal plant 2 oed i fwy o ardaloedd erbyn Medi 2025 sef Tywyn, Harlech Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd/Buan,Aberdaron/Botwnnog/Tudweiliog, Cricieth, Waunfawr, Seiont 1 – Caernarfon Llanberis, Arllechwedd a Phorthmadog Gorllewinol gan ddarparu gwasanaethau dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog.	1. Rydym wedi gweithredu ar newid y Polisi ers Medi 2025. 2. Rydym wedi gweithredu drwy ymestyn y Cynllun gofal plan i fwy o ardaloedd l gan ddarparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog. Mae ceisiadau wedi agor ar lein i deuluoedd cofrestru eu plant ar y Cynllun. Rydym yn ail hysbysebu ar hyn o bryd ar gyfer penodi staff i’r tîm Athrawon Blynyddoedd Cynnar. Rydym yn cydweithio gyda’r Adran TG i ddatblygu system i weinyddu’r ceisiadau.	Ydi Ydi

Adran Addysg Moderneiddio adeiladau a’r amgylchedd dysgu	1. Dalgylch Bangor Hirael: Cychwyn y gwaith adeiladu ar safle’r ysgol. Ein Harglwyddes: Cwblhau’r gwaith adeiladu ac agor yr ysgol newydd yn Pasg 2026. Tryfan: i. Llunio a chyflwyno achos busnes (Achos Busnes Amlinellol) ii. Cytuno ar ddyluniad 2. Bontnewydd: i. Cyflwyno’r achos busnes llawn (Achos Busnes Llawn) ii. Cwblhau’r gwaith o adeiladu’r ysgol dros dro iii. Dymchwel yr adeilad presennol	1. Dalgylch Bangor Ysgol Hirael: Proses dendro ar gyfer penodi contractwyr i ddylunio a gwneud gwelliannau i Ysgol Hirael yn parhau i fynd rhagddo. Ysgol Ein Harglwyddes: Mae’r gwaith adeiladu ar hen safle Ysgol Glanadda yn parhau i fynd rhagddo. Anelir at agor yr ysgol newydd yn nhymor yr Haf 2026. Ysgol Tryfan: Mae Achos Busnes amlinellol (SOC) Cam 1 o 3 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni. Bydd angen cynnal trafodaethau pellach efo rhan-ddeiliaid yr ysgol yn ystod tymor yr Hydref 2025. 2. Ysgol Bontnewydd: Achos busnes (FBC) wedi ei chyflwyno ym mis Awst. Yn sgil derbyn amcangyfrifon gostau ar gyfer y prosiect oedd yn uwch na’r gyllideb, mae proses fanwl o adolygu’r prisiau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hyn yn golygu amcangyfrifon pris wedi'i fireinio a ble fo'n bosibl amcangyfrifon cost wedi eu gostwng. Mae’r gwaith o adeiladu’r ysgol dros dro wedi ei gwblhau a’r ysgol yn gweithredu o’r adeilad dros dro ers Medi 2025.	Ydi Ydi Ydi Ydi
--	--	---	---

Adran Addysg Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i’r ysgol	1. Llunio a dosbarthu Awdit ‘Y gost o fynychu’r ysgol’ i bob ysgol werthuso trefniadau presennol.	1. Awdit ‘Ysgol Cost Gyfeillgar’ wedi ei ddosbarthu i holl ysgolion Gwynedd ym mis Tachwedd 2025.	Ydi
	2. Dadansoddi canfyddiadau’r Awdit.	2. Disgwylir y bydd modd dadansoddi’r ymatebion ym mis Rhagfyr 2025, wedi i’r ysgolion gael cyfle i’w cwblhau drwy drafodaeth gyda Llywodraethwyr yr ysgol.	Ydi
	3. Rhannu canfyddiadau gyda’r ysgolion ar ffurf cynllun gweithredu unigol i bob ysgol.	3. Bydd y canfyddiadau yn cael eu rhannu gyda’r ysgolion ar ôl y cyfnod dadansoddi. Disgwylir y bydd hyn wedi ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2025.	Ydi
Adran Addysg Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	1. Ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned gyda’r bwriad o gynyddu’r nifer o glybiau cymunedol ar draws y Sir	1. Mae yno 32 o brosiectau / clybiau cymunedol yn cael eu darparu ar draws Gwynedd yn wythnosol;16 wedi ei leoli yn Arfon, 9 ym Meirionnydd a 7 yn Nwyfor. Mae’r ddarpariaeth yma yn cynnwys 10 clwb sydd wedi eu hariannu gan gynghorau lleol, 3 Clwb Cyfeillgar mewn cydweithrediad â Derwen, 18 o glybiau cymunedol symudol a 1 clwb Niwro. Mae pedwar clwb cymunedol newydd wedi agor yn Nhrawsfynydd, Tywyn, Ty’n Llan (Llandwrog) a Mynytho, a dau glwb ychwanegol yn agor yn y flwyddyn newydd yn Aberdyfi a Bala. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyd-ariannu swydd Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd sydd yn cynnal 4 aelwyd ar draws y sir ynghyd a nifer o glybiau ar ôl ysgol.	Ydi
	2. Alinio strategaeth yr awdurdod lleol â chynlluniau pum mlynedd Llywodraeth Cymru.	2. Rydym wedi cyflawni ymgynghoriad eang gyda phobl ifanc ledled Gwynedd drwy gyfres o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, holiaduron a gweithdai cyfranogol. Mae cyfarfodydd wedi’u cynnal gyda sefydliadau partner, gan gynnwys asiantaethau statudol a’r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth derfynol newydd. Rydym yn disgwyl am arweiniad gan Lywodraeth Cymru am strwythur a chynnwys y strategaeth i adlewyrchu’r ddeddfwriaeth newydd.	Ydi
	3. Adnabod ffyrdd o ymgysylltu’n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc.	3. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at adnabod dulliau mwy cynhwysol o ymgysylltu â phobl ifanc, gan ganolbwyntio’n benodol ar gyrraedd grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli. Trwy ddata lleol a mewnbwn uniongyrchol gan bobl ifanc, rydym wedi mapio bylchau mewn darpariaeth ac yn treialu dulliau newydd megis sesiynau thema-benodol, gwaith ieuenctid symudol, a phartneriaethau ag ysgolion a	Ydi

	4. Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r ysgolion uwchradd i sicrhau cynllunio ac adolygu darpariaethau ieuentid cydlynol o fewn cyd-destun ysgol, gan gyfrannu at les ac ymddygiad cadarnhaol pobl ifanc 11-18 oed.	sefydliadau trydydd sector. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn ymgysylltiad gan bobl ifanc ag anghenion ychwanegol, cymunedau gwledig, a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg na hyfforddiant. Byddwn yn parhau i brofi dulliau newydd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb. Mae fforymau wedi ei ddatblygu ar draws y sir i dderbyn adborth pobl ifanc drwy'r Gwasanaeth Ieuentid, ysgolion a'r gwasanaethau ehangach / trydydd sector i gael trosolwg eang o fewnbwn y sir. 4. Mae cynllun penodol wedi cael ei adnabod yn unigol gyda phob ysgol uwchradd i amlinellu cynnig y Gwasanaeth Ieuentid am y tymor. Byddwn yn cynnal cyfarfod diwedd y tymor i arddangos y gwaith sydd wedi ei wneud gyda'r bobl ifanc i wirio os ydy'r amcanion wedi cael ei gyrraedd.	Ydi
Adran Addysg Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	1. Ymgysylltu ar y Strategaeth ddrafft	1. Cynhaliwyd tair sesiwn anffurfiol gyda'r aelodau Cabinet - Mehefin, Gorffennaf, Medi 2025. Byddwn yn ymgysylltu gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, y Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc, ynghyd a'r Fforwm Llywodraethwyr ym mis Rhagfyr 2025.	Ydi
	2. Cyflwyno'r Strategaeth Addysg gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	2. Bydd y Strategaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11 Rhagfyr 2025.	Ydi
	3. Cyflwyno'r Strategaeth Addysg terfynol gerbron y Cabinet gyda'r Strategaeth yn dod yn weithredol.	3. Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth derfynol i'r Cabinet ar ddechrau 2026.	Ydi
Adran Addysg Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd.	1. Ymgynghori, ailstrwythuro a phenodi staff.	1. Mae'r gwaith o ailstrwythuro a phenodi staff wedi'i gwblhau.	Ydi
	2. Cofrestru'r ddarpariaeth fel Uned Cyfeirio Dysgwyr Portffolio	2. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chofrestru	Ydi
	3. Ffurio Pwyllgor Rheoli ar gyfer UCD	3. Mae Pwyllgor Rheoli wedi'i ffurfio a chynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2025.	Ydi
	4. Anwytho staff a hyfforddi	4. Mae'r sesiynau anwytho staff wedi'u cwblhau ar ddechrau'r tymor, gyda hyfforddiant ar systemau a strategaethau wedi'i gwblhau.	Ydi
	5. Lansio Strategaeth Cynhwysiad	5. Strategaeth i'w chyhoeddi yn nhymor yr hydref	Ydi

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma:	Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau/ yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol? (Ydi / Nac Ydi)
Adran Addysg Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	1. Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Paratoi adnoddau a chyflwyniadau newydd i rieni yn amlinellu manteision dwyieithrwydd	1. Mae gwefan newydd y gyfundrefn drochi yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae gwaith o baratoi adnoddau newydd ar waith. Hyn yn flaenoriaeth o fewn Cynllun Datblygu'r Gyfundrefn Drochi 2025/2026 ac yn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Astudiaeth Prifysgol Bangor yn archwilio effeithlonrwydd y model Trochi. Mae'r adnoddau ar gyfer y plant sy'n mynychu'r unedau trochi wedi'u diweddarau.	Ydi
	2. Sefydlu Bwrdd Prosiect CSGA Deilliant 5 i sicrhau cydweithio a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol gyda'r bwriad o fapio'r gweithgareddau a gynigir gan bartneriaethau o fewn y Sir a medru eu cyflwyno i rieni a theuluoedd.	2. Rydym yn gweithio gyda'r ymgynghorydd iaith o fewn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar y garreg filltir hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu gydag aelodau Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn creu adnodd corfforaethol. Bydd y garreg filltir hon yn cael ei thrafod gyda'r Fforwm Iaith yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026.	Ydi
	3. Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen o ran egwyddorion addysg drochi. Cynnal hyfforddiant rheolaidd i staff y Cyfnod Sylfaen i rannu egwyddorion trochi llwyddiannus. Sicrhau bod ganddynt fynediad at adnoddau trochi parod, safonol ar blatfform digidol hylaw.	3. Mae athrawes trochi yn parhau yn nalgylch Bangor i gefnogi 3 ysgol gyda'r arfer gorau o ran trochi. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor lle mae staff yr uned trochi yn rhoi hyfforddiant i ddarpar athrawon ym mis Hydref 2025. Bydd rhaglen hyfforddiant gweddill y gweithlu yn lansio yn nhymor 2 a 3. Mae coladu a chyflwyno adnoddau trochi ynghyd â pharatoi hyfforddiant yn flaenoriaeth o fewn Cynllun Datblygu'r Gyfundrefn Drochi 2025/2026.	Ydi

Herio Perfformiad yr Adran Addysg

64

Mesuryddion



52

Nifer Gwyrdd

81.25%

% Gwyrdd

11

Nifer Amber

17.19%

% Amber

1

Nifer Coch

1.56%

% Coch

Cyfnod adrodd 21/7/2025 - 26/9/2025

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Acronymau

PYD	Prydau Ysgol am Ddim
PLASC	Pupil Level Annual School Census
PMG	Plant Mewn Gofal
CAP	Cynllun Addysg Personol
SMART	Specific, Measurable, Achievable, Realistic, and Time-Bound
DBS	Disclosure & Barring Service
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
BAS	Bwrdd Ansawdd Sirol
ALI	Awdurdod Lleol
CDU	Cynllun Datblygu Unigol
CSGA	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
WEMWBS	Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale
VAWDASV	Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence

“Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion”



Mesuryddion Addysg

Arlwyo

% o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim

71.30

Arlwyo

% o ddysgwyr ysgolion Gwynedd sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol

59.00

Arlwyo

% o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl

27.00

Arlwyo

% yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5

80.00

Cefnogaeth Fusnes

% o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn

90.00

Cefnogaeth Fusnes

% yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes

100.00

Cludiant Addysg

Nifer y cwynion am gludiant

20

Diogelu

% gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG

0.49

Diogelu

% o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas

80.00

Diogelu

% o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen)

100.00

Diogelu

% o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol

99.04

Diogelu

% o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu

94.00

Diogelu

% o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro yn y flwyddyn (calendr) diwethaf

53.20

Diogelu

Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol

0.00

Mesuryddion Addysg

Llywodraethwyr

% o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant

67.00

Llywodraethwyr

% o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol)

80.00

Llywodraethwyr

% o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho

80.00

Moderneiddio

% o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl

80.00

Moderneiddio

% o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl

100.00

Mynediad Ysgolion

Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod

0

Mynediad Ysgolion

Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod

139

Mynediad Ysgolion

% y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf

98.66

Mynediad Ysgolion

% y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf

100.00

Safonau Ysgol

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

100.00

Safonau Ysgol

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymer i ymateb i rwystrau sy'n cael eu cofnodi gan Ysgolion neu gan eraill am faterion gydag Ysgolion

5.00

Uned Ddata

% o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau

80.00

Mesuryddion ADY

ADY Ansawdd a Gweinyddol

Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys

8

ADY Ansawdd a Gweinyddol

% o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)

0.48

ADY Blynnyddoedd Cynnar

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

100.00

ADY Blynnyddoedd Cynnar

% yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol

100.00

Gweinyddol

% o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos

100.00

Mesuryddion Cynhwysiad

Addysg Ddewisol
Gartref

Nifer o ddysgwyr
Addysg Ddewisol Gartref

240

Addysg Ddewisol
Gartref

% o ddisgyblion yn
derbyn addysg addas i'w
gallu

100.00

Addysg Ddewisol
Gartref

% o deuluoedd yn
derbyn ymweliadau
cartref

18.00

Cwnsela

% o ddefnyddwyr sydd
yn fodlon gyda
chefnogaeth y
gwasanaeth

100.00

Cwnsela

Cymedr nifer y
diwrnodau y mae angen
disgwyl am wasanaeth

19.25

Cynhwysiad

Nifer o waharddiadau
parhaol Cynradd

0

Cynhwysiad

Nifer o waharddiadau
parhaol Uwchradd

1

Lles

% presenoldeb
disgyblion Cynradd

93.53

Lles

% presenoldeb
disgyblion Uwchradd

90.53

Lles

% y disgyblion (sydd ar
agor i'r Gwasanaeth
Lles) sydd â rhieni wedi
derbyn erlyniadau o
dan 444 (1)

2.90

Lles

% y disgyblion sydd ar
agor i'r Gwasanaeth
Lles yn adrodd ar
welliant mewn
presenoldeb

78.00

Saesneg fel Iaith
Ychwanegol

% presenoldeb y
disgyblion sydd yn
derbyn cefnogaeth

90.00

Swyddogion
Ymgysylltu Teuluoedd

% o ddisgyblion BL 6
sydd yn derbyn
cefnogaeth yn pontio i'r
Uwchradd yn
llwyddiannus

73.00

Swyddogion
Ymgysylltu Teuluoedd

% o ddisgyblion sydd
wedi derbyn cefnogaeth
yn adrodd ar gynnydd
llesiant

67.00

Swyddogion
Ymgysylltu Teuluoedd

% o ddisgyblion yn
mynychu ein
gweithgareddau
cymunedol

60.00

Mesuryddion Y Gymraeg

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Cynradd)

100.00

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Cynradd)

80.00

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)

100.00

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)

82.00

Y Gymraeg

% o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricleidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd

97.00

Y Gymraeg

% o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricleidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd

79.24

Y Gymraeg

% o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

73.58

Y Gymraeg

% o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

97.90

Y Gymraeg

% o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

86.20

Mesuryddion Gwasanaeth Ieuenctid

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.

97.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth

95.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol

81.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)

73.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir

96.00

Gwasanaeth Ieuenctid

Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed

87

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o achrediau mae'r pobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)

172

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid

1,573

Gwasanaeth Ieuenctid


Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed

3,180

Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim



Mae 71.3% o ddysgwyr oed cynradd wedi manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim mis Medi 2025


Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol



Nid yw'r nifer yr ysgolion sydd wedi cwblhau'r holiadur boddhad cwsmer wedi bod yn uchel ar gyfer mis Medi, felly nid ydym yn cael trosolwg manwl ar draws ein hysgolion. 21 o ysgolion wnaeth gwblhau'r holiadur, gyda chyfanswm o 659 o ddysgwyr oed cynradd.

O'r dysgwyr sydd wedi cwblhau'r holiadur roedd 97% yn fodlon neu'n niwtral:
59% yn fodlon (wyneb hapus)
38% ddim yn fodlon nac yn anfodlon (wyneb niwtral)
3% yn anfodlon (wyneb trist), gan nodi nad oeddent yn hoffi'r bwyd.

Nododd 40 o ddysgwyr nad oeddent yn hoffi'r bwyd a nododd 99 o ddysgwyr bod y bwyd yn flasus. Mae bwydlen newydd yn weithredol ers 3 Tachwedd 2025, ac bydd y Gwasanaeth yn gweithio ar raglen waith i hyrwyddo cinio am ddim, felly gobeithio bydd hyn yn denu mwy o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig.


Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl



4 ysgol gymerodd rhan llynedd. Rydym wedi dyblu'r niferoedd y flwyddyn yma gyda 8 ysgol wedi manteisio ar y Rhaglen Bwyd a Hwyl yn ystod Haf 2025 (30 ysgol yn gymwys, data PLASC Ionawr 2025).

Er bod Rhaglen Bwyd a Hwyl yn raglen wych sydd wedi'i hariannu'n llawn gan Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n dysgwyr dros yr haf, mae'n her cael ysgolion i ymrwymo i weithio 12 diwrnod yn ystod gwyliau'r haf. Nid yw gweithio yn ystod y gwyliau yn rhan o gytundebau gwaith llawer o staff yr ysgolion, na staff Gwasanaeth Arlwyio a Glanhau Addysg, felly rydym yn dibynnu ar ewyllys da y staff i weithio. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cydweithio gyda 'Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd' a asiantaethau allanol i helpu mewn ambell ysgol eleni.

Mae rhai ysgolion sy'n cymryd rhan am y tro cyntaf eleni wedi mynegi bod hyfforddiant Sgiliau Maeth ar gyfer Bywyd (Nutrition Skills for Life L2) sydd yn hanfodol i gynnal y rhaglen yn rhwystr, gan fod angen rhyddhau staff i fynd ar y cwrs. Bellach mae modd cwblhau'r cwrs ar-lein, sydd yn gwneud pethau'n haws i ysgolion gymryd rhan.

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl cadarnhad gan yr ysgolion os ydynt gyda diddordeb cymryd rhan flwyddyn nesaf. Ein gobaith yw cael mwy o ysgolion i gymryd rhan, er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i'n dysgwyr, tra'n lliniaru pwysau ar deuluoedd o ran costau byw a gofal plant dros yr haf.


Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5



80% o adroddiadau archwiliad hylendid a safonau bwyd ysgol wedi derbyn sgôr o 5 (4 ysgol). 20% wedi cael sgôr o 4 (1 ysgol).

Arfon – 3 Ysgol yn derbyn sgôr 5
Meirionnydd – 2 Ysgol wedi cael ymweliad. 1 Ysgol yn derbyn sgôr o 5 ac 1 Ysgol wedi cael sgôr o 4 oherwydd un tap dŵr poeth wedi sticio diwrnod yr ymweliad. Mae'r broblem bellach wedi'i datrys y broblem gyda'r tap diffygiol.
Dwyfor – Dim ysgol wedi derbyn ymweliad yn ystod y cyfnod

Mae holl ysgolion Gwynedd ar hyn o bryd gyda sgôr o 4 neu 5.


Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

Mesurydd: % o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn



Bu i'r Ganolfan Fusnes Addysg brosesu 1,120 o anfonebau yn ystod y cyfnod diwethaf. Fe broseswyd 90% ohonynt o fewn 7 diwrnod (sef 5 diwrnod gwaith). Mae'r canran yn is na'r cyfnod diwethaf ond mae hynny i'w ddisgwyl gan fod y gwyliau haf wedi bod yn ystod y cyfnod. Tymor ysgol ydi rhan helaeth o staff y Ganolfan ac felly ond ychydig o ddyddiau y byddent wedi gweithio yn ystod y gwyliau.


Misol

Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)

Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

Mesurydd: % yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes



Diwedd mis Medi cysylltwyd â 4 Pennaeth dros y ffôn i'w holi am fodlonrwydd y gwasanaeth. Roedd y Pennaethiaid yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth sydd yn galonogol iawn.


Misol

Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)

Cludiant Addysg

Pwrpas: Darparu cludiant addas i fynd a disgyblion i'r ysgol neu goleg

Mesurydd: Nifer y cwynion am gludiant



Mis Medi yw cyfnod prysuraf o'r flwyddyn galendr wrth i drefniadau cludiant o'r newydd ddod i rym. O ganlyniad, mae'r cyfnod mesur dan sylw yn fwrllwm o ohebiaeth gan bartion amrywiol, ac felly derbyniwn ganran uwch o gwynion o'i gymharu â gweddill y flwyddyn, adlewyrchir hyn yn y ffigwr data cwynion.

Derbyniwyd 9 cwyn yn ymwneud â newid gweithredwr yn sgil ail-dendro cytundebau ysgol arbennig. Pryderon tebygol rhieni oedd y rhain yn sgil yr effaith fyddai unrhyw newid yn ei gael ar lesiant y dysgwyr. Yn dilyn gohebu prydlon a chyd-weithio proffesiynol ac effeithlon rhwng swyddogion, y rhieni a'r gweithredwyr daethpwyd i drefniant cadarnhaol a darperir cludiant pwrpasol ers cychwyn y tymor. Mae gwersi wedi eu dysgu gan yr Uned Gludiant hefyd ynglŷn ag amseru hysbysu rhieni o'r newidiadau ynghanol gwyliau'r haf.

Maes arall y derbyniwyd 6 cwyn arno oedd argaeledd seddi ar gludiant ysgol. Yn sgil hyn, adolygwyd y darpariaethau dan sylw ac adnabuwyd seddi addas a chynhigiwyd y rhain o dan ein cynllun seddi gweigion gan sicrhau cludiant addas ac effeithlon i'n dysgwyr.

Derbyniwyd 2 gwyn yn ymwneud â phrydlondeb bysus ysgol ond yn dilyn adolygiad monitro, daethpwyd i'r canlyniad mai tarfu o ganlyniad i waith stryd dros-dro oedd yr achos.

Cafwyd 1 gwyn am gyflwr arwyneb y ffordd ar lwybr taith bws ysgol, cyd-weithiwyd a pheiriannwr ardal i ganfod datrysiad a chytunwyd bod y llwybr bellach yn ddiogel.

Yn dilyn cynlluniau i newid darpariaeth un llwybr bws ysgol i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yn sgil lleihad yn y niferoedd o ddysgwyr cymwys, derbyniwyd 2 gwyn am y newid hwn. Penderfynwyd peidio bwrw ymlaen â'r cynllun yma, gan fod cynnydd yn y dysgwyr erbyn cychwyn y flwyddyn academaidd gyfredol.


Misol

Robert John Jones (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG



0.49% sydd o wahaniaeth rhwng presenoldeb Plant Mewn Gofal (PMG) a Phresenoldeb cyfartalog holl ddisgyblion ysgolion Gwynedd.

Yn y Cynradd mae % presenoldeb PMG yn 1.97% yn fwy na'r cyfartaledd presenoldeb. Yn yr Uwchradd mae'r cyfartaledd yn 3% yn is na % presenoldeb PMG. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau ychwanegol sydd yn wynebu disgyblion sydd â phrofiad o ofal wrth iddynt symud i'r Uwchradd.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas



Yn ddiweddar mae pob Cynllun Addysg Personol (CAP) Plant Mewn Gofal ysgolion Gwynedd wedi cael eu gwerthuso gan ddefnyddio awdit ffurfiol newydd. Mae dadansoddiad o'r awdit yn dangos bod pob PMG gyda thargedau. Mae 80% o'r CAP yn cynnwys targedau addas a 20% gyda thargedau cyfyngedig. Mae cyfyngedig yn golygu bod angen sicrhau targedau SMART a/neu gynnwys llais y disgybl yn y cynlluniau. Bydd y canfyddiadau yma yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion yn ystod tymor yr Hydref a bydd cefnogaeth ar gael i ysgolion sydd angen gwella ansawdd y targedau.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen)



Mae pob aelod o'r adran (heb gyfri staff ysgolion a staff ategol sy'n gweithio mewn ysgolion - data uchod) gyda gwiriad DBS cyfredol.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % o staff dysgu sydd efo gwiriad DBS cyfredol.



Mae 28 aelod o staff angen cwblhau diweddariad DBS. 3 o'r 28 sydd yn athrawon ac mae'r tri yma i ffwrdd o'r gwaith ar hyn o bryd. 9 o'r 28 yn gymorthyddion achlysurol ac athrawon llanw, o'r 9 mae 2 i ffwrdd o'r gwaith a'r gweddill yn y broses o adnewyddu. Mae 1 yn staff Arlwyo / Glanhau ac yn y broses o ddiweddaru DBS ac mae 10 yn staff Arlwyo a Glanhau achlysurol. Mae'r Gweddill yn y broses o adnewyddu ac mewn swyddi achlysurol. Does neb yn cael cychwyn gweithio mewn ysgol o'r newydd heb wiriad DBS lefel uwch.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu



47/50 sydd wedi derbyn ymweliad ansawdd at Fedi 1af yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion diogelu. Mae'r tair ysgol sydd yn derbyn ail ymweliad neu gefnogaeth bellach er mwyn gwirio a chefnogi agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a chynnwys poster Diogelu. Mae'r tair ysgol yma yn derbyn ymweliadau cefnogol ychwanegol er mwyn monitro bod y camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn brydlon.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro yn y flwyddyn (calendr) diwethaf



Ers Ionawr 2025 mae'r Tîm Diogelu a Llesiant wedi cychwyn cylch newydd o ymweliadau ansawdd ysgolion. Erbyn Medi 1af mae 53.2% o ysgolion Gwynedd (50 ysgol) wedi derbyn ymweliad ansawdd gan y Tîm Diogelu. O'r ymweliadau, mae 3 ysgol wedi derbyn ail ymweliad er mwyn gwirio agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a chynnwys y poster Diogelu. Mae'r dair ysgol yma yn derbyn ymweliadau cefnogol cyson er mwyn monitro bod y camau gweithredu yn cael eu cyflawni. Mae 12 ymweliad ysgol arall wedi ei gynnal yn mis Hydref gyda 15 arall wedi amserlennu cyn y Nadolig.

Er bod y cylch ymweliadau newydd wedi cychwyn ers Ionawr 2025 nid oedd y Tîm Diogelu wedi ei sefydlu tan Fawrth 2025 felly nid oedd cynnydd yn nifer y staff i gynyddu cyfradd ymweliadau wedi gallu cael ei weithredu tan Fawrth 2025. Golygir hyn ein bod yn gweithio tuag at allu ymweld â phob ysgol erbyn diwedd yn y flwyddyn galendr hon. Yn hanesyddol pob dwy flynedd yr oedd ysgolion yn derbyn ymweliadau ansawdd.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Mesurydd: Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol



Ar hyn o bryd mae pob disgybl (oed statudol Ysgol) PMG Gwynedd yn derbyn addysg boed hynny mewn ysgol prif lif, mewn uned gyfeirio, pecyn unigol neu gyfuniad o ddarpariaethau gwahanol. Mae'r Tîm cynhwysiad a'r Cydlynnydd Plant mewn gofal yn cydweithio'n agos gydag ysgolion a darparwyr i sicrhau bod unrhyw drosglwyddiad neu newid lleoliad / ysgol yn cael ei wneud yn effeithiol gan gael cyn lleied o effaith a phosib ar addysg y disgyblion.


Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Mesurydd: % o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant



Mae'r ganran yma ar sail 9 ymateb i holiadur gwerthuso (yn dilyn cynnal sesiynau hyfforddiant anwytho llywodraethwyr i staff; hyfforddiant i gadeiryddion + amddiffyn plant gyda chyfanswm o 35 o fynychwyr rhwng y 4 sesiwn). Felly mae 6 o'r 9 wedi datgan bod eu hyder wedi cynyddu am y maes dan sylw yn dilyn yr hyfforddiant. Er fod y ganran yn is na'n flaenorol, roedd y 3 na nododd gynnydd yn eu hyder yn lywodraethwyr profiadol ac yn adrodd eu bod eisoes yn 'Hyderus' cyn yr hyfforddiant ac yn parhau i fod felly wedi'r hyfforddiant. Felly, er nad oedd cynnydd yn eu hyder, roeddent yn adrodd eu bod yn hyderus yn eu rôl.

Cyfnod adrodd 21/7/2025 - 20/11/2025


Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Mesur: % o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol)



80% o Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu eisoes wedi derbyn yr hyfforddiant i Gadeiryddion
6% yn Gadeiryddion o'r newydd sydd wedi hethol o fewn y ddeufis diwethaf (5 Cadeirydd o'r newydd)
2% yn Gadeiryddion profiadol iawn ac wedi bod yn Gadeirydd Corff Llywodraethu ers dros 10 mlynedd (2 Gadeirydd)
12% yn Gadeiryddion wedi cychwyn yn y rôl rhwng 2021 a 2024 ond heb fynychu'r hyfforddiant i Gadeiryddion (10 Cadeirydd)

Byddwn yn targedu'r Cadeiryddion nad ydynt eisoes wedi mynychu'r hyfforddiant ynghyd ag annog is-gadeiryddion i fynychu fel eu bod yn deall y rôl cyn cael eu hethol yn Gadeirydd. Am eleni, bydd disgwyl iddynt unai fynychu sesiwn hyfforddiant i Gadeiryddion neu gwblhau'r hyfforddiant rhanbarthol i Gadeiryddion arlein erbyn diwedd tymor y Pasg. O Medi 2026 bydd disgwyl i Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu ysgolion Gwynedd gwblhau hyfforddiant penodol i Gadeiryddion erbyn diwedd y tymor y cânt eu hethol.

Cyfnod adrodd 21/7/2025 - 20/11/2025


Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Mesurydd: % o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho



Amcangyfrif 80%

Oherwydd y system a ddefnyddir i gasglu a chadw manylion llywodraethwyr ysgol Gwynedd ar hyn o bryd, mae'n parhau i fod yn heriol adrodd yn gwbl gywir ar y mesurydd yma. Fodd bynnag o fynd trwy broses ddadansoddi fesul ysgol unigol dros yr haf gellir amcangyfrif bod y ganran oddeutu 80% (gan eithrio unrhyw lywodraethwyr sydd newydd eu hethol/enwebu).

Er mwyn gallu adrodd yn fwy cywir ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf bydd gwaith yn cael ei wneud i gywain y wybodaeth yn uniongyrchol gan Clercod y Cyrff Llywodraethu. Bydd hyn yn rhoi ffigwr mwy cadarn fel man cychwyn.

Bydd gwaith targedu pellach yn digwydd yn sgil y wybodaeth ddaw i law.

Mae'r gwaith o gasglu'r wybodaeth uchod wedi dangos gwendidau sylweddol yn y dull a'r system a ddefnyddir ar hyn o bryd i gasglu a chadw gwybodaeth am Gyrff Llywodraethu a Llywodraethwyr unigol ysgolion Gwynedd. Mae'r adran yn ymwybodol o fannau gwan ein systemau ac yn gweithredu ar wneud gwelliannau i rymuso llywodraethiant ar draws y sir.

Cyfnod adrodd 21/7/2025 - 20/11/2025


Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

Mesurydd: % o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl



Mae nifer sylweddol o'r prosiectau cyfalaf wedi gweld cynnydd da dros y cyfnod ac ar drac i'w cyflawni'n amserol. Er hynny, mae materion yn parhau sydd angen eu cwblhau yn Ysgol Cymerau (Prosiect Cyflwr ac Addasrwydd Gwedd 1 a 2 Band B), y maes parcio eto i'w greu ar gyfer Ysgol Y Faenol a Chanolfan Penrhosgarnedd mewn cydweithrediad gyda Chyngor Cymuned Pentir, ond mae'r prosiect yn symud ymlaen (Prosiect Band A), a chymhlethdodau wedi codi ar safle Ysgol Llanllechid sydd wedi arwain at oedi cwblhau'r gwaith tan yn ddiweddarach yn Nhymor yr Hydref (Prosiect Cyflwr ac Addasrwydd / Cynyddu Capasiti). Yn sgil gofynion heriol y prosiectau di-gyfalaf ar y tîm dros y cyfnod nesaf, mae pryder y bydd y rhaglen waith gyfalaf yn llithro yn sgil capasiti annigonol yn y tîm i allu cyfarch yr holl ofynion.

Misol

Debbie Anne Jones (ADDYSG)

Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

Mesurydd: % o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl



Mae 2 adroddiad wedi eu cyflwyno i Gabinet ar 14 Hydref 2025, yn gofyn caniatâd i ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir sef: Ceisir caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.


Misol

Debbie Anne Jones (ADDYSG)

Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Mesurydd: Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod



Nid oes Apêl wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod adrodd.


Misol

Kenny Norgain (ADDYSG)

Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Mesurydd: Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod



Yn ystod y cyfnod adrodd derbyniwyd 139 o geisiadau trosglwyddo Ysgol, gyda 46 yn rhai oed Uwchradd a 93 yn oed Cynradd. Ar hyn o bryd nid oes patrwm penodol yn sefyll allan o ran trosglwyddiadau o Ysgolion penodol, nac blwyddyn Ysgol benodol. Nodir hefyd fod 5 o'r ceisiadau sydd wedi ei derbyn yn nodi eu bod eisiau trosglwyddo o Addysg Ddewisol Gartref yn ôl i Ysgol.


Misol

Kenny Norgain (ADDYSG)

Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Mesurydd: % y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf



Data Blynnyddol yn cael ei gasglu yn dilyn rownd mynediad arferol. Data ar gael i adrodd arno o fis Mai ymlaen.

Chwarterol

Kenny Norgain (ADDYSG)

Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Mesurydd: % y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf



Data Blynnyddol yn cael ei gasglu yn dilyn rownd mynediad arferol. Data ar gael i adrodd arno o fis Mai ymlaen.

Chwarterol

Kenny Norgain (ADDYSG)

Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Unwaith yn rhagor, mae'r bodlonrwydd yn 100% gyda neb wedi nodi nad yw'r gefnogaeth yn ddigonol. Bydd y Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion yn adrodd ar fesuryddion newydd o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

Misol

Alison Halliday (ADDYSG)

Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

Mesurydd: Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymer i ymateb i rwystrau sy'n cael eu cofnodi gan Ysgolion neu gan eraill am faterion gydag Ysgolion



Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn gryf iawn ac yn adlewyrchiad o waith tîm cymharol fychan iawn o swyddogion ac o wasanaeth sydd wedi bod drwy gryn dipyn o newid.


Misol

Alison Halliday (ADDYSG)

Uned Ddata

Pwrpas: Sicrhau cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad

Mesurydd: % o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau




Derbyniwyd 5 ymateb yn ôl gan gwsmeriaid, gyda 4 ohonynt yn fodlon iawn, a 1 yn fodlon - mae'r sylwadau sydd wedi dod yn ôl fel rhan o'r arolwg hefyd yn gadarnhaol dros ben e.e. 'Gwasanaeth Gwych - sydyn iawn a chyfeillgar. Diolch yn fawr.' Er bod perfformiad wedi llithro mewn cymhariaeth â'r cyfnod adrodd blaenorol (perfformiad o 100% yn dilyn 2 ymateb), mae'r sylwadau a phawb yn sgorio 4 neu 5 yn rhoi sicrwydd fod y gwaith sy'n cael ei ddarparu o safon uchel - felly ar hyn o bryd nid oes angen camau pellach.

Misol

Kenny Norgain (ADDYSG)

ADY Ansawdd & Gweinyddol

Mesurydd: Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys



Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

Mae 2 apêl wedi dod i law yn ystod yr haf ac nid yw'r 6 arall wedi eu cau eto gan fod Tribiwnlys Addysg Cymru yn defnyddio tymor ysgol i gynnal gwrandawiadau. Nid syndod fod 2 ychwanegol wedi dod i law gan fod y cyfnod trosiannol yn gallu bod yn gyfnod pryderus iawn i rieni.


Chwarterol

Einir Thomas (ADDYSG)

ADY Ansawdd & Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

Mesurydd: % o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)



Yn dilyn toriad yr haf rydym yn parhau ar y cynllun i wella gydag un ysgol gan obeithio adrodd israddio erbyn diwedd y tymor; ac yn cadw llygaid a rhoi cymorth o bell i'r ysgol a chafodd ei hisraddio.

Misol

Einir Thomas (ADDYSG)

ADY Blynyddoedd Cynnar

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALI mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu



Yn ystod y cyfnod diwethaf, derbyniwyd un ymateb i'r holiadur, lle nododd y rhiant ei bod yn fodlon iawn gyda'r broses. Dywedodd: "Process to determine ALN was done quickly, very happy with all the support."

Er nad yw'r tîm yn derbyn ymateb i bob holiadur, mae'r cydlynwyr yn derbyn sylwadau cadarnhaol iawn yn ystod cyfarfodydd llunio ac adolygu CDU. I ategu'r adborth hwn, gellir cadarnhau nad oes unrhyw riant wedi cysylltu â'r Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar i drafod anghydfod, ac nid oes unrhyw achos tribiwnlys wedi'i gofnodi yn y Blynyddoedd Cynnar hyd yma.

Misol

Ellen Mai Jones (ADDYSG)

ADY Blynnyddoedd Cynnar

Mesurydd: % yr achosion sy'n cyd fynd â'r amserlen statudol



Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALL mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Yn ystod y cyfnod diwethaf, derbyniwyd 26 cyfeiriad i gychwyn y broses statudol Ymholiad ADY. Mae hyn yn gynydd sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (15). Credir bod sawl ffactor yn cyfrannu at y cynnydd cyson a welwyd drwy gydol y flwyddyn addysgol ddiwethaf, gan gynnwys:

- Estyniad ardaloedd Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod nifer uwch o blant yn dechrau lleoliad Blynnyddoedd Cynnar o ddwy oed.
- Prosesau ADY yn y Blynnyddoedd Cynnar wedi gwreiddio, gan alluogi gwasanaethau iechyd a lleoliadau i adnabod a chyfeirio anghenion yn amserol ac effeithiol.

Yn ystod yr un cyfnod, cwblhawyd 27 ymholiad ADY, gyda 17 ohonynt yn arwain at roi CDU mewn lle. Ar gyfartaledd, cwblhawyd yr ymholiadau hyn o fewn 9 wythnos, er bod 4 ymholiad wedi profi oedi, gyda chyfartaledd o 20 wythnos ar gyfer y rhain.

Mae'r cynnydd mewn cyfeiriadau ar gyfer plant o ddwy oed yn golygu bod y tîm nid yn unig yn ymateb i nifer uwch o ymholiadau, ond hefyd yn darparu cefnogaeth i fwy o blant, boed hynny yn eu cartref neu mewn lleoliad, am gyfnod estynedig. O ganlyniad, mae llwyth gwaith y tîm wedi cynyddu.

Pwynt Gweithredu:

- Monitro'r cynnydd yn nifer yr ymholiadau ADY yn barhaus er mwyn adnabod patrymau a rhagweld galw yn y dyfodol.
- Sicrhau cynaliadwyedd strwythur y tîm, er mwyn gallu parhau i ymateb yn effeithiol i'r cynnydd mewn cyfeiriadau ac i'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o hynny.


Misol

Ellen Mai Jones (ADDYSG)

Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi'r timau ADYaCH, Ysgolion a'r cyhoedd ar gyfer darparu mewnbwn ADYaCh

Mesurydd: % o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos



Nid oes yna unrhyw banel wedi bod tymor yma.
Nifer Fforwm = 61
Cyfanswm = 61
Mae pob cais Fforwm wedi'i weinyddu ar yr CDU o fewn yr amser.


Misol

Ellen Mai Jones (ADDYSG)

Addysg Ddewisol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

MesuryddNifer o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref



178 o deuluoedd sydd yn gofrestredig ond gyda 240 o ddysgwyr. Mae canran o'r rhain wedi dod yn adnabyddus i ni dros yr haf a rhai heb gofrestru erioed mewn ysgol. Nid yw sefyllfa Gwynedd yn annhebyg i unrhyw Sir arall gyda chynnydd blynyddoedd. Mae cyfradd Gwynedd fesul 1000 o ddisgyblion yn llai na chyfradd Cymru ond y rhesymau dros dad gofrestru yn debyg iawn gyda dull o fyw, iechyd meddwl/ffobig a phwysau presenoldeb yn amlygu yn bennaf. Yn y cyfnod adrodd yma rydym wedi gweld fwy o geisiadau i ail gofrestru mewn ysgol na sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf, gyda 18 wedi dad-gofrestru yn y cyfnod yma.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Addysg Ddewisol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Mesurydd: % o ddisgyblion yn derbyn addysg addas i'w gallu



Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, disgwylir i awdurdodau lleol gynnal ymweliadau blynyddol o leiaf neu gyswllt cyfatebol gyda phlant sy'n derbyn addysg ddewisol gartref. Gall y cyswllt hwn gynnwys sgysiau uniongyrchol gyda'r plentyn, adolygu gwaith, neu drafod gyda'r rhieni, gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg sy'n briodol i'w oedran, gallu ac anghenion.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 21 Gorffennaf 2025 a 26 Medi 2025, cynhaliwyd cyfanswm o 42 ymweliad a chyswllt. Mae'r tîm yn hyderus, ar sail yr ymweliadau hyn, fod pob unigolyn yn derbyn addysg sy'n briodol i'w gallu.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Addysg Ddewisol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Mesurydd: % o deuluoedd yn derbyn ymweliadau cartref



Dros y cyfnod adrodd diwethaf, mae 9 teulu wedi derbyn ymweliad cartref a 33 cyswllt wedi digwydd trwy Teams a galwadau ffôn. Y nod yw cynnal ymweliadau cartref gyda 25% o deuluoedd bob chwarter ond gyda gwyliau haf nid oedd hyn yn bosib. Yn y cyfnod adrodd nesaf disgwylir fod oleuaf 25% o deuluoedd wedi derbyn ymweliadau.

Gyda'r cynnydd mewn niferoedd mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau gweithredu pellach drwy benodi Cydlynnydd ADY fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol, i ddisgyblion sydd yn meddu ar Gynllun Datblygu Unigol. Bydd hyn yn rhyddhau amser y tîm i gynnal mwy o ymweliadau cartref uniongyrchol.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Rydym wedi derbyn 4 ymateb yn unig gan ei bod yn fuan iawn yn y flwyddyn ysgol.


Misol

Dora Wendi Jones (ADDYSG)

Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

Mesurydd: Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth



Mae'r amser aros am wasanaeth wedi ei chynyddu oherwydd bod achosion yn mynd yn fwy cymhleth ac felly mae'r plant a phobl ifanc angen rhagor o sesiynau sydd yn golygu fod eraill yn aros yn hirach i gael eu gweld. Mae nifer y cyfeiriadau sydd yn dod atom hefyd yn cynyddu, yn enwedig rhai oedran cynradd, mae hyn yn cyfrannu eto at amser aros hirach.

Rydym wedi penodi cwnselydd ychwanegol am ddeuddydd dros dro, ac yn gobeithio y bydd hyn o gymorth i gadw'r rhestr aros i amser rhesymol.


Misol

Dora Wendi Jones (ADDYSG)

Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd



Roedd un sefyllfa lle bu'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda ysgol i osgoi'r angen am waharddiad parhaol. Adroddwyd y digwyddiad fel un lle ystyriwyd gwaharddiad parhaol.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd



Un achos o waharddiad parhaol wedi'i weithredu ers dechrau mis Medi o ganlyniad i ymosodiad ar aelod o staff. Nid yw'r panel disgyblu wedi cwrdd eto i gadarnhau neu wrthdroi'r penderfyniad. Cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol - roedd 11 o waharddiadau parhaol wedi'u gweithredu yn yr un cyfnod y llynedd. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r gwaith rhagweithiol gyda'r ysgolion y llynedd, sy'n dechrau dwyn ffrwyth ond er bod cynnydd wedi'i wneud, mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau diogelwch a chynhwysiant parhaus.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Cynradd



Canran bresenoldeb y Cynradd yn uwch na chyfartaledd Cymru. 10 Ysgol Gwynedd gyda % yn llai na 90%.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Uwchradd



Cyfartaledd yr Awdurdod yn 92%, roedd llynedd i'r un cyfnod yn 91.9%. Salwch a gwyliau yw'r prif resymau dros absenoldebau. Nifer o ysgolion bellach yn nodi gwyliau yn anawdurdodedig gyda chanran o 8.5% yn cyfrannu at y data absenoldebau anawdurdodedig.

Cyfartaledd Cymru 92.3% gyda dim newid o'i gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % y disgyblion (sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles) sydd â rhieni wedi derbyn erlyniadau o dan 444 (1)



Mae gan rieni ddyletswydd statudol i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Pan fo absenoldeb parhaus heb esboniad derbyniol, mae gan yr awdurdod lleol bŵer i erlyn rhieni o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996. Mae erlyniadau'n cael eu hystyried fel cam olaf ar ôl i gamau ataliol ac ymyriadau cefnogol fethu â sicrhau gwelliant. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu ar sail egwyddorion cymorth a chydweithio, gan roi pob cyfle i deuluoedd wella presenoldeb disgyblion cyn ystyried camau cyfreithiol. Erlyn rhieni yw'r cam olaf ar ôl proses fanwl o ymyrraeth, cyfarfodydd, cynlluniau gweithredu a rhybuddion statudol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cofnodwyd 104 achos lle bu angen ymyrraeth gan y Gwasanaeth Lles Addysg. O'r rhain, dim ond 3 achos a arweiniodd at erlyn rhieni o dan adran 444(1A) Deddf Addysg 1996.

- Mae hyn yn cyfateb i tua 2.9% o'r holl achosion.
 - Mae'r ganran isel hon yn dangos yn glir mai cam olaf yw erlyn, wedi i bob dull cymorth a chefnogaeth gael ei roi ar waith.
 - Yn y 3 achos lle bu erlyn, gwelwyd gwelliant amlwg mewn presenoldeb y disgyblion dan sylw.
- O ganlyniad, mae'r disgyblion wedi dangos gwelliant mewn presenoldeb. Mae hyn yn dangos bod camau cyfreithiol, ar ôl ymyrraeth flaenorol gan y Gwasanaeth Lles Addysg, yn gallu arwain at newid ymddygiad cadarnhaol.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Mesurydd: % y disgyblion sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles yn adrodd ar welliant mewn presenoldeb




Yn ystod y cyfnod adrodd roedd 104 achos ar agor i'r Gwasanaeth Lles Addysg. Erbyn 26 Medi 2025, nodwyd gwelliant ym mhresenoldeb 81 o'r disgyblion hynny. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd gwelliant o tua 78%, sy'n dangos effaith gadarnhaol ymyriadau cynnar a chydweithredol. Mae'r Swyddogion Lles wedi gweithredu'n rhagweithiol drwy dargedu disgyblion gyda phresenoldeb gwael ar ddechrau'r tymor, canolbwyntio'n benodol ar Flynyddoedd 7 ac 11, gan adnabod grwpiau risg uchel a chynnig cefnogaeth bwrpasol a chynnar i leihau absenoldeb a chynyddu ymgysylltiad.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Mesurydd: % presenoldeb y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth



Mae'r data a gyflwynwyd yn seiliedig ar bresenoldeb dros un wythnos yn ystod y cyfnod hwn pan ddechreuodd y tîm gefnogi disgyblion ar ôl ein fforwm. Collodd un disgybl 2 sesiwn oherwydd ei fod yn ymweld â'i wlad enedigol.

Chwarterol

Helen Elisabeth Speddy (ADDYSG)

Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

Pwrpas: Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

Mesurydd: % o ddisgyblion Bl. 6 sydd yn derbyn cefnogaeth yn pontio i'r Uwchradd yn llwyddiannus



Mae swyddogion teulu wedi bod yn darparu cefnogaeth pontio estynedig i ddisgyblion Blwyddyn 6 mwyaf bregus, er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, cofnodwyd bod 73% o'r disgyblion a dderbyniodd y gefnogaeth ychwanegol wedi ymgartrefu'n gadarnhaol yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn dystiolaeth o'r gwaith partneriaeth cryf rhwng swyddogion a'r ysgolion, gan ddangos effaith gadarnhaol y gefnogaeth ar y mwyafrif o ddisgyblion.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod 27% o'r disgyblion hyn yn dal i wynebu heriau wrth bontio. Mae'r rhwystrau'n cynnwys pryderon llesiant ac anawsterau addasu i amgylchedd newydd. Mae'r ffigwr hwn yn tanlinellu'r angen i gryfhau'r gefnogaeth i'r rhai mwyaf bregus, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i lwyddo wrth symud i'r uwchradd.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

Mesurydd: % o ddisgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth yn adrodd ar gynnydd llesiant

Pwrpas: Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref



Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, cofnodwyd bod 67% o'r disgyblion a dderbyniodd y gefnogaeth wedi adrodd ar gynnydd cadarnhaol yn eu hyder. Mae hyn yn dystiolaeth o effaith uniongyrchol y gefnogaeth ar ddatblygu hyder, gwydnwch ac ymdeimlad o berthyn ymhlith ein pobl ifanc.


Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod 33% o'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth yn dal i wynebu heriau mewn perthynas â hunan-hyder. Mae'r ffigwr hwn yn tanlinellu'r angen i gryfhau'r gefnogaeth bwrpasol i'r rhai mwyaf bregus, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

Mesurydd: % o ddisgyblion yn mynychu ein gweithgareddau cymunedol



Pwrpas: Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol, cofnodwyd bod 60% o'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

- Cefnogi mewn digwyddiad te prynhawn cymunedol
- Ymweld â chartrefi'r henoed i gynnal sesiynau cyfeillgarwch
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau hwyl a drefnwyd dros wyliau'r haf

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod 40% o'r disgyblion heb gymryd rhan yn y gweithgareddau cymunedol dros yr haf. Er hynny, mae'r grŵp hwn yn parhau i ymgysylltu'n dda yn y cyfleoedd sydd ar gael yn ystod y tymor, gan awgrymu bod angen parhau i ddatblygu cyfleoedd hygyrch a chynhwysol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar brofiadau cymunedol sy'n cefnogi eu llesiant a'u datblygiad personol.


Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)



Mae'r canlyniadau yn parhau i fod yn rhagorol.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)



Mae canlyniadau lefel 2 Canolfannau Trochi Cynradd yn gyson dros dreigl amser ac yn dangos cynnydd o 2% rhwng Medi 2024 a Medi 2025.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)



Erys y canlyniadau'n gyson dros dreigl amser.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Canolfannau laith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)



Mae canlyniadau lefel 2 dysgwyr (Uwchradd) yn ein canolfannau trochi yn gyson dros dreigl amser ac yn dangos cynnydd o 7% rhwng Medi 2024 a Medi 2025.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mesurydd: % o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaid ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd



Adlewyrcha'r gostyngiad yn y data, o 97.73% i 97%, y sefyllfa o ran y garfan bresennol o ddisgyblion ym mhob ysgol gynradd a hynny'n cynnwys yr ysgol drosiannol. Mae'r Awdurdod Addysg yn ymateb drwy sicrhau bod athrawes brofiadol yn gweithio yn yr ysgol honno, a dwy ysgol arall ym Mangor, gan fodelu arferion da a chydweithio gyda staff yr ysgolion i wella a grymuso'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â hynny, mae Tiwtor Dysgu Cymraeg i'r Gweithlu Addysg yn darparu gwersi Cymraeg i staff yr ysgol drosiannol gan ddysgu'r Gymraeg ar lefel sylfaen i rai a gloywi sgiliau a chynyddu hyder eraill. Mae un athrawes o'r ysgol drosiannol ar gwrs sabothol ar hyn o bryd.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mesurydd: % o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaid ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd



Dengys y data a gasglwyd ar gyfer y CSGA eleni fod 79.24% o ddysgwyr ysgolion uwchradd Gwynedd yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau cwricwlaid ac allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y ganran hon yn awgrymu tuedd gadarnhaol, mae'r data presennol yn cynnwys dysgwyr sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau dwyieithog, ac felly mae angen parhau i fireinio'r trefniadau casglu data er mwyn sicrhau eglurder.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mesurydd: % o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Dengys y data a gasglwyd ar gyfer y CSGA eleni fod 73.58% o ddisgyblion Blynnyddoedd 10 ac 11 yn cael eu haddysg ac wedi eu cofrestru i sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ganran yn galonogol iawn ond mae angen parhau i fireinio'r dull o gasglu data er mwyn adrodd yn gwbl hyderus yn erbyn y mesurydd.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mesurydd: % o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Cesglir y data hwn drwy'r Arolwg Blynnyddol o'r Gweithlu Ysgol ac mae ei gasglu'n ofyn statudol o dan reoliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r ganran o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n gadarnhaol iawn. Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n ddihyder, mae'r Awdurdod Addysg yn cydweithio â Phrifysgol Bangor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi sylfaen, gwersi gloywi iaith a gwersi cynyddu hyder. Mae staff yr ysgol drosiannol wedi manteisio ar y rhaglen yn y gorffennol ac yn parhau i dderbyn hyfforddiant rheolaidd gan diwtor. Ar hyn o bryd, mae un aelod o staff yr ysgol ar gynllun sabothol.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mesurydd: % o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Cesglir y data hwn drwy'r Arolwg Blynyddol o'r Gweithlu Ysgol ac mae ei gasglu'n ofyn statudol o dan reoliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r ganran o athrawon sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson gadarnhaol. Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n llai hyderus mae'r Awdurdod Addysg yn cydweithio â Phrifysgol Bangor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi sylfaen, gwersi gloywi iaith a gwersi cynyddu hyder. Ar hyn o bryd, mae staff yn y ddwy ysgol uwchradd drosiannol yn manteisio ar y rhaglen. Erbyn Rhagfyr 2025, bydd 17 aelod o staff un o'r ysgolion hynny wedi cychwyn ar gyrsiau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer eu hanghenion personol.


Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.



Mae'r ffigwr yma wedi parhau yn gyson uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth, ein bod yn parhau i ymgysylltu gyda phobl ifanc i gymryd rhan yn ein darpariaethau eang. Mae'r adborth yn cael ei gasglu gan y bobl ifanc ar ddiwedd pob sesiwn yn yr ysgolion a'r gymuned. Mae'r broses o werthuso ein gwasanaeth yn barhaus, lle yr ydym yn derbyn adborth gan bobl ifanc i allu addasu ac ymateb i'w anghenion. Bydd y Gwasanaeth yn rhannu holiadur o fewn y misoedd nesaf i dargedu'r unigolion sydd ddim yn ymgysylltu gydag ein darpariaeth i dderbyn adborth gwerthfawr.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: % o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth



Eto, mae'r ffigwr yma wedi parhau yn gyson uchel dros y ddwy flynedd diwethaf sydd yn adlewyrchu ar un o brif flaenoriaethau'r gwasanaeth i wella lles pobl ifanc Gwynedd. Mae'r adborth yn cael ei gasglu gan y bobl ifanc ar ddiwedd pob sesiwn yn yr ysgolion ar gymuned. Yr her fydd i barhau gyda'r safonau yma gyda'r heriau llesiant pobl ifanc. Rydym ni fel gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio egwyddorion y 5 ffordd at les i gynllunio ein darpariaeth ac yn sicrhau bod llais y bobl ifanc yn ganolog yn ein cynlluniau.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol



Mae'r ffigwr yma wedi codi ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r cynlluniau personol yma wedi ei chynllunio ar y cyd gyda phobl ifanc sydd yn cynnwys eu nodau tymor byr a hir sydd yn ganolog i'w pecyn cefnogaeth. Gall y ffigwr yma amrywio o fis i fis gan nad yw siwrnai'r bobl ifanc bregus yr un peth ac weithiau y mae angen goresgyn heriau annisgwyl fel rhan o'i chefnogaeth. Mae'r ffigwr o 81% yn gyfartaledd o ffigwr ynghlwm a'r data o'r bobl ifanc yn cyrraedd eu nodau tymor byr (90%) a'r nodau hir dymor (71%).


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)



Mae'r canran wedi cynyddu ychydig i'w gymharu â ffigurau'r chwarter diwethaf. Mae'r mesurydd llesiant yma yn cael ei gasglu drwy raglen WEMWBS. Mae'r rhaglen yma yn ein galluogi i fonitro lles meddwl yn y boblogaeth gyffredinol a gwerthuso prosiectau, rhaglenni a pholisiau sy'n anelu at wella lles meddwl.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir



Mae'r ffigwr yma wedi parhau yn gyson uchel dros y ddwy flynedd diwethaf sydd yn adlewyrchu ar yr adborth positif yr ydym yn ei dderbyn gan y bobl ifanc yn dilyn mynychu ein sesiynau. Yr her rwan fydd i barhau i gyrraedd y safonau yma ac ymateb i rai o'r sylwadau yr ydym yn ei dderbyn i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach. I gyfoethogi'r data yma yr ydym yn casglu dyfyniadau, astudiaethau achos ac yn cynnal fforymau llais pobl ifanc i gael y darlun cyfan.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuencid

Mesurydd: Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuencid 16-25 oed

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial



Mae'r ffigwr hwn wedi parhau'n sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, gan adlewyrchu'r galw cyson am y gefnogaeth a ddarperir gennym. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r gostyngiad mewn gwasanaethau tebyg sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc 18–25 oed yn y sir. Disgwylir i'r ffigwr gynyddu ychydig dros y misoedd nesaf wrth i fwy o bobl ifanc sydd heb ymgysylltu ers gadael yr ysgol neu'r coleg ddechrau manteisio ar y ddarpariaeth.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: Nifer o achrediadau mae'r bobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)



Mae nifer yr unigolion sydd wedi cwblhau achrediad yn is yn ystod y cyfnod diweddar, yn unol â'r patrwm blynyddol arferol dros gyfnod gwyliau'r haf pan fo llai o weithgarwch achrededig yn digwydd. Serch hynny, mae'r lefelau'n cyfateb i'r hyn a welwyd yn ystod yr un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol, sy'n dangos cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae'r ffigurwr presennol hefyd yn cynnwys yr achrediadau a gwblhawyd ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd flaenorol, sy'n adlewyrchu'r gwaith parhaus o gefnogi pobl ifanc i gyrraedd cerrig milltir ffurfiol cyn dechrau ar gyfnod newydd o ddarpariaeth yn fis Medi.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid



Yn ystod y cyfnod diweddar, mae nifer yr unigolion sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid yn is nag mewn misoedd arferol. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oedd y clybiau cymunedol, sydd yn cael eu hariannu gan y cyngorau tref yn weithredol o Ebrill tan Fedi. Er hyn, mae'r ffigyrau'n parhau i gyd-fynd â'r patrwm a welwyd mewn blyneddau blaenorol, gan adlewyrchu tuedd sefydlog yn y defnydd. O fis Medi ymlaen, mae'r niferoedd yn dangos cynnydd sylweddol, sy'n adlewyrchu dychweliad pobl ifanc i'r ddarpariaeth gymunedol reolaidd ac yn tynnu sylw at y pwysigrwydd parhaus o gynnal y gweithgarwch hwn fel rhan ganolog o wasanaeth ieuenctid y sir. Mae 360 o bobl ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth.


Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Mesurydd: Nifer o gyfranogwyr pobol ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed



Yn ystod y cyfnod diweddar, mae nifer yr unigolion 11–19 oed sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn is na'r misoedd blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm blynyddol arferol, gan mai cyfnod gwyliau'r haf yw hwn, ac felly mae llai o ddarpariaeth reolaidd ar gael yn yr ysgolion. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau'n parhau i gyd-fynd â thueddiadau a welwyd yn ystod yr un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol, sy'n dangos cysondeb yn y defnydd. Mae'r data hefyd yn cynnwys y cyfranogiad yn y ddarpariaeth Haf o Hwyl a gynigiwyd dros gyfnod y gwyliau, yn ogystal ag adferiad gweithgarwch yn ysgolion Uwchradd o fis Medi ymlaen. Mae hyn yn awgrymu bod y gwasanaeth yn parhau i gyrraedd lefel debyg o bobl ifanc, er gwaethaf y newidiadau tymhorol yn y ddarpariaeth. 730 o bobl ifanc wedi defnyddio'r gwasanaeth.

Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

Hyfforddiant Mandadol

% Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu

35.20%

% Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu

95.30%

% Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig)

49.30%

% Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig)

92.90%

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn cynnwys dros 600 o staff mewn swyddi yn y Gwasanaethau Ategol. Mae nifer o staff y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau **wedi derbyn hyfforddiant diogelu sylfaenol gan yr ysgol.**

O'r swyddogion sy'n weddill sydd heb gwblhau'r hyfforddiant (ac yn eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau), mae'r mwyafrif i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch hirdymor, mamolaeth neu wedi'u gwahardd.

Rydym yn cydweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn gallu cwblhau'r modiwlau hyfforddi mandadol.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Economi a Chymuned
DYDDIAD	11 Rhagfyr 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Graffu Perfformiad Gwasanaethau'r Adran 2025/26
AWDUR	Sioned E Williams
AELOD CABINET	Cyng. R Medwyn Hughes

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

2.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Chwarter 2, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

3. Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

3.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd pedwar prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae'r Adran Economi a Chymuned yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tri o'r prosiectau hyn yn adran Gwynedd Lewyrchus o'r Cynllun, sydd yn anelu i gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng. Ond mae'r cyfrifoldeb i arwain ffrwd gwaith o fewn prosiect 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau' yn rhaglen Gwynedd Ofalgwr wedi trosglwyddo i'r Adran ers dechrau Ionawr 2025.

3.2 O'r wybodaeth, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau hyn dros y misoedd diwethaf. Y prif risg sy'n gyffredin i'r pedwar cynllun yma ydi fod y cronfeydd sydd wedi ariannu'r gwaith ers 2023 yn dod i ben mis Mawrth 2026 ac ansicrwydd am gyllidebau'r Llywodraeth fydd yn dod yn eu lle.

3.3 Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y materion canlynol:

Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy

- 3.4 Mae Cynllun Gweithredu Gwynedd & Eryri 2035 (G&E2035) wedi ei roi ar waith i gefnogi economi ymweld gynaliadwy yn y Sir – hynny ar sail y prif bwyntiau godwyd yn yr Arolwg Trigolion 2024, adborth mynychwyr yr uwchgynhadledd fis Chwefror a thrafodaethau yn strwythurau Partneriaeth G&E2035 ac Ardal Ni. Mae gwelliannau ar waith ar draethau mwyaf poblogaidd Gwynedd ac hefyd i gyfleusterau cyhoeddus yn Eryri trwy arian Croeso Cymru. Mae hyfforddiant i drefnwyr digwyddiadau a busnesau twristiaeth wedi eu cynnal. Mae ymgyrch farchnata ‘Hwyl yn Eryri a Phen Llyn’ trwy arian SPF wedi ei gynnal i hyrwyddo ymweliadau y tu allan i'r prif dymor, rhinweddau arbennig yr ardal, cefnogi busnesau lleol ac i bobl barchu'r ardal a'n cymunedau wrth ymweld.
- 3.5 Bu i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. Cymru ddod i rym fis Medi. Mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda siroedd Conwy a Môn ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ein gweithdrefnau ardrawiad effaith, ymgynghori a phenderfynu yn cydfynd lle'n bosib. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn eich cyfarfod fis Chwefror 2026.
- 3.6 Mae grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd i gefnogi gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau a byw'n iach. Mae gweithgareddau prosiect Diwylliesiant 2 ar waith ac yn cefnogi gweithgareddau Gwasanaethau Diwylliannol y Cyngor, Antur Waunfawr ac Eco-amgueddfa Llyn.
- 3.7 Bu i ni gynnal gweithdy diwylliant yn Neuadd Dwyfor ar 15 Hydref i gyd-ddatblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd i'r dyfodol. Bydd y weledigaeth a'r amcanion yn cael eu mireinio a'u cadarnhau dros y misoedd nesaf ac yn gosod cyfeiriad ac uchelgais i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ymchwil i gyfraniad diwylliant i economi a llesiant cymunedau Gwynedd fydd yn cyfrannu at gynllun gweithredu diwylliant.
- 3.8 Rwy'n hynod falch o weld cynnydd yn ein prosiect Llewyrch o'r Llechi a gyllidir trwy Lywodraeth y DU, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill ar draws y cymunedau llechi. Mae gweithgareddau'r prosiect bellach wedi denu dros £35m o fuddsoddiad i Wynedd. Cynhaliwyd Dathliad Blynnyddol Llechi Cymru ar 23 Hydref yn Neuadd Ogwen, Bethesda lle cafwyd y cyfle i glywed am y gwaith rhagorol sydd ar waith gan y Cyngor a'n partneriaid. Agorwyd adeilad Yr Aelwyd ym Mlaenau Ffestiniog yn yr wythnosau diwethaf, dad-orchuddiwyd celf cyhoeddus yn ein trefi a'n pentrefi llechi, cwblhawyd gwelliannau stryd ac arwyddo ac mae gwaith adeiladu ar ganolfan ymwelwyr newydd Parc Padarn wedi ei gwblhau. Yn ogystal a'r gwaith cyfalaf, mae gweithgareddau pwysig o fewn ein cymunedau a'n hysgolion wedi eu cynnal i godi ymwybyddiaeth o'n treftadaeth ac i ysgogi balchder a hyder ein cymunedau.

Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi

- 3.9 Mae'r prosiect wedi cyflawni holl gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer y chwarter diwethaf, ond mae cryn ymdrech gan y gwasanaethau ar hyn o bryd er mwyn

cwblhau gwariant ar wahanol grantiau a chefnogi partneriaid i oresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni deilliannau a chyflwyno hawliadau llawn.

- 3.10 Dros y misoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau wedi parhau gyda'r gwaith o adolygu a diweddarau'r Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio. Mae pob ardal y wahanol, a'r trefniadau lleol wedi eu teilwrio ar gyfer ardaloedd unigol, a'r Gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth pellach o fewn ardaloedd lle nad oes strwythurau lleol wedi sefydlu.
- 3.11 Yn gynharach eleni, llwyddwyd i sicrhau £800k o Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer Cronfa Allweddol yn ystod cyfnod 2025/6. Yn dilyn proses ymgeisio, mae 33 o brosiectau lleol wedi eu cefnogi drwy'r Gronfa Allweddol (ac wedi eu nodi yn adroddiad perfformiad Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau). Yn ystod y chwarter diwethaf, mae cryn ymdrech wedi bod i gefnogi'r grwpiau / sefydliadau lleol i gwblhau prosiectau o fewn yr amserlen.
- 3.12 Yn yr un modd mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi denu cyfanswm buddsoddiad cronus o £8.9m ar gyfer prosiectau sy'n cyfrannu at hybu ac adfywio canol trefi. Ar hyn y bryd, mae ymdrechion yn canolbwyntio ar weithredu'r prosiectau er mwyn hawlio'r arian grant yn ystod Ch4.
- 3.13 Eleni, fel rhan o Cynllun Adfywio Gwynedd Ni, sefydlwyd Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned fel cynllun peilot a gwahoddwyd cynigion am gyfraniad gan pob un o'r Cynghorau hyn. Gyda chyllideb o £370k, mae grantiau wedi eu cynnig i 55 Cyngor Tref / Cymuned Gwynedd. Mae natur y prosiectau yn amrywio ac yn cynnwys cyfres o furluniau o amgylch terfi/ pentrefi, offer chwarae newydd mewn parciau sydd o dan rheolaeth Cynghorau lleol, dodrefn stryd yn cynnwys, raciau cadw beics, meinciau, paneli gwybodaeth, gwelliannau i ganolfannau cymunedol a chynlluniau tirwedd.
- 3.14 Bydd cyfle i'r Pwyllgor graffu ymhellach ar weithgaredd yr Adran wrth gefnogi adfywio canol trefi gan fod bwriad cyflwyno adroddiad penodol yn y flwyddyn newydd.

Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

- 3.15 Yn y misoedd diwethaf mae ymdrech sylweddol gan yr Adran i gyflawni amcanion cynlluniau blwyddyn ychwanegol ARFOR Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) Llywodraeth Prydain. Mae'r ddwy raglen ariannol yma, sydd yn dod i ben diwedd Mawrth 2026, wedi bod yn allweddol i gefnogi gweithgareddau'r prosiect blaenoriaeth.
- 3.16 Mae pecyn i ddosbarthu dros £900,000 o gymorth ariannol i fusnesau a mentrau cymdeithasol y sir ar waith. Mae dau gylch ymgeisio wedi eu cynnal, ac mae canlyniadau'r ail gylch ar fin cael ei ryddhau. Mae ymdrech fwriadol wedi bod gan yr Adran i annog ymgeiswyr newydd o bob rhan o Wynedd ar gyfer yr arian; cynhaliwyd 14 o sesiynau cymorth i fusnesau, gyda 181 o fentrau yn mynychu.
- 3.17 Mae hefyd cynllun cymorth ar waith i helpu bobl Gwynedd sydd eisoes yn gweithio ennill mwy o gyflog drwy wella eu sgiliau i gael swydd well neu datrys broblem sy'n atal nhw rhag gweithio mwy o oriau. Ers yr haf mae 48 o bobl eisoes wedi elwa o'r cynllun.

- 3.18 Mae'r Adran wedi sicrhau bron i £600,000 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear i gefnogi ein gwaith i ddatblygu'r economi dros y 3 blynedd nesaf ac i ddatblygu cynllun amgen ar gyfer safle Trawsfynydd. Dwi'n falch o adrodd fod cynnydd da ar ddatblygu achos busnes ar gyfer datblygu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd, i warchod, cynnal a chreu swyddi newydd sy'n talu'n dda yng Ngwynedd.
- 3.19 Mae'r gwaith o lunio strategaeth newydd ar gyfer y degawd nesaf i economi Gwynedd hefyd yn mynd rhagddo a dwi'n ddiolchgar am y mewnbwn dderbyniwyd gan y Pwyllgor Craffu a rhanddeiliaid. Mae cael strategaeth yn arbennig o bwysig yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddar gan Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru am ddyfodol arian i ddatblygu'r economi lleol a sefydlu'r [Gronfa Twf Lleol](#); gyda llai o arian ar gyfer detholiad mwy cyfyng o weithgareddau, bydd gallu adnabod ein blaenoriaethau yn allweddol.
- 3.20 Yn olaf, dwi'n falch o gadarnhau fod gwaith adeiladu wedi cychwyn i godi 10 uned gwaith newydd yn Minffordd. Rhagwelir bydd yr unedau yn barod yn hydref 2026.

Prosiect Blaenoriaeth: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

- 3.21 Er bod prif gerrig milltir y prosiect hwn wedi eu cyflawni, rwyf yn awyddus i adolygu ein trefniadau i gefnogi'r hybiau er mwyn creu model fyddai yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol. Byddwn yn trafod cyfleoedd gyda partneriaid dros y flwyddyn nesaf.
- 3.22 Dros y misoedd diwethaf, llwyddodd y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau i sicrhau arian grant o'r Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer cyd-lynu a gweithredu prosiect Gwydnwch Cymunedol gyda darparwyr a phartneriaid yn y 3ydd sector. Dros y misoedd diwethaf mae gryn ymdrech wedi bod mewn sefydlu trefniadau gydweithio a bwrw ymlaen gyda'r rhaglen waith. Mae gwaith adolygu y rhwydwaith o bartneriaid hybiau cymunedol yn mynd rhagddo gan adnabod lle a sut gellir dod a Llyfrgelloedd yn rhan o'r model.

4. Gwaith dydd i ddydd yr Adran

- 4.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn Atodiad 2 ac yn cael ei graffu yn rheolaidd. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i'r materion canlynol:

Gwasanaeth Adnoddau Hamdden – Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon

- 4.2 Mae'r gwaith buddsoddi grant ym Mharc Padarn a Glynllifon yn parhau. Ym Mharc Padarn mae gwelliannau i'r Incleini, Bloc Croeso newydd a gwelliannau i'r maes parcio bellach wedi eu cwblhau; ynghyd â gwelliannau i rwydwaith llwybrau ym Marc Glynllifon. Mae cyfartaledd boddhad cwsmer y Parciau Gwledig yn 88%, ond mae hefyd werth nodi fod gwaith ehangach yn digwydd ym Mharc Padarn ar hyn o bryd, gan gynnwys buddsoddiad Amgueddfa Lechi Cymru sydd ar gau ar hyn o bryd.
- 4.3 Gwelir fod nifer ymweliadau cronus canolfannau hamdden Byw'n Iach hyd at ddiwedd Medi oddeutu 420,984 – sydd tua 40,779 yn is na'r un cyfnod yn 2024/5. Ystyrir fod sefyllfa'r economi a'r cynnydd sylweddol mewn costau byw wedi rhoi

pwysau ychwanegol ar incwm y sector hamdden. Mae nifer o aelwydydd wedi wynebu blaenoriaethu gwariant hanfodol dros wariant ar weithgareddau hamdden.

- 4.4 Mae ffigurau 2025/6 (hyd yma) yn dangos fod cyfartaledd boddhad cwsmer Byw'n lach wedi cynyddu 1% i 84.51% ers llynedd. Serch hynny, mae adborth ynghylch safon cyfleusterau yn sgorio isaf, ac yn ffactor sydd yn effeithio ar brofiad cwsmeriaid ac mae ymdrechion yn parhau i geisio adnabod cyfleoedd i'w gwella.
- 4.5 Dros y misoedd diwethaf llwyddwyd i ddenu grantiau er mwyn gwneud gwelliannau i ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Dwyfor, gwelliannau i Ganolfan Tennis Arfon, adnewyddi cae 3G Tywyn, a gwelliannau wedi eu cwblhau ar gyfer caeau 3G yn Nolgellau a Porthmadog; ynghyd a gwelliannau trin dwr yn Nghanolfannau Bala ac Arfon.
- 4.6 Fel adroddwyd yn gynharach eleni, rwy'n parhau i fod yn bryderus fod nifer disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yn ein canolfannau yn parhau i ostwng. Yn Dilyn trafodaethau gyda Byw'n lach a'r Adran Addysg, llythyrwyd gyda chyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt roi ystyriaeth bellach i'r risgiau a'r anghyfartaledd ar draws y sir. Mae Byw'n lach hefyd yn ystyried datblygu pecynnau penodol ar gyfer ysgolion fyddai o bosib yn gwneud ymweliadau i'r canolfannau hamdden yn fwy atyniadol a chynnig gwerth am arian pellach.

Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon.

- 4.7 Fe nodwch o'r Atodiad fod 68% o ymatebwyr arolwg boddhad cwsmer traethau o'r farn fod eu profiad yn 'dda iawn' neu 'dda'. Mae'r adborth dderbynnir o'r arolygon yma yn ddefnyddiol iawn i alluogi'r gwasanaeth ymateb gyda Adrannau eraill o'r Cyngor.
- 4.8 Cynyddodd nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 9% yn ein harbyrau yn 2025/26 o'i gymharu a llynedd, sef cynnydd o 250 i 273 (dim yn cynnwys Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon). Fe nodwch hefyd fod angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod 97% yn llawn yn 2025/26, gyda 86% o'r angorfeydd yn yr harbwr allanol yn llawn dros yr un cyfnod.
- 4.9 Mae pryderon yn parhau ynghylch lefelau siltio yn harbwr Pwllheli. Dros y misoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth (gyda chefnogaeth technegol YGC) wedi symud ymlaen gyda gwaith rhagbaratoi a thechnegol pellach wedi ei wneud fel rhan o strategaeth garthu. Yn gymharol ddiweddar, gwelwyd gwyntoedd cryfion (storm Amy) yn creu difrod yn ein harbyrau, ac rwyf yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith arbennig yn delio gyda'r sefyllfa.

Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Celfyddydau a Llyfrgelloedd

- 4.10 Fe nodwch fod 93% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Archifau yn 'fodlon iawn' gyda'r gwasanaeth (cynnydd o 2%), 5% yn fodlon, 2% yn anfodlon. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, ond o'r rheiny nad oedd yn fodlon

derbyniwyd sylwadau am yr oriau agor. Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Gwladol yn sgil toriadau nôl yn 2016. Sicrhaodd y Gwasanaeth grant £141,000 gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn Archifdy Caernarfon ac Archifdy Dolgellau. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2026 a bydd yn gwella cadwraeth ynni'r adeiladau a'r profiad a'r awyrgylch i ddefnyddwyr yn yr ystafelloedd ymchwil.

- 4.11 Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau Cymunedol wedi parhau i gefnogi gweithgareddau celfyddydau a llesiant ar draws Gwynedd gyda 99% o fynychwyr y sesiynau yn credu eu bod wedi cael budd o'r weithgaredd. Mae 'Stiwdio Lles', sef prosiect gan Fran Wen gyda Phrifysgol Bangor yn cynnig sesiynau celf ar brescripsiwn i bobl ifanc. Nododd un mynychwr *"Rhaid iddo gario mlaen, mae'r celfyddydau yn gwneud gymaint o wahaniaeth i iechyd a lles bobl."*
- 4.12 Trwy arian SPF mae gweithgareddau ymgysylltu a digwyddiadau Storiol wedi parhau i fod yn boblogaidd. Penodwyd cwmni i redeg caffi Storiol a gobeithio y bydd yn agor ar ei newydd wedd yn y flwyddyn newydd. Cynhaliwyd sesiwn gyhoeddus i ymgynghori ar ofodau allanol Storiol a'r cyswllt gyda Pontio. Sicrhawyd cyllid i Amgueddfa Lloyd George a Storiol i lunio Cynlluniau Datblygu Cynulleidfa er mwyn cynyddu niferoedd yr ymwelwyr i'r ddau leoliad.

Gwasanaethau Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau

- 4.13 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar arian grant ac mae pob pecyn cymorth ddarperir i bartneriaid, cymunedau a mentrau yn cael eu monitro a gwerthuso yn unol â thelerau'r arianwyr.

5. Adroddiadau Archwilwyr Allanol (os yn berthnasol)

- 5.1 Derbyniwyd Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd gan Is-Adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch o nodi bod y Gwasanaeth yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd. Nodir: *'Bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi Llyfrgelloedd Gwynedd, ac mae ganddynt feddwl mawr ohonynt. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd gan gynnwys e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir. At hynny, mae Gwynedd yn arwain ar weithredu prosiect LMS Cymru. (...)*
- 5.2 Yr agwedd ar yr adroddiad eleni sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r gostyngiad yng nghyfanswm y staff a chyfanswm y staff cymwysiedig fel ei gilydd. Er ei bod yn gadarnhaol bod aelodau staff yn cael eu cefnogi drwy Siarteriaeth CILIP, a fydd yn effeithio, gobeithio, ar niferoedd y staff cymwysedig yn y dyfodol, mae'r gostyngiad parhaus yn y niferoedd staffio yn debygol o gael effaith ar allu'r gwasanaeth i barhau i fodloni anghenion cwsmeriaid l'r un lefel uchel a ddarparwyd ganddo yn y gorffennol".

- 5.3 Mae'r Gwasanaeth wedi wynebu newidiadau i'r strwythur staffio – yn benodol oherwydd yr angen i wneud arbedion a thoriadau yn sgil yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ond trwy gefnogi hyfforddiant, rydym yn ceisio rheoli'r feirniadaeth yma. Hoffwn gyfleu fy niolchiadau i staff y Gwasanaeth Llyfrgelloedd am eu gwaith a'u llongyfarch ar ganlyniadau'r adroddiad asesu.

6. Ymgynghori

- 6.1 Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran 10 Tachwedd 2025, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi’r garreg filltir wedi’i chwblhau / yn debygol o’i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Economi a Chymuned	Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	1 Byddwn wedi gweithredu rhaglen waith Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035 ac wedi targedu adnoddau i hyrwyddo’r amcanion newydd. 2 Byddwn wedi ystyried deddfwriaeth cenedlaethol ar yr Ardoll Ymwelwyr ac wedi ymgynghori drwy Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 (G&E2035). 3 Byddwn wedi hyrwyddo a monitro defnydd 4 Aros-fan ar draws Gwynedd ac wedi gwerthuso’r cynllun peilot	1. Cynllun gwaith yn ei le a chronfeydd megis SPF 2 a Chronfa Pethau Bychain, Croeso Cymru wedi i’w targedu o ran adnoddau i weithredu’r amcanion. 2. Trafodaethau wedi eu cynnal yn y Tîm Arweinyddiaeth fis Medi 2025. Trafodaethau wedi’ cynnal gyda Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â Awdurdodau Lleol eraill. Adroddiad i’w gyflwyno i’r Cyngor Llawn Mawrth 2026 i gymeradwyo proses ymgynghori ffurfiol. 3. Ers Mehefin 2024, 3,518 o archebion parcio dros nos wedi eu llogi yn safleoedd Arosfan (1,256 Criccieth / Pwllheli / Caernarfon a 2,262 Llanberis). Achos gorfodaeth wedi cael i ddwyn yn erbyn 96 cerbyd oedd wedi parcio mewn mannau an-swyddogol.	1. Ydi 2. Ydi 3. Ydi

		4 Byddwn wedi cefnogi cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwylliesiant 2'. 5 Byddwn yn monitro ac yn gweithredu cynlluniau newydd i ddarparu gwasanaethau yn Storiell, Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Dwyfor, a chydweithio gyda phartneriaid yn y sector ddiwylliannol i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol.	Trafodaethau wedi cychwyn o ran datblygu gofod Arosfan pellach yn Nhywyn. Adroddiad gwerthuso yn cael i'w ddarparu i gyflwyno i'r cabinet yn ystod 2026 4. Grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd er mwyn cefnogi gweithgareddau diwylliannol a byw'n iach. Gweithgareddau prosiect Diwylliesiant 2 ar waith gyda Gwasanaethau diwylliannol, Cwmni Byw'n Iach yn ogystal â Antur Waunfawr ac Eco-Amgueddfa Llyn. Peilot Eco-Amgueddfa ar waith ym Mangor a Blaenau Ffestiniog. 5. Gwelliannau Amgueddfa Lloyd George wedi eu cwblhau a'r amgueddfa wedi ail-agor. Adolygiad o'r gofodau a chomisiwn datblygu cynulleidfa ar waith. Gwelliannau allanol i Storiell ar waith ac ail arddangosfa Celf (Yr Oriel Gelf Gyfoes) wedi ei chynnal. Cynllun Datblygu Cynulleidfa wedi ei gwblhau. Trefniadau cofrestru cwmni elusennol i gefnogi Storiell ar waith. Gwelliannau Neuadd Dwyfor yn dwyn-ffrwyth gyda nifer ymwelwyr	4. Ydi 5. Ydi
--	--	---	---	-----------------------------

		6 Byddwn wedi cefnogi cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y diwydiant llechi gan sicrhau arian Loteri Treftadaeth i brosiectau LleCHI LleNI, ac arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Ffyniant Bro, yn cynnwys gwaith: 1. Ogwen – contractwyr ar safle Yr Hen Bost, cwblhau uwchraddio'r llwybr cysylltiol i Chwarel Penrhyn, agoriad swyddogol Neuadd Ogwen 2. Dinorwig – contractwyr ar safle Yr Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn 3. Blaenau Ffestiniog – agor yn swyddogol, y llwybr cysylltiol, agoriad swyddogol Aelwyd yr Urdd, contractwyr ar safle Church St 4. Celf Cyhoeddus – agoriad swyddogol wedi'i wneud mewn 6 tref 5. Gwelliannau Canol Tref – cynlluniau wedi'u cwblhau mewn 6 tref	ac enwebiad fel Sinema Gorau'r Flwyddyn BIFA. Cyfarfod sector diwylliant wedi ei gynnal 15 Hydref i drafod gweledigaeth ac amcanion. 6. Prosiectau sylweddol ar waith ar draws y tirlun llechi. Adroddiad perfformiad y chwarter diwethaf i'w weld yma. Prosiect Llewyrch o'r Llechi (a gyllidir trwy arian Llywodraeth y DU) wedi derbyn ymestyniad i gwblhau'r gwaith. Pob elfen o'r rhaglen bellach ar waith. Amgueddfa Lechi Cymru wedi llwyddo i ddenu arian cyfatebol sylweddol trwy Gronfa'r Loteri Treftadaeth a Llywodraeth Cymru i gwblhau eu pecyn ariannol. Celf cyhoeddus trawiadol wedi ei osod mewn 4 o 6 lleoliad. Gwelliannau canol tref ar waith. Gweithgareddau hynod boblogaidd yn cael eu cynnal trwy LleCHI LleNI o fewn ein cymunedau ac ysgolion. Gweithdy thematig dehongli wedi ei gynnal gyda yn agos at 50 o fynychwyr er mwyn datblygu dehongli ar draws y Safle Treftadaeth Byd.	6. Ydi
--	--	---	--	---------------

		6. Arwyddo a dehongli – wedi ei osod mewn 6 tref 7. Cadwraeth – nifer o strwythurau hanesyddol wedi derbyn buddsoddiad 8. Ymgysylltu, addysgu a digwyddiadau – drwy’r prosiect LleChi LleNi byddwn wedi cyrraedd allbynnau’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2 9. Llywodraethu: Byddwn wedi adolygu’r Cynllun Rheoli yn ystod 2025 a datblygu’r Cynllun Dehongli a Rheoli Ymwelwyr newydd	Yn y 12 mis diwethaf mae LleCHI LleNI wedi cefnogi: • 68 digwyddiad • 3,100 o bobl wedi mynychu yn cynnwys 1,938 o blant Gwaith adolygu’r Cynllun Rheoli ar waith a threfniadau adolygu wedi eu cytuno yn y Bwrdd Partneriaeth.	
Economi a Chymuned	Adfywio cymunedau a chanol trefi	1 Byddwn wedi adolygu a diweddaru’r Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o’r 13 ardal adfywio lleol; gan gynnwys trefniadau lleol i’w cyd-lynu 2 Bydd Grŵp Traws-Adrannol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio rhwng y cynlluniau adfywio lleol a phrosiectau strategol y Cyngor 3 Byddwn wedi cefnogi a galluogi partneriaid i weithredu pecyn o brosiectau adfywio ar	1. Mae’r Cynlluniau Adfywio Lleol yn cael ei diweddaru yn rheolaidd. Cyflwynwyd adroddiadau i’r Fforymau Ardal yn ystod Gwanwyn 2025. 2. Mae grŵp traws adrannol wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Canol Trefi Gwynedd Ni 2025/6; a chynllun SPF Gwydnwch Cymunedol yn cefnogi hybiau ym mhob ardal leol. Mae bwriad o adolygu trefniadau traws-adrannol ehangach drwy’r Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol 3. Llwyddwyd i sicrhau £800k arian Cronfa Ffyniant Cyffredin	1. Ydi 2. Ydi 3. Ydi

		draws cymunedau Gwynedd drwy weinyddu Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau (gydag arian SPF) yn ystod cyfnod 2025/26 4 Byddwn wedi datblygu pecyn o gynigion buddsoddi er mwyn uwchraddio canol trefi a phentrefi'r Sir fel rhan o Gynllun Adfywio Gwynedd Ni yn ystod 2025/26, gan dargedu grant Cronfa Ffyniant Cyffredin 5 Byddwn yn denu buddsoddiad ychwanegol i adfywio canol trefi Gwynedd drwy dargedu Rhaglen Trawsnewid Llywodraeth Cymru 6 Byddwn wedi dod a mwy o adeiladau gwag i ddefnydd drwy'r Rhaglen Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd	ar gyfer Cronfa Allweddol. Mae'r gronfa wedi ei dyrannu ac mae'r prosiectau lleol yn cael eu gweithredu a'u cwblhau yn ystod 2025/6. 4. Llwyddwyd i sicrhau £1.3m arian Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer pecyn gweithgaredd llefydd llewyrchus. Mae'r prosiectau yn cael eu gweithredu a'u cwblhau yn ystod 2025/6. 5. Mae grant Trawsnewid Trefi wedi ei sicrhau ar gyfer prosiectau Canolfan Porthmadog, Gob Crwn, a Llety Arall. Mae arian rhagbaratoi wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun Camp Rhufeinig Bangor, a Cei Llechi. 6. Mae rhaglen Eiddo gwag yn weithredol; a sicrhawyd £995k ar gyfer peilot eiddo gwag Stryd Fawr Bangor sydd bellach yn weithredol	4. Ydi 5. Ydi 6. Ydi
Economi a Chymuned	Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a	1. Byddwn wedi darparu rhaglen o gymorth i gefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol yn ystod 2025/26 gan ddefnyddio arian o flwyddyn ychwanegol y Gronfa Ffyniant Gyffredin.	1. Dros £900,000 o gymorth ariannol ar gael i fusnesau a mentrau cymdeithasol Gwynedd yn 2025/26.	1. YDI

	mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	2. Byddwn wedi rheoli blwyddyn pontio'r rhaglen ARFOR yng Ngwynedd a'r rhanbarth	181 o fusnesau wedi mynychu sesiynau cyngor ar llunio cais am gymorth. 202 o geisiadau wedi eu derbyn ar draws dau gylch ymgeisio yn gofyn am £1.9M o gymorth (208% o'r cyllideb). 45 busnes wedi derbyn cynnig o gymorth yn dilyn y cylch ymgeisio gyntaf. Asesu ceisiadau'r ail gylch yn parhau. 2. £500,000 o arian gan Llywodraeth Cymru wedi ei sicrhau ar gyfer blwyddyn bontio. Cyngor Gwynedd yn parhau i reoli'r rhaglen yn lleol ac ar ran y rhanbarth Cytundeb gan y 4 sir a Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio gweithgareddau 2025/26 ar argymhellion gwerthusiadau annibynnol ARFOR 1 a 2; gweithredu nifer bychain o ymyraethau allweddol (yn debygol o gynnwys themâu ar ieuenctid a mudo); trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd i waith prif ffrwd ac ystyried canfyddiadau ac	2. YDI
--	---	---	--	---------------

			argymhellion adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac ymateb y Llywodraeth.	
		3. Byddwn wedi cynnal rhaglen i ddathlu a hyrwyddo llwyddiant busnesau a mentrau Gwynedd yn cynnwys cynnal wythnos o weithgaredd yn ystod tymor yr Hydref	3. Wythnos Busnes 2025 wedi ei gynnal mis Hydref. Cynhaliwyd saith o ddigwyddiadau gan y Cyngor a'n partneriaid ymhob rhan o Wynedd. Dros 5,000 yn gweld gwybodaeth am yr wythnos drwy law ein cyfryngau cymdeithasol . Yn ogystal â'r Wythnos mae ein rhaglen o ymweliadau i fusnesu yn parhau ac rydym yn parhau i rannu newyddion am lwyddiannau lleol drwy'r bwletin busnes a'n cyfrifon cymdeithasol.	3. YDI
		4. Byddwn wedi sicrhau cyngor i fusnesau a mentrau Gwynedd sy'n ymateb i'w pryderon	4. Mae ein rhaglen o sesiynau galwch heibio i fusnesau a mentrau yn un parhaus ac yn ddull pwysig o gasglu adborth am anghenion lleol. Gan ddefnyddio adborth busnesau unigol a canlyniadau Arolwg Busnes 2024 rydym wedi darparu cyngor a hyfforddiant sy'n ymateb i'w pryderon o dan y faner 'Gwrandao a	4. YDI

		• Menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi ei sefydlu a'r broses caffael wedi cychwyn i wireddu cynllun Parc Bryn Cegin. • Rhan gyntaf Hwb Economi Gwledig Glynllifon wedi cael ei gymeradwyo i sefydlu canolfan ar gyfer datblygu marchnad llaeth defaid Cymru. • Academi Croeso Cymru wedi cael ei lansio i gefnogi busnesau yn y sector hamdden ac arlwyo. • Manylion Cynllun Twristiaeth Antur Gyfrifol yn parhau i gael ei ddatblygu. • Achos busnes ar gyfer sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd yn gwneud cynnydd da.	
	7. Byddwn wedi cytuno ar Strategaeth Economaidd newydd i Wynedd ar gyfer cyfnod 2025-28 ac wedi paratoi ceisiadau am adnoddau i weithredu ei blaenoriaethau	7. Strategaeth drafft wedi bod gerbron Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16 Hydref i dderbyn eu hadborth	7. YDI

	8. Byddwn wedi darparu cymorth i drigolion Gwynedd ddychwelyd i waith ac i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da	Strategaeth yna wedi ei rhaeadru i bartneriaid allweddol o fewn y sir i mewnbwn pellach i'r drafft. Addasiadau pellach i'r dogfen yn cael eu cwblhau cyn ei ddylunio gyda'r bwriad o'i fabwysiadu yn y flwyddyn newydd. 8. Cyflawni'r rhaglen Cymunedau i Waith a Mwy (arian Llywodraeth Cymru) yn parhau. Perfformiad 2025/26 ar y blaen hyd yma gyda 145 eisoes wedi sicrhau gwaith yn dilyn ein help. Gwaith i helpu bobl lleol ennill gwell cyflog wedi ail-gychwyn (arian SPF) ac 48 wedi derbyn help i wella eu sgiliau neu goresgyn rhwystr oedd yn e hatal rhag gweithio mwy. Yn parhau i weithio gyda siroedd eraill y Gogledd i gynllunio i roi'r rhaglen Cysylltu â Gwaith (arian DWP) ar waith yn y rhanbarth.	8. YDI
--	---	---	---------------

Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr AIL flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Trawsadrannol	Cefnogi Llesiant Pobl	1. Sefydlu 2 Hwb Cefnogi Pobl mewn 2 ardal newydd. 2. Trefnu hyfforddiant i weithwyr a gwirfoddolwyr yr Hybiau ar gefnogi unigolion. 3. Penodi swyddi Hyrwyddwyr Lles a cynnal digwyddiadau costau byw, sesiynau galw heibio amrywiol. 4. Cydweithio gyda partner gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion. 5. Cwblhau'r Prosiect Cynhwysiad Digidol i roi help ymarferol i ddysgu pobl i fynd ar-lein a dosbarthu cyfarpar TG. 6. Cynnal Cynllun Bwyd i gynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol; cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol.	1. Trafodaethau wedi ei gynnal yn Bro Peris (Menter Fachwen); a Porthmadog. 2. Hyfforddiant Lles Cymru wedi ei comisiynu. 3. Mae swyddi Hyrwyddwyr Lles wedi eu penodi 4. Mae cydweithio agos gyda CAB er mwyn cynghori a darparu gwasanaeth allgymorth yn yr hybiau. 5. Mae cydweithio agos gyda Ability Net i gynnig mentora a cefnogaeth i unigolion gyda systemau digidol. 6. Cronfa Gyfalaf a Refeniw wedi ei sefydlu er mwyn cefnogi prosiectau bwydo yn y cymunedau.	Yn rhannol Ydi Ydi Ydi Ydi Ydi



 gwynedd.llyw.cymru

 [CyngorGwyneddCouncil](https://www.facebook.com/CyngorGwyneddCouncil)

 [CyngorGwynedd](https://twitter.com/CyngorGwynedd)

 [cyngorgwyneddcouncil](https://www.instagram.com/cyngorgwyneddcouncil)

Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned

2025/26

Gwasanaeth Hamdden a
Pharciau Gweledig

Lefel boddhad defnyddwyr
Parciau Gwledig

88%

Gwasanaeth Hamdden a
Pharciau Gweledig

Lefel boddhad cwsmer
Canolfannau Hamdden

83.51%

Gwasanaeth Hamdden a
Pharciau Gweledig

Cyfanswm nifer ymweliadau i'r
Canolfannau Hamdden
(Cronnus)

420,984

Gwasanaeth Morwrol

Rheoli a Gwasanaethu yn unol
a gofynion Asiantaeth Gwylwyr
y Glannau a Chôd Diogelwch
Morol

100%

Gwasanaeth Morwrol
Cytundebau Angorfeydd
harbyrau Porthmadog,
Abermaw ac Aberdyfi

273

(cynnydd o 9% ar 2024)

Gwasanaeth Morwrol

BODDHAD CWSMER

Traethau - 68%
Harbyrau - 100%

Gwasanaeth Hafan a
Harbwr Pwllheli

Canran angorfeydd blynyddol
yn Hafan Pwllheli a Doc
Fictoria

96% Hafan
100% Doc Fictoria

Gwasanaeth Hafan a
Harbwr Pwllheli

Canran boddhad cwsmer yn
Hafan Pwllheli

91%
(i fyny o 89%)

Gwasanaeth Hafan a
Harbwr Pwllheli

Bodlonrwydd cwsmer Doc
Fictoria

69%
(i fyny o 66%)

Gwasanaeth Archifau

Bodlonrwydd cwsmer
Gwasanaeth Archifau

93%

Gwasanaeth Amgueddfeydd
a'r Celfyddydau

Cyfanswm sy'n ymweld ac
ymgysylltu'n ddigidol â'r
amgueddfeydd a'r orielau

482,726

Gwasanaeth Amgueddfeydd
a'r Celfyddydau

% boddhad cwsmer
Gwasanaeth Amgueddfeydd
ac Orielau

95%

Gwasanaeth Amgueddfeydd
a'r Celfyddydau

Canran o gyfranogwyr yn cael
budd drwy brosiect
Celfyddydau Cymunedol

99%

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Nifer benthyciadau o'r
Llyfrgelloedd 2024/25

423,633

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Bodlonrwydd Cwsmer
Llyfrgelloedd 2024/25

99%

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Bodlonrwydd cwsmer Neuadd
Dwyfor

95%

Gwerthiant Tocynnau ac
Incwm Neuadd Dwyfor

Gwerthwyd 20,341 o
docynnau 2024/25
£143,679.38 o Incwm o
werthiant tocynnau a Bwyd a
Diod 2024/25

Gwasanaeth Twristiaeth,
Marchnata a Digwyddiadau

% o drigolion Gwynedd
a holwyd yn dweud bod
twristiaeth yn eu hardal
yn cael canlyniad
cadarnhaol
**Arolwg yn fyw diwedd
Hydref 2025**

Gwasanaeth Twristiaeth,
Marchnata a Digwyddiadau

% cynnydd o waelodin
2024/5 mewn busnesau a
mentrau yn llwyddo i
dderbyn Addewid Busnes
Gwynedd ac Eryri 35

288%

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi ymrwymo i
dalw cyflog byw gwirioneddol
i'w gweithwyr ac i ddefnyddio
mwy o Gymraeg (cronnus hyd
at diwedd Medi 2025)

0

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi Ymgysylltu'n
fisol
(Cyfartaledd 2025/26)

4,373

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi eu cefnogi i
arbed arian a/neu cynyddu
eu incwm (cronnus hyd at
diwedd Medi 2025)

79

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi eu cefnogi i waith
(cronnus hyd at diwedd
Mehefin 2025)

66

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi cynyddu eu gallu i
ennill cyflog da (cronnus hyd
at diwedd Mehefin 2025)

14

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Buddsoddiad Mewn
Rhaglenni
Adfywio Canol Trefi

£3,398,526

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Nifer Unedau Masnachol sydd
wedi dod yn ôl i ddefnydd

Cefnogaeth wedi arwain at 4
eiddo mewn canol tref i ddod
yn ôl i ddefnydd a gwella
delwedd 6

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Nifer Grwpiau Lleol sydd yn
derbyn cyngor neu
cefnogaeth

104

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Nifer o brosiectau cymunedol
sydd yn derbyn cymorth l'w
datblygu

105

Adran Economi a Chymuned

Canran o staff yr adran sydd
wedi cwblhau Hyfforddiant
Mandadol

Diogelu – 87.1%
VAWDASV – 90.3%


Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyl:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau


Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:



Positif	Gwelliannau
- This was somewhere I'd never heard of, and that surprised me, as it's a great park. - The activities set up in the courtyard were fab for all ages (bean bags in buckets, frisbees through holes, knocking tins down, eggs in the tube etc) and everyone in our group from 8 to 80 enjoyed these.	- There could be better signage inside the park - Toilets were disgusting, paper and discarded sanitary items on the floor, no toilet paper in any of the stalls and no soap in any of the dispensers. - Nice gardens. Only one craft shop open. Let down by overpriced cafe. £9.99 for ham sandwich? - Streams are clogged up and water features abandoned or poorly preserved. Many plants who have signs attached are either dead or cut down ! The natural forests are lovely but the areas that require human consideration have been given none.

- Toiledau – Sgor boddhad cwsmer wedi disgyn yn ystod mis Awst yn bennaf oherwydd fod y toiledau wedi bod mewn cyflwr gwael dros un penwythnos. Darganfyddwyd fod y contractwr glanhau heb fod yn ymweld. Mae'r gytundeb gyda'r contractwr wedi dod i ben a trefniadau mewnol yn ei le i osgoi unrhyw achosion tebyg i'r dyfodol.
- Grantiau – Er bu i'r Parc gyflwyno cais EOI llwyddiannus i'r Loteri am £2.3m i adnewyddu'r caffi a gwelliannau eraill, ni fu'r cais datblygu yn llwyddiannus. Yn dilyn adborth gan y Loteri fe ddaeth i'r amlwg mai un o'r prif resymau dros wrthod oedd bod dim digon o arian cyfatebol wedi ei gynnig (amser staff y Cyngor oedd yr unig arian gyfatebol nodwyd ar y pryd). Pe byddai'r cais yn cael ei ail gyflwyno gyda mwy o arian cyfatebol ar gael yna fe fyddai'r cais gyda mwy o siawns o lwyddo. Gyda'r arian grant fe fyddai modd gwneud gwelliannau i rhai o'r nodweddion sydd wedi eu nodi yn y gwyn uchod.
- Diswyddiadau – Ar gyfer yr Haf mi osodwyd gemau Ffair Hwyl yn iard y crefftwy. Mi oedd incwm mis Awst 104% yn uwch na incwm Awst 2024.
- Gostyngiad ffi mynediad – Mae hysbyseb ar gefn pob tocyn parcio Parc Padarn bellach yn cynnig gostyngiad 10% i ffwrdd odd ar unrhyw docyn diwrnod Parc Glynllifon os yn ymweld o fewn 7 diwrnod. Oddeutu 60,000 o docynnau parcio y flwyddyn yn cael eu gwerthu. Gobeithio felly y gwelwn gynnydd unwaith eto yn nifer ymwelwyr y Parc dros y flwyddyn nesaf.



Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau



Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:

Positif	Gwelliannau
Beautiful place for a walk - wheelchair accessible	Very disappointed to arrive at 4:20pm and find the doors already shut.. For a tourist destination I find this very poor.

- Gwelliannau – Amgueddfa Llechi sydd bellach yn agor yr Ysbyty Chwarel a felly sy'n pederfynu'r oriau agor. Er fod cwyn uchod am oriau agor, mae'r Ysbyty yn agored fwy o ddyddiau ac oriau na be fu'r Parc yn ei gynnig yn flaenorol.
- Grantiau – Toiledau Cyhoeddus yn y bloc Croeso newydd wedi agor i'r cyhoedd a hen doiledau wedi eu dymchwel. Paratoi i fynd allan i dendr ar gyfer y stafell ddehongli. Mi fydd contractwyr yn symud mlaen i orffen gwaith i'r ardal parcio bws chwarter nesaf. Tindr ar gyfer y Fire Queen a Hafod Owen wedi ei ail yrru ar ol derbyn dim ymatebion i'r tendr cyntaf.
- Peiriannau gwefru Y Glyn – Ar ôl disgwyl oddeutu dwy flynedd, mae Scottish Power bellach wedi gosod cysylltiad trydanol. Mi fydd adran Amgylchedd yn gosod peiriannau newydd yno yn fuan.
- Gilfach Ddu – Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cymryd rhan sylweddol o faes parcio Gilfach Ddu ar gyfer y cynllun ail geblu ac mae'r Amgueddfa Llechi wedi cau. Er hynny, dim ond 20% lawr mae incwm parcio'r Parc ar gyfer hanner cyntaf o'r flwyddyn ariannol. Yn anffodus, mis Medi fe fu rhai'r i'r Grid Cenedlaethol gau'r trac rheilffordd ar hyd glannau'r Llyn. Bosib fydd hynny yn golygu gall y golled incwm parcio waethygu yn ystod yr ail hanner o'r flwyddyn a pharhau yn ystod 2026/27 hyd nes bydd y Grid Cenedlaethol wedi gadael.
- Fandaliaeth – Wedi'r holl ymdrech i atgywrio'r tai rowlio ar Inclen A, mae rhai wedi bod yn ei fandleiddio yn barod. Mae'r achos weid ei adrodd i'r heddlu a Cadw.

Tud. 212



Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw’n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd


Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Byw'n Iach

Trosolwg o berfformiad:

Roedd ffigurau boddhad cwsmer interim 2025/26 wedi cynyddu 1% o 83.51% i 84.51% gyda pob maes wedi gwella, ar wahân i Cyfathrebu sydd wedi aros yr un fath. Mi fu 935 o sylwadau

Unwaith eto, Staff (93.2%) sy'n perfformio orau gyda Ystafell Ffitrwydd (78.37%) a Cyfleusterau'n (79.69%) sgorio isaf.

Mae'r cynnydd mwyaf i'w weld yn Gwerth am Arian a Profiad Cyffredinol sydd wedi cynyddu dros 2.5%.



Positif	Gwelliannau
Dwyfor - Staff are amazing. Special mention to Will and all the work and research he puts in to his 9.15am classes to make them beneficial to the age group of the women who attend Glaslyn - Staff are all lovely. Very impressed. Penllyn - Excellent staff who are willing to go the extra mile. Have nothing but praise for them all. Plas Ffrnacon - Staff are really helpful and friendly.	Dwyfor - Hoffwn weld dipyn bach mwy o adnoddau codi pwysau yn cynnwys mwy o le o'i cwmpas. Braidd yn gyfyng hefo tri person yn defnyddio yr ardal ar yr un pryd. Arfon - Extension of weight room needed. During peak time it's getting too overcrowded, machines crammed together, multiple people waiting for machines. Not enough space to use the sledge. Arfon - Update the gym equipment e.g treadmills, weight machines Plas Ffrnacon - Erbyn hyn, hyd yn oed efo consesiwn mae aelodaeth yn ddrud iawn i gymharu efo sefydleoedd mwy newydd. Ond, mae’r staff yn wych a mae’r lleoliad yn hwylus. Bro Dysynni - New aqua dumbells are needed. Some of the old ones keep falling apart which is why more and more customers are buying their own. Glaslyn - Make the gym bigger with more equipment

Ar gyfer y flwyddyn yma, mae mwy o grantiau wedi eu sicrhau er mwyn gwneud gwelliannau i ystafelloedd ffitrwydd Dwyfor ac Arfon. Mae grant hefyd wedi ei gadarnhau i ail wynebu y cae 3G Tywyn. Gobeithir felly fydd sgôr Cyfleusterau a Ystafell Ffitrwydd yn gweld cynnydd wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw’n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm Nifer Ymweliadau Byw'n Iach

Trosolwg o berfformiad:



- Mae ymweliadau cronnus y canolfannau hyd at diwedd Medi 40,779 yn is na ru'n cyfnod yn 2024/25.
- Mae gwaith pellach yn cael ei wneud er mwyn dadansoddi oblygiadau lleihad mewn nifer ar lefelau incwm. Yn ystod y chwarter diwethaf:
 - Debyd Uniongyrchol – cynnydd graddol misol yn niferoedd debyd uniongyrchol ffitrwydd wedi sefydlogi. Mae nifer defnyddwyr debyd uniongyrchol Nofio, Gymnasteg ac Arall, wedi lleihau yn raddol ers Ebrill 2024 yn awgrymu bod y dal fyny ar ôl COVID bellach wedi ei gwblhau. Mae ymdrechion yn parhau i gynyddu niferoedd sy'n nofio drwy gynigion newydd ar gyfer plant sydd yn cwblhau’r rhaglen “tonnau”, sesiynau ychwanegol ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol a thwf yn y rhaglen gymnasteg.
 - Sesiynau/defnydd achlysurol, defnydd Ysgolion/clybiau ac incwm defnyddwyr eraill. Mae’n ymddangos bod symudiad wedi digwydd oddi wrth ddefnydd achlysurol tuag at dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Pryderon am effaith sefyllfa ariannol ysgolion yn parhau. Mae nifer o ysgolion yn adrodd fod costau trafnidiaeth yn rhwysr i ymweld â’r canolfannau’n rheolaidd, a mae trafodaethau yn parhau gyda’r Adran Addysg i weld beth ellir ei wneud i gynorthwyo’r sefyllfa.
- Grantiau – 2 gais wedi ei gyflwyno i Chwaraeon Cymru. Un cais i archebu offer ffitrwydd newydd ar gyfer Canolfan Dwyfor am £100,000 a'r llall i adnewyddu cae 3G Tywyn am £300,000. Wedi derbyn cadarnhad fod y ddau gais wedi llwyddo. Wedi apwyntio ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda'r broses tendro ar gyfer 3G Tywyn a pecyn tendr yn cael ei hysbysebu ar gyfer ail ffordd gofod ffitrwydd Dwyfor

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm cwsmeriaid angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Yn dilyn gwyntoedd cryfion diweddar (storm Amy), cafwyd rhywfaint o ddifrod yn ein harbyrau. Yn harbwr Abermaw, torrodd cwch yn rhydd o'i angorfa, a golchwyd un o'r cymhorthion mordwyo ar draeth cyfagos. Yn ogystal, suddodd cwch ar ei hangorfa yn harbwr Porthmadog. Fe ymatebodd ein swyddogion ar fyr rybudd i adfer y bwi a'r cychod i atal difrod pellach.

Fel rhan o'n matrices hyfforddi, anogir staff y gwasanaeth i barhau â'u datblygiad personol. Yn ddiweddar iawn, cwblhaodd un o'n haelodau staff 'Ddiploma Harbwrfeistr', a ariannwyd yn llawn gan y Cyngor.

Yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan awdurdod Tŷ'r Drinod ddechrau mis Hydref, derbyniwyd cadarnhad fod 96% o'n cymhorthion mordwyo mewn cyflwr derbyniol.

Mae cyfanswm cwsmeriaid gyda chytundeb angorfa yn ein harbyrau ar gyfer 2025 wedi cynyddu 9% o'i gymharu â 2024, sef cynnydd o 250 i 273. Mae'r buddsoddiad a waned dros y blynnyddoedd diwethaf i wella cyfleusterau yn ein harbyrau wedi eu gwneud yn fwy deniadol i ddefnyddwyr. Mae pob harbwr wedi llwyddo i ddenu cwsmeriaid newydd ac wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer cychod ymwelwyr sy'n aros ar angorfeydd dros dro. Mae hyn yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn ffynhonnell incwm hanfodol ar gyfer y gwasanaeth. Mae gweithgareddau megis padyl-fyrddio a chaiaf, yn enwedig ymhlith teuluoedd, yn parhau i fod yn hynod boblogaidd o fewn dyfroedd ein harbyrau.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Pwyllgorau Harbwr: Cynhaliwyd Pwyllgorau Ymgynghorol Habyrau yn ystod mis Hydref, gan roi cyfle i'r gwasanaeth ddiweddarau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â rheolaeth yr harbyrau, yn ogystal â gwahodd sylwadau ac adborth.

Swyddfeydd: Mae'r cynlluniau a'r dyluniadau arfaethedig ar gyfer datblygiad swyddfa harbwr newydd yn Aberdyfi wedi'u cwblhau ac wedi'u cyflwyno i Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau. Yn ogystal mae gwelliannau i adeilad swyddfa harbwr Porthmadog bron wedi'u gwblhau, a fydd yn sicrhau bod gofodau addas i'r staff.



Hwyl y Harbwr: Fel rhan o ddathliadau 200 mlwyddiant harbwr Porthmadog, cynhaliwyd diwrnod o hwyl ac adloniant ar dir yr harbwr yn diweddar, a brofodd yn llwyddiannus iawn er gwaethaf y tywdd sâl.

Roedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, gyda nifer o ymatebwyr yn tynnu sylw at ba mor lân a thaclus yw'r harbyrau, ac eraill yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y swyddogion i ddiogelu ac amddiffyn cychod yn ystod y tywydd garw. Dywedodd rhai cwsmeriaid fod swyddogion y gwasanaeth wedi mynd "uwchlaw a thu hwnt" i gynorthwyo gydag symud ac angori cychod yn ddiogel, yn aml y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae sylwadau cadarnhaol am y gofal cwsmer a ddarperir gan y tîm yn ymddangos yn rheolaidd yn ein harolygon boddhad cwsmer, ac mae'n debyg mai dyma yw un o'r prif resymau ein bod wedi llwyddo i gadw ein cwsmeriaid flwyddyn ar ôl blwyddyn.



Jeti Aberdyfi: Mae YGC wedi'u comisiynu i reoli cynllun adnewyddu ac ail-wynebu jeti harbwr Aberdyfi. Rydym yn gobeithio bydd y gwaith ar y strwythur yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ariennir y cynllun drwy gyllid SPF.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gyflwyno mesurau fyddai yn gwella mwyniant a diogelwch defnyddwyr ein traethau

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Yn ystod y cyfnod diweddaraf mae'r Gwasaneth yn cynnal adolygiad blynyddoedd o trefniadau rheoli'r arfordir yn ystod prif dymor yr haf. Mae hyn yn cynnwys asesiadau mewnol yn ogystal ag adborth gan ddefnyddwyr neu sefydliadau lleol fel rhan o waith y Gwasanaeth yn paratoi ar gyfer flwyddyn nesaff.

Er engraifft, cwblhawyd 267 o holiaduron, yn dilyn ymgyrch hyrwyddo yn y cylchgrawn cymunedol 'Abersoch Life'. Dywedodd 68% o'r ymatebwyr fod eu profiad o ymweld â'r traethau naill ai yn 'Dda Iawn' neu 'Dda'.



Llygredd Olew: Yn dilyn adroddiad o lygredd olew ar draeth Promenâd, Cricieth bu i swyddogion y gwasanaeth weithredu drwy gynnal ymgyrch lanhau ar y safle. Cynhaliwyd y gwaith mewn cydweithrediad a Chyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i'r sefyllfa. Cafodd y digwyddiad gryn gyhoeddusrwydd yn y wasg.

Anifeiliaid marw: Mae'r gwyntoedd cryf diweddar wedi arwain at nifer fawr o gyrff anifeiliaid yn golchi ar hyd arfordir y sir. Mae staff y gwasanaeth yn casglu ac yn gwaredu'r gyrff cyn gynted ag sydd bosib, sy'n medru bod yn waith llafurus ac annymunol iawn. Eleni mae ein swyddogion wedi gwaredu 88 o gyrff o'r arfordir. Hefyd yn ddiweddar bu nifer o chwysigod môr olchi fyny ar yr arfordir. Er nad ydym yn eu gwaredu, rydym wedi gosod arwyddion i rybuddio'r cyhoedd o'r peryglon.



Traeth Pwllheli: Mae contractwr wedi'i benodi i ymgymryd â gwelliannau i'r mynedfeydd a'r promenâd ar draeth Marian-y-De, Pwllheli. Cynhaliodd yr adran gyfarfod a chynrychiolwyr o Gyngor Tref Pwllheli yn ddiweddar er mwyn trafod manylion y gwaith arfaethedig a chael eu barn ar y gwelliannau. Bydd y gwaith, sydd i'w ariannu gan gronfa Pethau Pwysig, Llywodraeth Cymru, yn dechrau yn yr wythnosau nesaf.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle

Pwrpas : Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: Canran o angorfeydd blynyddol yn Hafan a Harbwr Pwllheli

Trosolwg o Perfformiad:

Hyd yn hyn eleni mae angorfeydd Hafan wedi bod yn 97% yn llawn ac 86% yn yr Harbwr allanol. Nid yw hyn yn newid o 2024-25 ar gyfer yr Hafan. Ar gyfer yr harbwr allanol, er bod hyn yn edrych fel cynnydd o 10% (77% y llynedd) mewn gwirionedd, nid yw'n newid yn nifer y contractau angori. Yr hyn sydd wedi newid yw bod 5 angorfa harbwr allanol o 24-25 bellach yn anhygyrch oherwydd mwd, siltio a diffyg dŵr. Mae'r gofyniad i garthu a mwy o waddodiad yn parhau i fod y bygythiad mwyaf i'r Hafan.



Yn ystod mis Ebrill/Mai, cwblhawyd arolwg hydrograffig llawn o'r harbwr. Dangosodd canlyniadau'r arolwg hwn ddarlun amrywiol ledled y marina, Plas Heli a'r harbwr. Er bod rhai ardaloedd heb newid, mae ardaloedd sydd wedi profi gwaddodiad o hyd at 30cm. Mae hwn yn gyfradd waddodiad uwch nag unrhyw beth yr ydym wedi'i brofi o'r blaen ac nid yw'n glir pam mae hyn wedi digwydd.

Rydym yn parhau i weithio gydag YGC i baratoi ceisiadau am Drwyddedau Morol i gwblhau carthu cyfalaf a charthu cynnal a chadw. Mae'r ceisiadau i fod i gael eu cyflwyno erbyn Haf 2026.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle


Pwrpas: Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmeriaid

Trosolwg o Berfformiad:

Eleni, anfonwyd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid yn ystod mis Hydref sydd l'w cwblhau yn mis Tachwedd. Rhagwelir y bydd cyfle l'r Gwasanaeth ddadansoddi'r canlyniadau yn ystod mis Rhagfyr.

Ar ôl gwrandao ar adborth ein cwsmeriaid mae gan Hafan Pwllheli bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol bellach drwy Facebook ac Instagram. Rydym hefyd yn cynllunio ar gyfer darpariaeth lolfa cwsmeriaid allai fod ar gael ar gyfer 2026.



Mae ein cais am grant drwy Adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Rydym wedi derbyn cynnig grant o £67,688.21 ar gyfer ailosod y pontŵn pysgota masnachol a'r raciau tendr presennol. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ionawr 2026

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Doc Fictoria (Hafan a Harbwr Pwllheli)



Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle

Pwrpas: Sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn Doc Fictoria sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod y cyfleusterau yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Doc Fictoria

Trosolwg o berfformiad:



Mae Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon (YHCHT) yn parhau i reoli Doc Fictoria ar ran Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu'r holl weithrediadau o ddydd i ddydd, tra bod Cyngor Gwynedd yn cadw cyfrifoldeb am y seilwaith.

Ers gwella'r cysoni o arolwg blynyddol deiliaid cychod, nid yw Cymdeithas Deiliaid Cychod Doc Victoria (VDBHA) wedi cwblhau arolwg eleni eto. Bydd gwaith yn cael ei wneud i geisio cysoni ymhellach Arolwg blynyddol VDBHA ac Arolwg Deiliaid Cychod Hafan Pwllheli, er mwyn gwella'r broses gymharol.

Mae YHCHT wedi parhau i weithredu'r Doc ar ei gapasiti llawn a thrwy gydweithrediad ag YHCHT rydym wedi cytuno i adolygiad llawn o'r cytundeb rheoli hanesyddol gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Archifau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Lynn Francis

Pwrpas : Gwarchod Archifau'r Sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau fel bod modd i bawb ddarganfod, dysgu a deall mwy am eu hunain a'u bro.

Dangosydd Perfformiad: % defnyddwyr sy'n fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth

Trosolwg o Berfformiad:

Mesurir bodlonrwydd ein defnyddwyr drwy ofyn eu barn yn rheolaidd fel modd i adnabod sut y gallwn wella unrhyw agwedd o'r Gwasanaeth.

Rhwng misoedd Awst a Medi cwblhaodd 274 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 93% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth, 5% yn fodlon, a 2% yn anfodlon.

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn gadarnhaol, megis:

"Effeithiol dros ben"

"Staff excellent – dealt with our many requests for items"


"I have always found the archive staff to be helpful and knowledgeable"

O'r rheiny nad oedd yn fodlon roedd mwyafrif o'r sylwadau yn nodi eu hanfodlonrwydd gyda'r oriau agor :

"Ar agor mwy o ddyddiau?"

"I am so glad to have been able to visit as I have always found the office to be closed before"

Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Wladol yn sgil torladau nôl yn 2016.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a’r Celfyddydau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas


Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau: Hyrwyddo dealltwriaeth o’n hetifeddiaeth a’n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor.

Dangosydd Perfformiad: Nifer sy’n ymweld ac yn ymgysylltu ddigidol â'r Amgueddfeydd a'r Oriolau

Trosolwg o berfformiad:

- Amgueddfa Lloyd George: Ail agor Pasg 2025 sef canol Ebrill. Arddangosfa newydd yn ei le. Nawr angen buddsoddi mewn hyrwyddo. Comisiwn ar gyfer datblygu cynulleidfa a marchnata yn cael ei wireddu gyda grant Llywodraeth y DU i gynyddu ymwelwyr a chynulleidfa.
- Storiel: Yn sgil grant CELF (Oriol Gelf Gyfoes i Gymru) mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata wedi cael ei gwblhau gyda chynllun gweithredu yn ei le. Sesiynau cyflwyno hyn ar y gweill. Grant Llywodraeth y DU yn talu am swyddog i gefnogi marchnata a gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cynyddu niferoedd ymwelwyr ac ymgysylltu.
- Cyfanswm cronnos ymweliadau yn unig rhwng Ebrill –diwedd Medi yn 14,472
- Cyfanswm Cronnos ymweliadau ac ymgysylltu'n ddigidol Ebrill-diwedd Medi yn 482,726 yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel tripadvisor, instgram a google.
- Ar hyn o bryd nid yw TG yn gallu darparu gwybodaeth faint sydd wedi bod ar ein gwefan felly amcan sydd wedi ei gynnwys ar sail ffigyrau blaenorol – y Gwasanaeth yn anelu i gael gwefan newydd i'r ddwy amgueddfa erbyn 2026.

Yn ôl i’r dashfwrdd



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau: Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiol ym Mangor

Dangosydd Perfformiad : % Boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Oriolau

Trosolwg o berfformiad:

Adborth Amgueddfa Lloyd George

"This was a really well laid out museum.....came away with a much better understanding of DLG. A lot of museum's nowadays I find don't have that clear narrative thread. This means I leave them and don't feel that I 've learned a great deal. In this case I left feeling I had really learned something"

"Great visit to this super interesting museum with really good interpretation as well as the opportunity to visit Lloyd George's home. Learned so much about the man, his life and work with really thought provoking and emotive displays . Some really well displayed collections" / "Very pleasant staff on reception"

Cwyn am fethu a chael gweld y ffilm gan nad oedd digon o amser cyn cau yr Amgueddfa. Hyn yn ystod Hydref pan mae'r oriau yn cael eu cwtogi. Fel arall wedi mwynhau'r ymweliad.


Sylwadau eraill yn cyfeirio at angen rhoi sylw i elfennau cynnal a chadw ac yn trafod efo Eiddo.

Adborth Storiol

"Very good and interesting Exhibition by Iwan Bala. The main gallery is good for presenting work being light and airy and plenty of space to wonder." / Gweithdy ardderchog- hamddenol, addysgiadol a hwyl diolch i'r athro Jwls Williams a rhoddod blas i ni o argraffu lino a gelli. Staff Storiol yn groesawgar. Arddangosfa Bert Isaac yn bonus ychwanegol. Da iawn."

Sylwadau eraill yn cyfeirio at

- Angen gwella cynnig y caffï: Partner wedi ei benodi i redeg y caffï fydd yn agor dechrau'r flwyddyn.
- Angen gwella'r ardal allanol: Ffens newydd wedi ei osod gyda grant a gwaith pellach i'w wneud i'r awal. Torri coed pan y tymor yn caniatáu. Gwaith tacluso a chodi proffil ar y tu allan yn parhau.
- Canfyddiadau comisiwn Datblygu Cynulleidfa Storiol efo ystod eang o adborth yn dangos cefnogaeth a phrofiadau positif ond angen mwy o hyrwyddo ac amlygu ei proffil/ykestyn oriau agor ayyb - gwaith ar hyn am ddigwydd trwy grant Llywodraeth y DU.



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

Dangosydd Perfformiad: Nifer Benthyciadau Llyfrgelloedd Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:

- Rydym wedi gweld patrwm mwy sefydlog o ran benthyciadau ac aelodau actif dros y misoedd diwethaf gyda phrysurdeb arferol yn ystod gwyliau'r haf.
- Mae benthyciadau digidol yn parhau i gynyddu fesul mis a byddwn dros y misoedd nesaf yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo Gwasanaeth Borrowbox i ysgolion cynradd Gwynedd.
- Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod hanner tymor gan gynnwys Paentio gyda aerosols, creffttau gwyrdd ac arddangosfeydd a gweithgareddau Calan Gaeaf gan gynnwys cyflwyno Peni Pen Pwmpen yn Llyfrgell Bangor.
- Rydym wedi ail gynnu ein cynnig Croeso Cynnes ymhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd gyda chyfle i ymuno mewn gweithgareddau fel chwarae Chess, gwneud jig-so a Chôr dementia. Ar y gweill mae gennym sesiwn atgofion Jiwc Bocs mewn cydweithrediad â Dementia Actif ac rydym wedi lansio sachau atgofion sydd wedi cael derbyniad cadarnhaol gan ein partneriaid yn y maes. Byddwn yn cynnal gweithgareddau anffurfiol i oedolion, megis Paned a Paent a'r Gair tu ôl i'r Gân.
- Rydym yn parhau i ddosbarthu cardiau SIM a thalebau data i unigolion sy'n wynebu argyfwng drwy'r cynllun Databank Cenedlaethol.
- Mae ein sesiynau Cymorth Digidol 1:1 yn parhau yn sefydlog
- Byddwn yn cydweithio ar beilot Taith Tywyn, sef gwasanaeth cludiant cymunedol ardal Tywyn a fydd yn weithredol o Lyfrgell Tywyn



Yn ôl i'r dashwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans


Pwrpas: Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

Dangosydd Perfformiad:

Snapshot Gorffennaf / Awst o weithagrwc h yn Llyfrgelloedd Gwynedd						
	Cymryd rhan yn Sialens ddarllen Haf i blant	Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Haf i blant	Nifer Ymweliadau Gorffennaf / Awst	Nifer Benthyciadau Gorffennaf / Awst	Nifer Benthycwyr unigryw Gorffennaf / Awst	Nifer Benthycwyr Newydd Gorffennaf / Awst
Llyfrgell						
Bangor	100	138	9182	9014	2769	201
Caernarfon	243	212	8953	13148	3297	172
Pwllheli	156	168	4043	5138	1573	74
Dolgellau	68	119	1779	3475	838	46
Tywyn	53	41	1768	2906	751	36
Blaenau	38	15	1817	1728	467	32
Porthmadog	103	145	3868	5575	1363	20
Bethesda	11	10	821	976	309	17
Abermaw	33	27	1696	1853	553	26
Penygroes	25	9	783	1010	366	8
Bala	113	15	1410	1671	497	41
Criccieth	11	53	649	999	300	10
Nefyn	45	64	625	1020	289	13
CYFANGWM	996	1016	37394	48513	13372	696

Trosolwg o berfformiad % Bodlonrwydd Cwsmer

I gyd-fynd hefo 7fed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd byddwn yn cynnal arolwg cynhwysfawr yn ystod Mis Tachwedd 2025 gan gynnwys arolwg cyffredinol ymhob Llyfrgell yn ogystal ac arolwg penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : *Darparu lle cymdeithasol sy’n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy’r celfyddydau a diwylliant.*

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Neuadd Dwyfor

Trosolwg o Berfformiad:

Yn ystod Awst a Medi cwblhaodd 124 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 96% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda’r gwasanaeth,

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn gadarnhaol, megis:

“All ran very smoothly from buying the tickets on line to checking in and buying drinks in reception. The staff were lovely too !”

“Particularly enjoy the supper club that you put on once a month. ”


“Roedd hi'n noson wych arall, diolch!”

“roedd o’n grêt i weld sioe wahanol. Diolch am y cyfle yn ein dre.”

“Love everything about this theatre from its traditional circle to its modern foyer and fitting out, and the friendly helpfulness of the staff. Pwllheli can rightly be proud of this gem.”

Mae'r sylwadau negyddol yn aml am ddefnyddwyr eraill yn tarfu ar fwynhad trwy siarad yn ystod y ffilm, neu y tymheredd yn rhy boeth/rhy oer, diffygion cynnig bwyd a diod a diffygion yn ein offer technegol yn enwedig y system sain. Fodd bynnag, lle bo sylwadau adeiladol, rydym yn ceisio rhoi ystyriaeth iddynt, fel rhan o'n prosesau gwella perfformiad parhaus.

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio i ail sefydlu y grŵp defnyddwyr a fydd yn rhoi adborth ac awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer cynllunio rhaglenni i'r dyfodol.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Yn ôl i'r dashwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : *Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.*

Dangosydd Perfformiad: Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor

Trosolwg o Berfformiad:

Yn ystod Haf 25 gwelwyd gostyngiad yn y nifer o docynnau a werthwyd o'i gymharu a Haf 2024 yn enwedig yn ystod Mis Awst. Yn rhannol oherwydd y tywydd braf yn ystod gwyliau'r ysgol a'r arlwygo o ffilmiau wedi ei targedu at blant a rhyddhawyd dros yr haf eleni.

Yn galonogol gwelwn bod pryniant tocynnau ar ei fyny yn ystod Mis Medi gyda nosweithiau megis Taylor Fever, Al Lewis a Cabarela yn denu diddordeb a gwerthiant ymlaen llaw.



Un o'n blaenoriaethau oedd gwella amrywiaeth y rhaglen drwy gynnig mwy o ddigwyddiadau cerddorol byw, yn ychwanegol i'r cynnig ffilmiau a sioeau theatr arferol. Dengys poblogrwydd y digwyddiadau uchod bod y blaenoriaeth yma yn gweithio ac ein bod yn ymateb i batrwm ymled ein defnyddwyr.

Mae Welsh of the West End wedi ei gadarnhau ar gyfer 2 berfformiad yn 2026 yn sgil llwyddiant eu perfformiad Mai 2025.

Mae noswaith Bingo ar y gweill ar gyfer Mis Ionawr. Yma byddwn yn lansio her Bingo 21 Llyfr Llyfrgelloedd Gwynedd a chyfle i brofi poblogrwydd nosweithiau Bingo.

Mae digwyddiadau crefftau i oedolion ar brynhawn Sadwrn yn ychwanegiad newydd i'r rhaglen hefyd.

Mae'r syniadau hyn i gyd yn fodd i adnewyddu Neuadd Dwyfor ac apelio at gynulleidfaoedd hen a newydd.



Cyfanswm Cronnus Gwerthiant Tocynnau & Incwm	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr
Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2025/26	2,508	3,521	5,228	7,406	8,981	10,954	12,814	14,146	15,247			
Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau 2025/26	£11,889	£30,211	£47,586	£62,762	£82,223	£96,395	£120,786	£135,793	£148,762			
Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2024/25	1,470	3,037	4,352	6,089	7,008	8,073	10,488	13,648	14,483	15,828	17,833	20,341
Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau 2024/25	£11,588	£25,032	£37,029	£53,478	£63,711	£74,659	£93,088	£120,317	£129,029	£142,142	£159,015	£180,708

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas: Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant

Dangosydd Perfformiad: Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

Trosolwg o Berfformiad:

Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

Cesglir y data mewn arolwg blynyddol caiff ei gwblhau gan drigolion y sir trwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor. Yr arolwg yn fyw ar-lein o ddiwedd Hydref 2025 a bydd yn rhedeg tan ganol Tachwedd 2025. Cyfnod sydd yn cyd-fynd gyda amseru ymchwil tebyg a gynhaliwyd yn sirol yn 2023 a 2024.


Sylfaenir fformat yr holiadur ar fodelau ymchwil rhyngwladol i'r maes barn trigolion ar dwristiaeth ac ymchwil peilot y bu l'r Cyngor cymryd rhan ynddo trwy Croeso Cymru yn 2023.

Yn 2024 bu i 1,506 o drigolion y sir ymateb i'r arolwg ar lein ar wefan y Cyngor i ganfod barn trigolion am effaith twristiaeth ar eu hardal hwy o Wynedd. Gofynnir i'r ymatebwyr nodi yn gyffredinol os ydynt yn credu bod twristiaeth yn cael effaith bositif, negyddol neu niwtral ar eu cymuned.

I'r rhai fyddai'n nodi fod canlyniadau negyddol yn deillio o dwristiaeth yn eu hardal bydd cyfle iddynt nodi pa broblemau sydd yn codi ac i ba raddau roeddynt yn broblem.

Caiff cwestiynau penodol eu gofyn yn arolwg 2025 am y dynodiad UNESCO Llechi, Cynllun Arosfan, digwyddiadau, tai haf, yr iaith Gymraeg a'r lefi twristiaeth a bydd modd hidlo'r canlyniadau lawr i lefel yr 13 Ardal adfywio, Ardal AHNE, Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oddi fewn i Wynedd ar 6 Parth o fewn y dynodiad Llechi UNESCO.

Bydd y canlyniadau yn gyfrwng pwysig i siapio'r weledigaeth twristiaeth cynaliadwy, cynlluniau gwaith a bidiau am arian i'r dyfodol.



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas : Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant .

Dangosydd Perfformiad: Canran cynnydd mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35

Trosolwg o Berfformiad:

66 wedi arwyddo i fyny i Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 35 rhwng Ebrill - Hydref 2025. Canran cynnydd o 288% o nifer y gwaelodlin a sefydlwyd yn 2024-5.

Mae 7 egwyddor mae angen i'r busnes arwyddo i fyny iddo cyn gall busnes wneud cais i arwyddo i fyny i'r addewid:

- Cefnogi yn lleol
- Dathlu traddodiadau a diwylliant lleol
- Hyrwyddo teithio cynaliadwy
- Lleihau effeithiau amgylcheddol eich busnes
- Gwarchodwch eich cymunedau lleol
- Annog Diogelwch ein mynyddoedd ac arfordir
- Arwain ar ddiwylliant positif o gyfathrebu digidol

Trwy ymrwymo i'r Addewid hwn, bydd y busnes yn chwarae rhan bwysig wrth warchod harddwch naturiol a phwysigrwydd diwylliannol Gwynedd ac Eryri – ac yn cyfrannu at economi ymwelwyr cynaliadwy.

Mae **Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35** yn rhan o becyn o adnoddau i godi ymwybyddiaeth ac i wreiddio egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sydd yn cynnwys:

- **Modiwl Egwyddorion twristiaeth cynaliadwy Gwynedd ac Eryri** sydd wedi ei gynnwys o'r newydd ar **Platfform Cynllun Llysgennad Gwynedd ac Eryri** (471 wedi cofrestru ar y cynllun Llysgennad sirol. 240 wedi pasio tri modiwl lefel Efydd, 154 wedi pasio 6 modiwl i lefel Aur a 137 wedi pasio 9 neu fwy o fodiwlau i gyrraedd lefel Aur)
- Cod ymarfer da i'r rhai sydd yn ymweld ar ardal - **Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri 35** [Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri | Eryri](#)
- **Achrediad / Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035** [Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri | Eryri](#)
- **Buletin Gwybodaeth Gwynedd ac Eryri 35**



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMRWYMO I DALU CYFLOG BYW GO IAWN I'W GWEITHWYR AC I DDEFNYDDIO MWY O GYMRAEG

(Dangosydd o effaith darparu cymorth gan y Cyngor – mae pob busnes yn derbyn arian yn gorfod ymrwymo i dalu'r cyflog byw go iawn a defnyddio mwy o Gymraeg)




Trosolwg o berfformiad:

Mae busnes sy'n derbyn cynnig o gymorth gan y Cyngor yn gorfod ymrwymo i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at dalu'r [cyflog byw go iawn](#) (isafswm o £13.45) i'w gweithwyr. Mae 54 o fusnesau wedi ymrwymo i'n gofynion yn 2024/25.

Sicrhawyd mwy o arian i ddarparu cymorth i fusnesau dechrau'r haf ac mae cynnig o grant wedi ei ryddhau i 47 o fentrau lleol yn mis Hydref. Yn ei dro bydd y nifer yma yn ymddangos yn y dangosydd.

Mae dros cant o geisiadau am gymorth yn cael eu hasesu gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae'r nifer o fusnesau yn talu'r cyflog byw go iawn ac yn defnyddio mwy o Gymraeg yn cael ei fonitro ar ôl cwblhau'r gwaith ariannwyd gan y Cyngor.



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMGYSYLLTU

(Data rheolaethol sy'n cyfrif gwaith y Gwasanaeth yn annog busnesau i ymwneud â darpariaeth cefnogi busnes y Cyngor)

Trosolwg o Berfformiad:

Ymgysylltu yw'r cam gyntaf i sicrhau fod busnesau yn derbyn cefnogaeth ac fod y Cyngor yn deall eu anghenion. Rydym yn monitro'r nifer o fusnesau sydd yn a) derbyn ein bwletin gwybodaeth, b) dod i gyswllt unigol, neu; c) mynychu un o'n digwyddiadau.

Ar gyfartaledd mae 4.373 wedi ymgysylltu yn fisol yn ystod 2024/25. Roedd nifer uchel yn Mehefin / Gorffennaf gan fod sesiynau cymorth i darpar ymgeiswyr grant wedi eu cynnal.

Mae'r nifer o fentrau yn derbyn ein bwletin gwybodaeth yn lled sefydlog (tua 4,300) er fod trosiant cyson.


Tu hwnt i'r bwletin, mae rhaglen barhaus o ddigwyddiadau ac ymweliadau i fusnesau a mentrau cymdeithasol yn gael eu cynnal.

Un uchafwynt ar gyfer ein gweithgaredd yw Wythnos Busnes Gwynedd yn mis Hydref. Cynhaliwyd digwyddiadau gan y Cyngor ymhob rhan o Wynedd ac fe wnaeth dros 5,000 weld gwybodaeth am yr wythnos drwy law ein [cyfryngau cymdeithasol](#).

Mae [arrolwg barn blynyddol](#) y Gwasanaeth o anghenion a dymuniadau busnesau Gwynedd hefyd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

232

Wedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis. Ar gyfer 2025/26 rydym wedi cyfoethogi'r data gyflwynir drwy wahaniaethu rhwng tanysgrifwyr i'r bwletin busnes (oren golau) ac ymgysylltu drwy ddull arall (oren tywyll).



Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI DERBYN CEFNOGAETH I ARBED ARIAN A/NEU CYNYYDDU EU INCWM

(Data rheolaethol sy'n cyfrif gwaith y Gwasanaeth yn darparu cymorth ariannol neu cymorth ymarferol / hyfforddiant i fusnesau drwy law un o'n cynlluniau.)

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Cyngor yn ei darparu cymorth ariannol ac ymarferol i fusnesau er mwyn eu helpu i leihau eu costau a / neu gynyddu eu hincwm.

Ein bwriad yw cyfrannu'n gadarnhaol at gynyddu gwydnwch y busnesau da sylw (ac ymrwymo'r busnesau i dalu cyflog go-iawn i'w gweithwyr a defnyddio mwy o Gymraeg).

Mae faint o gymorth rydym yn gallu ei ddarparu yn llwyr ddibynnol ar faint o arian rydym yn ei sicrhau (o Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gan amlaf) i wireddu ein cynlluniau cymorth.

Mae'r nifer o fusnesau yn derbyn cymorth yn data rheolaethol pwysig sy'n mesur maint ymdrech y Cyngor yn y maes a'r adnodd sydd ar gael i ni.

Ar gyfer 2025/26 mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau pecyn cymorth o dros £900,000 i'n mentrau lleol gyda arian o'r SPF a'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear.

Hyd at diwedd Medi mae 79 o fusnesau wedi derbyn cymorth (66% o'r cyfnod cyffelyb yn 2024/25).

Mae'r pecyn o gymorth ar gael yn 2025/26 yn cynnwys grant cystadleuol i fusnesau cymwys. I annog a cefnogi darpar ymgeiswyr cynhaliwyd 14 sesiwn

cymorth a gwybodaeth ar draws Gwynedd i helpu darpar ymgeiswyr lunio ceisiadau addas.

Mynychwyd y sesiynau gan 181 o fusnesau, dyma detholiad o adborth:

'Mi oedd Aled Roberts yn gymorth gwych i fi-yn egluro popeth yn glir gan sicrhau fy mod yn deall beth roedd yn rhannu. Dwi'n ddiolchgar iawn iddo am ei amser a'i arbenigedd.'

'Cefais gyfarfod buddiol tu hwnt. Arweiniad adeiladol a phroffesiynol gan nodi y gwaith gofalus fydd angen imi wneud er mwyn llenwi'r ffurflen gais.'

Rwy'n teimlo fod mynychu'r sesiwn wedi bod yn amhrisiadwy i fi ac anogaf unrhyw unigolyn sy'n bwriadu llenwi'r ffurflen gais i fynychu un o'r sesiynau cyn mentro ar lenwi'r ffurflen.'

Mae ymateb busnesau lleol i'r cyfle wedi bod ymhell y tu hwnt i'r cyllid sydd ar gael; mae hyn yn dyst i dystiolaeth cadarnhaol o barodrwydd busnesau i fuddsoddi, ond mae'n anorfod bydd nifer mawr o ymgeiswyr am gymorth yn cael eu siomi.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwellu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI EU CEFNOGI I WAITH


(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion oed gwaith sydd yn economaidd anweithgar i sicrhau swydd)

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'n tîm Gwaith Gwynedd yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir am resymau megis salwch neu anabledd. Mae'r unigolion angen cymorth dwys i'w cynorthwyo i fod yn barod am waith. Llywodraeth Cymru sydd yn talu am gost y gwaith.

Hyd yn hyn eleni mae 145 o bobl lleol wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r help maent wedi ei gael gan Gwaith Gwynedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dull o weithio yn y maes. Mae Adran DWP Llywodraeth y DG hefyd yn newid eu ffordd o weithio ac yn edrych i ddatganoli arian i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.



Tud. 234

Amod: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos i ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI CYNYDDU EU GALLU I ENNILL CYFLOG DA

(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion mewn gwaith gael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swydd gwell neu datrys problem yn nhw rhag cynyddu eu oriau)


Trosolwg o Berfformiad:

Mae trigolion sy'n gweithio llai na'r hyn allent yn nodwedd o'r farchnad llafur yn y sir. Mae hefyd llawer o drigolion sydd ddim ennill cyflog sy'n ddigon i gyfarch eu anghenion.

Mae'r Cyngor wedi ymestyn sgôp Gwaith Gwynedd i gynnwys help i drigolion sydd eisoes yn gweithio oresgyn problem sy'n eu hatal rhag gweithio mwy o oriau neu gael y sgiliau sydd eu hangen i gael swydd sy'n talu'n well.

O ganlyniad i lwyddiant y gwaith mae adnoddau pellach i barhau ein gweithgaredd yn y maes pwysig yma wedi ei sicrhau.

Mae 46 o bobl Gwynedd gyda gwell gallu i ennill cyflog da o ganlyniad i gefnogaeth y Gwasanaeth hyd yn hyn eleni. Roedd yn gychwyn yr haf cyn derbyn cadarnhad o gyllid o'r SPF o ganlyniad roedd gostyngiad yn ein gweithgaredd ar gychwyn y flwyddyn



Tud. 235

Afiedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Eysyllt Rhys Jones


Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am dargedu cefnogaeth ariannol o ffynonellau ariannu amrywiol (gan gynnwys Llywodraeth Prydain, Llywodraeth Cymru, y loteri ac eraill). Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddod a swyddogion/partneriaid allweddol at eu gilydd i ddatblygu a ffurfio unrhyw gynllun. Mae'r mesurydd yma yn seiliedig ar y llythyrau cynnig a dderbynnir gan ffrwd cyllido sydd yn golygu fod modd symud o wedd datblygol i wedd gweithredu a'r gallu gan y Gwasanaeth i ddilyn camau Rheoli Prosiect yn ffurfiol. Mae'r symiau a gaiff eu sicrhau yn flynyddol yn amrywio ac yn ddibynnol ar gyllidwyr a rhaglenni adfywio cyrff allanol.

Yn ôl i'r dashfwrdd



Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:

- Diogelu cyllid o Gronfa Trawsnewid Trefi i weithredu cynllun Peilot Eiddo Gwag Bangor gyda'r bwriad o gydweithio gyda perchnogion 5 eiddo gwag yn y ddinas.
- Cwblhau cynllun uwchraddio Aelwyd yr Urdd, Blaenau Ffestiniog fel rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi a chefnogi cynlluniau partneriaid allanol eraill.
- Gweithredu trawstoriad o gynlluniau isadeiledd canol trefi o dan waith Llechi Cymru gan gynnwys arwyddion a chelf.
- Gweithredu trawstoriad o gynlluniau gaiff eu hariannu drwy gronfeydd megis Trawsnewid Trefi, Pethau Pwysig, Cronfa Treftadaeth y Loteri ynghyd a Chronfa Ffyniant Gyffredin sydd yn cynnwys gweinyddu Cronfa I Gyngorau Tref a Chymuned.



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Esyllt Rhys Jones


Yn ôl i'r dashfwrdd

Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Uwchraddio ac Adnewyddu Adeiladau Gwag

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am osod yr isadeiledd er mwyn symbylu twf economaidd ac adfywio canol trefi Gwynedd. Mae uwchraddio a dod ac adeiladau gwag, rhai yn adeiladau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir o amser, yn ôl i ddefnydd yn gosod yr isadeiledd ar gyfer adfywio a thwf economaidd.



Unedau gwag yn dod yn ôl i ddefnydd

- Gwaith o gydlynu'r Grŵp Eiddo Gwag trawsadrannol, adnabod ymyraethau a chefnogaeth, a symud ymlaen i ymateb i'r Cynllun Gweithredu wedi datblygu yn sylweddol;
- Cais am gyllid hyd at £1M gan Lywodraeth Cymru i wireddu rhai o gynlluniau Peilot Bangor wedi bod yn llwyddiannus.
- Cefnogaeth i 2 eiddo mewn canol trefi i ddod yn ôl i ddefnydd drwy gefnogaeth, grantiau a benthychiadau.



Cefnogi cynlluniau i adnewyddu adeiladau

- Gwella delwedd 1 adeilad yng nghanol trefi Gwynedd drwy gefnogaeth ariannol Trawsnewid Trefi.



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis


Pwrpas : Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau .

Dangosydd Perfformiad: Nifer y grwpiau sydd wedi cael cyngor neu gefnogaeth

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r gwaith o sicrhau bod prosiectau Cronfa Cefnogi Adfywio yn cwblhau o fewn amserlen yn parhau, yn ogystal a phrosiectau sydd wedi eu cymeradwyo o Gronfa Cefnogi Cymunedau – cyfanswm o 33 prosiect.

Dwyfor: 4		
Menter y Twr		£38,202.30
Neuadd Pentrefelin		£30,720.00
Y Ganolfan, Porthmadog		£94,545.72
Menter Rabar		£58,991.00
		£222,459.02
Arfon: 6		
Pwyllgor Pentra Deiniolen		£100,000.00
Theatr Bara Caws		£30,000.00
Antur Nantlle Cyf		£65,000.00
Partneriaeth Ogwen		£80,000.00
Llety Arall		£44,577.00
Nantporth CIC		£25,000.00
		£344,577.00
Meirionnydd: 6		
Neuadd Bentref Llanfachreth	£10,482.00	
Meithrinfa Seren Bach	£90,000.00	
Deudraeth Cyf	£21,686.00	
Clwb Hoci Dysynni	£20,000.00	
Clwb Rygbi Bro Ffestiniog	£60,000.00	
Cwmni Pum Plwyf Penllyn Cyf	£23,712.50	
	£225,880.50	



Mae'r cylch o gyfarfodydd rhwydweithiau Ardal Ni wedi eu cynnal ym Meirionnydd a'r cynlluniau gweithredu ardal wedi eu diweddarau mewn cydweithrediad a grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned a Thref.

Mae Cist Gwynedd, y porth grantiau cymunedol wedi dyrannu gwerth £144,870, o grantiau yn ychwanegol i £900,000 SPF.

Cynlluniau Croeso Cynnes – 21 yn Arfon, 16 yn Dwyfor, 13 yn Meirionnydd.

Cynlluniau Bwyd – 19 yn Arfon, 7 yn Dwyfor, 14 yn Meirionnydd

Mae'r Gwasanaeth yn rheoli a gweithredu prosiect Gwydnwch Cymunedol, SPF sydd yn gosod seiliau cydweithio cryf yn ein cymunedau gyda phartneriaid yn y 3ydd sector. Mae gwaith adolygu y Rhwydwaith o bartneriaid Hybiau Cymunedol yn mynd rhagddo gan adnabod lle a sut gellir dod a Llyfrgelloedd yn rhan o'r model.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis

Pwrpas: Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau


Dangosydd Perfformiad: Nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu

Neuadd Gyhoeddus Trawsfynydd

Cafodd y pentref gymorth gan raglen Dyfodol Gwledig ers 2020 i ddatblygu gweithgareddau cymunedol. Methodd cais am £120,000 yn 2024 i benodi staff newydd, felly bu'r Swyddog Cefnogi Cymunedau a'r pwyllgor yn adolygu data lleol ac anghenion y gymuned, gan ganolbwyntio ar dlodi. Defnyddiwyd matrices o angen a chanlyniadau i lunio naratif cryfach ar gyfer cais newydd, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2024. Llwyddodd y cais hwn i sicrhau £150,000 o gyllid, a mynegodd y pwyllgor eu diolch am y cymorth a gafwyd.



Diolch yn fawr iawn i ti- mae ein dyled yn fawr i ti fel Pwyllgor am dy gefnogaeth hael a diflinio. Yn sicr, heb hwnnw fyddwn ni heb dderbyn yr arian.'



Cynlluniau Trafnidiaeth Cymunedol Cynaliadwy

Bala – Rydym wedi cefnogi Cwmni Pum Plwy Penllyn yn y Bala i ddatblygu cynllun Trafnidiaeth Cymunedol wedi ei selio ar fodel cynaliadwy. Gyda chefnogaeth y gwasanaeth, mae'r cwmni wedi llwyddo i gael cymeradwyaeth £150,000 gan Gronfa Pawb a'i Le, Loteri Genedlaethol i gychwyn y cynllun. Bydd y Swyddog Cefnogi Cymunedau yn parhau i gefnogi'r cynllun yn y camau sefydlu.

Tywyn – Rydym yn cefnogi grŵp cydweithredol lleol gyda'r gwaith o sefydlu cynllun Trafnidiaeth Cymunedol Cynaliadwy lleol yn Nhywyn. Rydym wedi hwyluso trafodaeth a threfniadau cydweithio gyda Llyfrgell Tywyn er mwyn symud y cynllun ymlaen. Y gobaith yw lansio mis Ionawr.



Yn ôl i'r dashfwrdd



Adran Economi a Chymuned

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones a Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Holl reolwyr yr adran

Pwrpas: Sicrhau fod staff yr adran yn cwblhau hyfforddiant mandadol 'Diogleu' a 'VAWDASV' yn unol a'u cytundeb cyflogaeth

Mesurydd Perfformiad: Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol Diogelu a VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol)



CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	11 Rhagfyr 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran
AWDUR	Dewi Morgan, Pennaeth yr Adran Gyllid
AELOD CABINET	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Cyllid, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Cyllid. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran am y cyfnod i ddiwedd Hydref 2025.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Hydref 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill y llynedd. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

3 Rhesymeg a chyfiawnhad

3.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae'r Adran Gyllid yn arwain ar ddau o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024-2025, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y ddau flaenoriaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026 yn Atodiad 1.

Mae'r angen i ddarganfod a gweithredu arbedion ariannol ar draws y Cyngor yn parhau os am barhau i osod cyllideb gytbwys yn y dyfodol ac i gadw cynnydd blynyddol Treth Cyngor i lefel rhesymol. Rwyf yn fodlon fod gwaith yr Adran Gyllid yn y maes hwn yn effeithiol, ond mae heriau yn parhau i sicrhau gweithrediad llwyddiannus ym mhob rhan o'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Digidol yn cynnwys nifer o brosiectau er mwyn gwella gweithrediad y Cyngor ac i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae mwyafrif y prosiectau hyn yn rhai sydd i'w gweithredu dros sawl blwyddyn ariannol ac ar y cyfan rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y prosiectau hyn.

3.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau ar draws yr Adran. Mae'r adroddiad manwl yn Atodiad 2 yn cynnwys data ar y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n darparu rhagor o fanylion am berfformiad yr holl feysydd hyd at Hydref 2025.

Fe welir yn Atodiad 2 bod 27 mesur sydd yn adlewyrchiad o wasanaethau/cyfrifoldeb yr Adran (mae'r teils glas yn arddangos data rheolaethol yn hytrach na mesurau perfformiad). Mae 2 o'r rhain yn newydd ers y cyflwyniad i'r Pwyllgor ym Mehefin 2025, sef staff sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelu a staff sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Cam-drin Domestig.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac mae 23 o'r mesurau (85%) yn ymddangos yn wyrdd, sy'n gadarnhad o'r gwaith da a nodir yn erbyn perfformiad y gwasanaethau. Mae dau fesur (7.5%) wedi eu cofnodi yn ambr ac yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau sydd ynghlwm a'r broses herio. Mae dau fesur pellach wedi ei gofnodi yn y coch, sy'n destun pryder. Mae'r Adran yn diweddarau'r mesurau yn rheolaidd gan adolygu os oes angen cyflwyno mesur o'r newydd er adlewyrchu unrhyw newid o fewn unrhyw wasanaeth. Tynnir sylw at y mesurau coch ac ambr isod.

Gwasanaeth Incwm (un mesur coch)

Mae balans gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed fel ar ddiwedd Hydref 2025 yn £3,184,411. Roedd hyn yn gynnydd o £1,377,158 er diwedd y mis blaenorol, gyda £1.2m o'r cynnydd yma yn perthyn i'r Bwrdd Iechyd a chyngor arall. Roedd dyled y cyngor arall yn ganlyniad i gamgymeriad gweinyddol o fewn Cyngor Gwynedd lle roedd yr adran berthnasol wedi nodi'r rhif archeb anghywir ar yr anfoneb ond mae'r sefyllfa yma bellach wedi ei ddatrys a'r dyledion wedi eu talu. Yn ôl yr arfer y categori uchaf nesaf o ddyledion yw anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal sef £903,077. Mae'r gwasanaeth Oedolion yn parhau mewn trafodaethau gyda'r Bwrdd ac felly gobeithir y bydd dyled y Bwrdd yn gostwng o ganlyniad i hyn.

Fel adroddais i gyfarfod mis Mehefin, mae'r adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa'r hen ddyledion ynghyd â phrosesau gweithredu yr Uned yn parhau gyda chefnogaeth

Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd. Mae'r gwaith wedi adnabod rhai meysydd ble gellir lliflinio agweddau gweithredu yr Uned, e.e. awtomeiddio prosesau a'r nod yw sefydlu trefniadau mwy effeithiol i leihau'r ôl-ddyledion. Mae tipyn o ffordd i fynd gyda'r gwaith yma ond rwyf yn hyderus bydd canlyniadau positif i'r gwaith yma.

Gwasanaeth Trethi (un mesur coch ac un mesur ambr)

Maes arall sy'n destun adolygiad Ffordd Gwynedd cynhwysfawr yw'r Gwasanaeth Trethi, a dyma'r gwasanaeth lle mae'r un mesur coch arall lle mae pryder am y perfformiad, yn ogystal â mesur ambr. Mae'r cyfraddau casglu ar gyfer Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig yn is nag y maent wedi bod yn hanesyddol ac mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill Cymru.

Erbyn diwedd Hydref 2025 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 63.17%, o'i gymharu â 63.55% yn 2024/25 a 66.42% yn 2019/20 (sef y flwyddyn olaf cyn y pandemig).

Cyflwynwyd adroddiad penodol ar "Cyfraddau Casglu Treth Cyngor" i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025. Rydym yn parhau i weithio ar ddata rheolaethol gyda'r gobaith o allu adnabod meysydd sydd angen sylw a'u blaenoriaethu wrth symud ymlaen. Mae dolen i'r papurau i'w cael yma (eitem 10): Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Dydd Iau, 13eg Tachwedd, 2025, 10.00 y.b.

Yn yr un modd, Erbyn diwedd Hydref 2025 roedd casgliad Ardrethi Annomestig (h.y. casgliad o fewn blwyddyn) yn 60.84% o'i gymharu â 64.76% ar gyfer 2024/25. Mae gweithwyr asiantaeth allanol wedi eu cyflogi dros-dro i weithio ar yr ôl-groniad gwaith, ac mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi mewn lle i gryfhau ein trefniadau adennill.

Gwasanaeth Taliadau (un mesur ambr)

Yn Hydref 2025, proseswyd anfonebau lleol i'w talu mewn 20 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd 27 diwrnod. O fewn y dyddiau yma, mae'r Uned Taliadau wedi cymryd 3 diwrnod i brosesu'r anfonebau, sydd yn welliant o'r 6.5 diwrnod ar gyfartaledd yn 2023/24 a blynyddoedd blaenorol. Mae'r teils yn dangos yn ambr gan fod y gwasanaeth yn credu fod lle i wella ymhellach.

4. Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Cyhoeddwyd adroddiad **Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd** yn Hydref 2024. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Ionawr 2025 ar y cyd ag adroddiad 'Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol' sef asesiad Archwilio Cymru o'r sefyllfa genedlaethol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad: *"Gwelsom gyfyngiadau yn ymagwedd strategol y Cyngor i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor weithredu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol tymor canolig ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau."*

Cymeradwyodd y Pwyllgor ymateb y rheolwyr, oedd yn cynnwys ystyried adroddiad pellach oedd wedi cael ei gomisiynu gan CIPFA ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Mae'r adroddiad ddrafft wedi cael ei dderbyn ac mae swyddogion yr Adran Gyllid yn gweithio trwy'r adroddiad ar hyn o bryd.

Cyhoeddwyd adroddiad **Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn – Cyngor Gwynedd** ym Medi 2025.

Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Medi 2025. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad: *"Er mwyn sicrhau bod ei gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau presennol drwy fabwysiadu strategaeth cronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys meini prawf i benderfynu pryd a sut y dylid sefydlu a blaenoriaethu cronfeydd wrth gefn a dull cymesur i gefnogi'r rhesymeg y tu ôl i'r symiau a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn."*

Cymeradwyodd y Pwyllgor ymateb y rheolwyr, oedd yn nodi byddwn yn datblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn sydd yn ymgorffori'r materion hyn yn ogystal â materion perthnasol eraill a hynny erbyn 31 Mawrth 2026.

Cyhoeddwyd adroddiad "ISA260" – **Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon** – gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2025 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25. Cyhoeddwyd barn diamod ar y cyfrifon ac nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion.

5. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Gyllid ar 20 Hydref 2025, gyda'r Aelod Cabinet, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a rheolwyr gwasanaeth yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3 – Diweddariad Tachwedd 2025

Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Cyllid	Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	1. Monitro fod yr arbedion a thoriadau gwerth £3,463.390 ar gyfer 2025/26, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 06/03/25, ynghyd ag unrhyw arbedion sydd eto ar ôl i'w gwireddu yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol Atodiad 3 - Arbedion a Thoriadau	1. Arbedion gwerth £45.8 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16. Y wybodaeth ddiweddaraf wedi ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 09/10/25 ac i'r Cabinet 11/11/25.	1 Ydi
		2. Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.	2 Yn ystod y flwyddyn rydym yn monitro gan adrodd ar y perfformiad i Cabinet 11/11/25 a 20/01/26 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 09/10/25 a 15/01/26.	2 Ydi

		3. Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion a thoriadau y Cyngor ac i ystyried y cynlluniau sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu. 4. Adrodd i Gabinet 14 Hydref 2025 ac 20 Ionawr 2026 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 Hydref 2025 ac 15 Ionawr 2026 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. 5. Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar effeithlonrwydd a ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.	3 Oherwydd galwadau eraill ni fu i gyfarfodydd hanner cyntaf y flwyddyn gael eu cynnal, ond mae bwriad cynnal cyn diwedd y flwyddyn. 4 Wedi adrodd ar sefyllfa Diwedd Awst i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 Hydref 2025 ac i'r Cabinet 11 Tachwedd 2025. 5 Yn dilyn sefydlu y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fel rhan o waith i'r Bwrdd, mae'r Adran Gyllid yn darparu gwybodaeth ar arbedion a thoriadau 2025/26.	3 Ydi 4 Ydi 5 Ydi
Cyllid	Cynllun Digidol	Mae'r cynlluniau isod unai yn hunan-gyllidol oddi ar adnoddau sydd gan y Cyngor yn barod, neu wedi derbyn cefnogaeth lawn i'w rhoi ar waith yn ystod y ddwy flynedd nesaf: Dyma'r prosiectau a roddir ar waith yn 2025/26: CC3 – ail ddylunio gwefan corfforaethol y Cyngor • Cytuno ar ddyluniad • Datblygu a phrofi'r newidiadau • Cyflwyno'r dyluniad newydd yn fyw	Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei gwblhau mewn ffurf drafft a wedi ei rannu am ail gyfres o adborth yn ogystal a derbyn sylw gan ddylunydd yr Awdurdod. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr. • Dyluniad wedi ei gwblhau • Y newidiadau wedi eu profi • Mae gwaith datblygu pellach ar waith er mwyn ei gyflwyno fel "Beta" a derbyn adborth gan y cyhoedd.	Ydi Ydi

		CC2 – gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor - Ymarferiad caffael wedi'i gwblhau yn barod a'r gwaith wedi cychwyn ar beiriannu datrysiadau - Rheolwr prosiect yn ei lle - Swydd 'Arweinydd Gweithredol Llais' i'w llenwi yn Ch1 - Datrysiad Canolfan Gyswllt i fynd yn fyw yn Ch1 - Pawb wedi mudo i'r ddarpariaeth newydd erbyn diwedd Ch2	- Swydd "Arweinydd Gweithredol Llais" wedi ei llenwi - Y Ganolfan Gyswllt yn fyw ac yn gwbl weithredol ar y datrysiad newydd - Pawb wedi eu mudo i'r datrysiad newydd.	Ydi
		GCB1 – cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaeth a rheolaidd - Datrysiadau ar gyfer dadansoddi cynnwys dogfennau ac e-byst wedi'u cyflwyno yn barod ar gyfer yr Adran Addysg - Asesiad addasrwydd Copilot i'w gynnal yn ystod Ch1 a Ch2 cyn bod modd cyflwyno'r dechnoleg yn llawn - Ymchwil papur am gyfleon eraill i gyflwyno datrysiadau DA	- Copilot yn cael ei dreialu gan lond llaw o swyddogion - Trafodaethau pellach wedi eu cynnal i greu cyfres o "Astudiaethau Achos" i werthuso'r buddion a risgiau o gyflwyno DA ac ym mhle yn y Cyngor - Bydd gweithdai gyda darparwr allanol yn cael eu cynnal i greu'r "Astudiaethau Achos" - Byddwn yn ail-ymweld a'r angen i gyflwyno adnodd dynodedig yn dilyn arferiad creu yr "Astudiaethau Achos".	Ydi (ond mi fydd DA yn sefydlu ei hun fel ymdrech barhaus)
		GSB5 – adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad Adolygiad wedi'i gynnal yn barod a bydd achos busnes ar gyfer cyflwyno system Cyflogau/Adnoddau Dynol yn mynd rhagddo yn Ch1	Cabinet y Cyngor wedi cymeradwyo cais i neilltuo arian o'r gronfa trawsnewid ar gyfer cyllido'r prosiect	Na, mi fydd y gwaith o sefydlu'r system yn parhau hyd Chwarter 3 2026/27.

		- Gwaith o gyflwyno'r datrysiad newydd i gychwyn Ch3 ac i barhau hyd diwedd 2026/27 - Adolygiad o systemau ariannol i barhau	- Wedi partneru gyda cwmni caffael arbenigol i ffurfio manyleb anghenion - Cystadleuaeth wedi ei gyflwyno drwy fframwaith arbenigol - Dau ymateb wedi ei dderbyn a'r ymatebion yn cael eu gwerthuso - Yr ymarferiad gwerthuso i'w gwblhau erbyn diwedd Tachwedd - Darparwr llwyddiannus i'w gadarnhau erbyn canol Rhagfyr.	
		GWYD2- parhad gwasanaeth - Swyddog cadernid seibr newydd wedi'i ychwanegu i'r tîm yn 2024/25 - Sefydlu cynllun ymateb i ddigwyddiad - Profi'r cynllun ymateb i ddigwyddiad - Sefydlu grwpiau cadernid seibr ac ymateb i ddigwyddiad seibr yn Ch2 - Creu adroddiad blynyddol ar wytnwch ein gwasanaethau	- Grwpiau llywodraethu cadernid ac ymateb i ddigwyddiad seibr wedi eu sefydlu - Ail-ymweld a'r syniad o gyflwyno dau grwp a'r Bwrdd Digidol wedi cytuno bod sefydlu un grwp seibr yn fwy synhwyrol er budd osgoi dryswch a dyblygu tasgau - Y gwaith o greu'r cynllun ymateb i wreiddio gan y grwpiau llywodraethu - Cyfrifoldeb am y Fframwaith Asesiad Seibr (FfAS) i'w berchnogi gan y grwp	Na – mi fydd hwn yn waith parhaol.

			• Rheolwr prosiect wedi ei ddynodi ar gyfer hwyluso'r gwaith o sefydlu'r FfAS • Adroddiad blynyddol i'w baratoi yn dilyn aeddfedrwydd y cynlluniau ymateb.	
		GSB7 – gwneud y defnydd gorau o'r llwyfan Microsoft365 • Cynnal asesiad addasrwydd Copilot i fesur parodrwydd isadeiledd ac iechyd ein data/cynnwys i gyflwyno deallusrwydd artiffisial ar raddfa eang • Effaith o ddefnydd y pecynnau o safbwynt technegol a llywodraethu gwybodaeth • Gweinyddu'n defnydd o'r llwyfan gan leihau byrdwn costau'r llwyfan • Rhoi'r tîm estynedig ar waith i ddefnyddio'r llwyfan i'w lawn botensial • Dadansoddi effaith yr ymarferiad • Paratoi achos busnes ar gyfer cefnogaeth barhaol	• Swyddog llywodraethu gwybodaeth wedi cychwyn ar y gwaith o asesu effaith y cynnyrch o safbwynt rheoli gwybodaeth • Cytundeb 3 mlynedd newydd wedi ei gytuno gyda Microsoft a wedi llwyddo i symud 285 swyddog i drwyddedau (rhatach) addysgol • Cefnogaeth uniongyrchol gyda Microsoft wedi ei dreialu am flwyddyn a parhad o'r gefnogaeth yn destun bid cefnogaeth ariannol barhaol o 2026/27 ymlaen.	Na – mae gwaith yn parhau ar y prosiect hwn.
		GWYD1 – uwchraddio llinellau analog i ddigidol • Mae'r dasg yma'n parhau gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud yn 2024/25 • Blaenoriaethu'r adnodd canolog i gario ymlaen gyda gwaith sydd wedi'i gyflawni'n barod (Cam 1) i adnabod cysylltiadau analog sydd angen eu huwchraddio • Symud y prosiect i Cam 2, gan adnabod pa gysylltiadau sydd angen parhau a threfnu i ddiffodd y cysylltiadau nad oes eu hangen	• Arbedion sylweddol wedi eu gwireddu drwy ddiffodd cysylltiadau hanesyddol sydd ddim yn cael eu defnyddio • Mae casgliad o gysylltiadau nad oes modd i'r tîm prosiect ddod i gasgliad arnynt wedi eu cyflwyno i'r adrannau am weithrediad pellach.	Ydi

		• Adnabod technoleg amgen ar gyfer y gwasanaethau sydd angen parhau • Cydweithio â'r adrannau fel eu bod yn perchnogi'r tasgau a chost o fudo i'r ddarpariaeth newydd		
		GWYD3 – uwchraddio darpariaeth darlledu yn siambrau'r Cyngor • Gwelliannau i ddarpariaeth darlledu gweledol yn Siambr Dafydd Orwig a Hywel Dda • Cyflwyno darpariaeth fideo gynadleddau newydd i ystafell seminar newydd yn y Pencadlys • Gwneud man addasiadau i ddiffygion llais yn yr ystafelloedd cyfarfod eraill • Cyflwyno offer fideo gynadleddau addas ar gyfer ystafelloedd cyfarfod adrannol	• Mae sgriniau arddangos newydd wedi eu cyflwyno yn Siambr Hywel Dda • Mae'r Gwasanaeth Democrataidd yn cydweithio a'r darparwr gyflawnodd SHDd er mwyn adnabod yr ymdrech a'r costau i ddiwygio darpariaeth darlledu yn llawn yn SHDd a Siambr Dafydd Orwig – bydd hwn yn cael ei gyflwyno fel bid • Nifer o ystafelloedd gyfarfod adrannol wedi eu darparu gyda offer cyfarfodydd hybrid • Wedi cytundebu gyda cwmni allanol i sefydlu darpariaeth cynadleddau yn yr ystafell gyfarfod newydd – mae'r cwmni'n cydlynnu'r gwaith gyda'r adeiladwyr, ond y gwaith wedi llusgo yn ddiweddar tra bod penderfyniad ar ddyluniad yr ystafell yn cael ei wneud.	Ydi
		GD2 – Siartr Data • Is-grŵp data i greu siarter data GD4 – llwyfan adrodd ar ddata	• Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo gyda cwmni Basis	Na.

		- Dehongli'r anghenion - Adolygu'r opsiynau sydd ar gael - Caffael datrysiad fel peilot Mesur effaith y peilot a pharatoi achos busnes ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth GD6 – adrodd ar berfformiad - Is-grŵp data i gydweithio â'r Tîm Rheoli Corfforaethol i greu argymhellion i wella adroddiadau adrodd ar berfformiad	Swyddogion trawsadrannol wedi eu cynnwys yn yr ymarferiad.	
		GWEI1 – cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog - Cynnal gweithdai i adnabod yr anghenion - Asesu anghenion ar gyfer pob swyddog, gweithwyr achlysurol a gwirfoddolwyr - Paratoi achos busnes ar gyfer denu cefnogaeth ariannol	Mae'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau ac achos busnes wedi ei gyflwyno fel bid ar gyfer gwireddu'r prosiect yn ystod 2026/27.	Ydi – mae'r cymal cyntaf o gyflwyno'r achos busnes wedi ei gwblhau ac os yn llwyddiannus bydd y gwaith o'i sefydlu yn cychwyn yn y flwyddyn nesaf.
		GSB6 – rhyngwrwyd y pethau - Cais am arian SPF wedi'i gyflwyno i gyflogi adnodd dros dro am flwyddyn i ymchwilio i ddatrysiadau a chreu ystod o ddadansoddiadau achos ar gyfer ei ddefnydd - Paratoi achos busnes ar gyfer adnoddau parhaol - Cydweithio â'r Bwrdd Digidol yn Uchelgais Gogledd Cymru i gyflwyno rhwydwaith rhyngwrwyd y pethau yn rhanbarth y gogledd (LoRaWAN)	- Cais am arian SPF wedi bod yn llwyddiannus - Ymarferiad caffael wedi ei gynnal i ddenu darparwr addas - Darparwr wedi ei benodi a'r cyfres agoriadol o weithdai wedi eu cynnal gyda swyddogion o'r maes Gofal a'r meysydd Hinsawdd ac Amgylchedd - Rhestr fer o brosiectau wedi eu cyflwyno ac am eu trafod ym mhellach mewn gweithdai dilynol	Ydi.

			• Rhestr terfynol o'r prosiectau fydd yn cael eu dyrchafu i "Astudiaethau Achos" i'w penderfynu wedi'r gweithdai dilynol • Achosion busnes wedi eu cyflwyno i Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer ymestyn y rhwydwaith rhyngrwyd y pethau ac i gyflwyno 70 synhwyrdd pellach ar finiau ysbwriel cyhoeddus.	
		GWE14 – hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol • Cyflogi 'Hyfforddai Trawsnewid Digidol'	• Aflwyddiannus fu ein ymdrechion i benodi "Hyfforddai Trawsnewid Digidol" • Byddwn yn ail ymdrechu flwyddyn nesaf, ond mae'n rhaid edrych ar ein gofynion a rheoli ein disgwyliadau • Er y siom o feth penodi hyfforddai, mae prentis gradd peirianeg meddalwedd newydd wedi ei benodi ar gyfer Ymgynghoriaeth Gwynedd ac wedi ei leoli gyda'r Tîm Datblygu • Mae rhaglen waith pellach o weithgareddau i ymgysylltu â'r ysgolion yn cael ei gyflwyno drwy'r Is-grŵp Gweithlu.	Na

Adroddiad Perfformiad Mesurau Adran Gyllid

Cyfnod:

- **Hydref 2025**

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r
hyfforddiant Diogelu

98.7%

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r
hyfforddiant Cam-drin
Domestig

97.8%

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodau i brosesu cais budd-
dal

16.99

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodau i brosesu hysbysiad
newid mewn amgylchiadau

5.05

Gwasanaeth Cyflogau

Achosion wedi arwain at
addasiadau pellach yn y cyflog

Medi: 30
Hydref: 12

Gwasanaeth Cyflogau

Gwybodaeth statudol ar amser

100%

TG (i gyd) Medi / Hydref '25

Nifer ceisiadau wedi cofnodi
gan TG

4252

TG (i gyd) Medi / Hydref '25

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu

4184

TG (i gyd) Ebrill-Awst '25

Nifer o alwadau wedi ei
ddiwallu oddi fewn **Wythnos**

83%

TG (i gyd) Ebrill-Awst '25

Nifer o alwadau wedi ei ddiwallu
oddi fewn **1 diwrnod**

63%

Desg Gwasanaeth Medi / Hydref '25

Galwadau wedi ei ddiwallu oddi
fewn 1 diwrnod

63%

TG (i gyd) Medi / Hydref '25

Bodlonrwydd: Canran hapus
neu hapus iawn. Awgrymu
holiadur i POB defnyddiwr TG.

100%

TG (Isadeiledd)

Nifer digwyddiadau seibr

0

TG (Isadeiledd)

Nifer toriad gwasanaeth difrifol

0

TG (Isadeiledd)

Argaeledd Rhwydwaith Craidd

99.99%

TG (Datblygu)

Nifer datganwyd bodlonrwydd

100%

TG (Datblygu)

Galwadau o fethiant (gwiriadau)

10% ↓ 1%

TG (Gwasanaeth Dysgu Digidol)

Bodlonrwydd
Gwasanaeth



Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd heb eu
hamddiffyn yn llwyddiannus
(Uned Yswiriant)

0

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd heb eu
hamddiffyn yn llwyddiannus
(Yswiriwr)

0

Gwasanaeth Incwm

Gwerth dyledion
amrywiol > 6 mis oed

£3,184,411

Gwasanaeth Pensiynau

Parhau i gyfrifo a thalu buddion ymddeol yn brydlon



Gwasanaeth Pensiynau

Fy Mhensiwn Ar-lein – cynnydd mewn aelodaeth ac ymweliadau



Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Cronfa Bensiwn – gwerth asedau wedi cynyddu i

£3.3bn

Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Cronfa Bensiwn - dychweliadau'r rheolwyr yn uwch na'r meincnod

0.0%

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynllun blynyddol wedi ei gwblhau (2025/26)

34%

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynghorau cymuned wedi derbyn archwiliad

71

Gwasanaeth Trethi

Cyfradd casglu Treth Cyngor y flwyddyn gyfredol

63.17%

Gwasanaeth Trethi

Cyfradd casglu Ardrethi Annomestig y flwyddyn gyfredol

60.84%

Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Cyfrifon Terfynol amrywiol 2024/25 yn dilyn archwiliad wedi eu cwblhau yn amserol a'u hadrodd i bwyllgor



Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Cyllideb 2026/27 – Gwaith manwl ar y gyllideb wrthi'n cael ei weithredu



Gwasanaeth Taliadau

Nifer o ddyddiau cyfartalog i brosesu anfonebau lleol i'w talu

20

Gwasanaeth Taliadau


Nifer o ddyddiau cyfartalog i brosesu anfonebau nad ydynt yn lleol i'w talu

27

Hyfforddiant Mandadol

Trosolwg o berfformiad:

Ar sail y data ddiweddaraf, mae 3 aelod o staff heb gwblhau'r hyfforddiant Diogelu, a 5 heb gwblhau'r hyfforddiant Cam-drin Domestig. Mae neges bersonol wedi ei anfon i bawb sydd ddim wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu a Cham-drin Domestig yn mynnu fod y cwrs yn cael ei gwblhau – mae rhai o'r swyddogion yn newydd i'r Cyngor yn yr wythnosau diwethaf.



Yn ôl i'r
dashfwrdd

Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

Pwrpas gwasanaeth: Yw i brosesu ceisiadau Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, Budd-daliadau Addysg, sef Cinio am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion, Taliadau Tai Dewisol yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Trosolwg o berfformiad Hydref : Mae cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd ar gyfer mis Hydref yn **16.99** diwrnod sy'n dangos gwellhad pan yn cymharu efo'r un cyfnod yn 2024/25, sef **22.20**.

Proseswyd **218** o geisiadau newydd ym mis Hydref.

Ar gyfartaledd, mae'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau yn ystod mis Hydref yn **5.05** diwrnod.

Mae hyn yn dangos gwelliant pan yn ei gymharu yn erbyn yr un cyfnod yn 2024/25, sef **6.34**.

Proseswyd **1,739** asesiad newid mewn amgylchiadau yn ystod mis Hydref.

Yn ogystal i'r uchod derbyniwyd y data canlynol drwy drefniadau rhannu gwybodaeth electroneg efo'r Adran Waith a Phensiynau :



ATLAS (Automated Transfer to Local Authority Systems) : Hydref – **1,911**

UCDS (Universal Credit Data Share) : Hydref– **6,129**

VEP (Verify Earnings and Pensions) : Hydref – **22**

Yn ôl i'r
dashfwrdd

Tud. 259



Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

Gwerth ariannol i drigolion Gwynedd yn y flwyddyn ariannol gyfredol :

Budd-dal Tai :

Mae yna **2,664** o ddinasyddion Gwynedd yn derbyn Budd-dal Tai gennym ar hyn o bryd gyda gwerth ariannol o **£9,385,522.13**.

Gostyngiad Treth Cyngor :

Yn ogystal i'r uchod, mae yna **8,283** o ddinasyddion Gwynedd yn derbyn Gostyngiad Treth Cyngor ar hyn o bryd gyda gwerth ariannol o **£11,675,747.76**.

Taliadau Tai Dewisol :

Hefyd, mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo **953** o deuluoedd gyda gwerth ariannol o **£304,449.18** o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP) hyd yma, ac wedi cytuno i dalu **£239,709.68** ychwanegol o rŵan i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gwneud cyfanswm o **£544,158.86**.

Mae'r arian yma'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Cinio am Ddim :

Mae'r Gwasanaeth Budd-dal hefyd yn gyfrifol am asesu hawliadau am Ginio am Ddim a hyd yma mae **2,771** o blant Gwynedd yn gymwys.

Grant Hanfodion Ysgol :

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau yn prosesu hawliadau Grant Hanfodion Ysgol a hyd yma wedi asesu gwerth ariannol o **£274,425** i **2,091** o blant.

Gwasanaeth Cyflogau

Rheolwr Gwasanaeth – Martin Morris

Pwrpas gwasanaeth: I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEF (HMRC).


Trosolwg o berfformiad:

Codiadau cyflog am y flwyddyn 2025/26, yn weithredol o 1af Fedi 2025, wedi eu weithredu fel rhan o cyflogresi mis Hydref ar gyfer swyddogion sydd wedi eu cyflogi ar telerau gwaith athrawon, gan gynnwys unrhyw ôl-dâl oedd yn ddyledus.

Oddeutu 94 o eitemau wedi eu derbyn fel rhan o cyflogresi Medi ond yn perthyn i cyfnodau gynharach, gyda 142 o eitemau tebyg wedi eu derbyn fel rhan o cyflogresi mis Hydref, gyda'r mwyafrif o rhai Hydref yn deillio o'r ysgolion.

Gwaith cychwynol wedi ei wneud ar rhai elfennau o'r system gyfredol er mwyn tacluso'r wybodaeth yn barod at mudo i'r system cyflogau / AD newydd, unwaith bydd hwnnw wedi ei ddewis.

Holl taliadau a wybodaeth statudol i cyrff allanol wedi eu yrru yn amserol ac o fewn unrhyw terfyn amser briodol.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth TG – Cefnogol – Rheolwr Gwasanaeth – Bryn Goodman Jones

Pwrpas gwasanaeth: Cydweithio a'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

Trosolwg o Berfformiad: Misoedd Ebrill '25 - Awst '25


Yn ôl i'r
dashfwrdd

Galwadau Ffôn i'r Ddesg Gymorth.

- Galwadau ffon wedi ei dderbyn: **2609**
- Canran wedi eu ateb: **87%**

Ceisiadau am gymorth Technegol

- Cyfanswm ceisiadau TG wedi cofnodi: **4252**
- Cyfanswm ceisiadau TG ar e-byst : **2386 (56%)**
- Cyfanswm ceisiadau TG agor a cau yn y cyfnod: **3945**
- Ceisiadau wedi cwblhau (TG i gyd): **4184**
 - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos**: **3464 (83%)**
 - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr**: **2608 (63%)**
- Ceisiadau wedi cwblhau (Desg Gymorth yn unig) **2631**
 - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos**: **2311 (83%)**
 - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr**: **1831 (63%)**
- Newidiadau Technegol**
 - Newidiadau technegol isadeiledd wedi eu greu: **202**
 - Newidiadau technegol isadeiledd wedi cwblhau: **178**



- Gwaith diweddarau POB cyfrifiadur dan reolaeth y Cyngor i Windows 11 wedi ei gwblhau. Hyn i sicrhau diogelwch a cydymffurfiad Ychydig yn llai na 3000 wedi ei uwchraddio neu adnewyddu. Hyn i weld wedi amharu ar gyflymder cau galwadau'r Desg Gwasanaeth. Nifer o alwadau yn cael eu derbyn ar y ffôn, e-bost a galw fewn i'm gweld hefyd wedi cynyddu, fel arfer i ymwneud a'r gwaith uwchraddio. Ystadegau yn parhau i fod yn dderbyniol o safbwynt cyflymder a safon.

Gwasanaeth TG - Isadeiledd

Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Jones

Pwrpas gwasanaeth: Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

Trosolwg o Berfformiad:

Ystadegau'r cyfnod

Ystadegau cofnodir drwy'r Ddesg Gymorth. Wrth i alwad gael ei gau, mae pob defnyddiwr sydd wedi logio'r alwad yna yn cael y cynnig i adael adborth. Mae Newidiadau (cymhleth) yn gofnod mewnol o newidiadau gall effeithio system/gweinyddwr/rhwydwaith, ac felly sawl defnyddiwr. Rhan amlaf, cofnod gan ein defnyddwyr mewnol yw rhain a ddim yn cynnwys adborth.

	Wedi'w Logio	Wedi'w Gau	Yn Parhau	Adborth	
				Nifer	Cyfartaledd
Galwadau	841**	803	157	13*	5
Newidiadau	153	142	33		

*nifer wedi ymateb yn 1.62%

**Cynnydd yn y nifer o alwadau mae'r tîm wedi ei dderbyn yn y cyfnod yma, oherwydd prosiect mudo telefoni.

*** Argaeledd

Medi: Uwchraddio systemau mewngofnodi o bell yn arddangos yn yr ystadegau (ond dim effaith ar wasanaethau gan fod y system wedi ei adeiladu yn wydn)
Hydref: Rhwydwaith Craidd – methiant yn linc Ffordd y Cob – BT wedi newid caledwedd heb rybydd, ar ddiwrnod ac amser anghywir! (Camau ychwanegol mewn lle fel nad yw hyn yn digwydd eto)
Systemau – Hyn oherwydd gwaith cynnal a chadw gan y tîm rhwydwaith ar y prif rhwydwaith (hyn rhwng 22:00 ac 01:00, ond systemau yn parhau ar gael yn y cyfnod)

Ystadegau Diogelwch

	<u>Ymosodiadau</u> <u>wedi eu blocio</u>	<u>Ebyst</u> <u>Gelyniaethus</u> <u>wedi eu blocio</u>	<u>Rhybuddion</u> <u>GwrthFirws</u> <u>(wedi eu</u> <u>blocio)</u>	<u>Cofnodion</u> <u>CymruSOC</u>
Medi 2025	49049		17	2
Hydref 2025	58398	64368	18	5

Prosiectau (l'w Nodi):

- Gwaith i uwchraddio'r Rhwydwaith Craidd ar waith. Cam nesaf fydd newid y caledwedd yn y Canolfannau Data, ac yn uwchraddio'r prif linc rhwydwaith i Gaernarfon (ar y cyd efo BT/PSBA)
- Isadeiledd Gweinyddwyr Rhithiol wedi ei uwchraddio dros gyfnod o 2 ddiwrnod ym mis Hydref (heb effeithio systemau o gwbl)
- Polisi Diweddarau Meddalwedd wedi ei ryddhau (ar gael drwy'r porth Digidol ar y Mewnrwyd)
- System Ffôn – Bydd y prosiect yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd Tachwedd (dros 175000 o alwadau ffôn drwy'r system mis Hydref)
 - 1621 o Staff wedi derbyn y meddalwedd newydd (tua 50 ar ôl)
 - 1473 o ddyfeisiadau (ffonau) wedi eu gosod mewn Canolfannau lle'r angen (e.e. Ysgolion). (tua 60 ar ôl)
 - Hwn nawr yn cael ei ymestyn i leoliadau ychwanegol i'r prosiect gwreiddiol (e.e. Cartrefi Preswyl)
 - Sawl Canolfan Gyswllt a Ciwiau newydd wedi sefydlu yn llwyddiannus
- Dim digwyddiadau/risgiau seibrddiogelwch angen ei esgoli

Argaeledd***	Medi 2025	Hydref 2025
Rhwydwaith Craidd	100.00%	99.98%
Systemau Critigol	99.99%	99.93%

Gwasanaeth TG - Datblygu

Yn ôl i'r dashfwrdd

Rheolwyr Gwasanaeth – Elfyn Evans, Rhodri Fretwell

Pwrpas gwasanaeth: Cydweithio â'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

Datblygu - prosiectau sydd yn galluogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â rhoi budd uniongyrchol i bobol Gwynedd.

Cwblhawyd	Derbyniwyd	Ar waith	Aros am sylw
12	2	43	42

Adborth bodlonrwydd - Drwy adlewyrchu ar brosiectau a gwrando ar yr adborth gan ein cwsmeriaid, rydym yn parhau i ddysgu a gwella.

'A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?'

Hapus	Hapus ond lle i wella	Dim yn hapus
4	0	0


Cyfleoedd i wella - Dim i'w nodi yn y cyfnod yma

Cynnal a chadw – ymateb i alwadau am gymorth gan ein cwsmeriaid / cynnal a chadw ein systemau

- Galwadau o werth (90%):** gwelliannau i systemau, yn ogystal â rhoi cymorth technegol / arbenigol i ddefnyddwyr.
- Galwadau o fethiant (10%):** cwsmeriaid yn cael trafferthion cyflawni yr hyn maent angen ei wneud neu adrodd diffygion mewn system.
- 12 o'r galwadau a gwblhawyd yn y cyfnod wedi derbyn adborth 5* (Medi a Hydref)**
- 798 ceisiadau ir Ddesg Gymorth yn ystod cyfnod 25/26**

Prosiectau o ddiddordeb


- Gosod synwryddion biniau gwastraff stryd
- Cyfnod peilot system Iechyd a Diogelwch
- Sefydlu system sgriniau gwybodaeth derbynfa Pencadlys
- Deallusrwydd artiffisial - Categorioidio/Awtomeiddio Ymholiadau Cyffredinol
- G-Werthu / Hwb hysbys



Rheolwr Gwasanaeth: Gwenan Pritchard

Galwadau

Galwadau GDD ers Medi 2023

Pub. 265

Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Varney

Pwrpas gwasanaeth: Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau.

Trosolwg o berfformiad:


Fel mae'r achos wedi bod ers peth amser bellach mae materion yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae rhai o'r prif heriau diweddaraf yn cynnwys:

- Amserlen tyn iawn wrth fynd allan i dendr am sawl agwedd o warchodaeth Yswiriant y Cyngor
- Cymhlethdod hawliadau yn parhau i gynyddu. Hyn yn golygu rhagor o waith, amser a sylw ei angen gan yr Uned Yswiriant er mwyn gallu gwneud penderfyniad dilys ar atebolrwydd.
- Yr hyn sydd ei angen fel gwybodaeth gan ein broceriaid ac ein hyswirwyr wedi cynyddu, sy'n golygu rhagor o waith tyrchu ac holi gan yr Uned Yswiriant
- Datblygaeth yn yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud yn golygu heriau pellach I'r gwasanaeth yma o ran adrodd a sicrhau bod mesurau pellach mewn lle

Er gwaethaf yr heriau yma, mae modd cyfeirio at ambell llwyddiant, megis:

- Yr eisiau i gyflawni a llwyddo yn parhau i fod yn uchel iawn, yn ogystal â teimlad cryf o fod yn rhan o dîm yn yr Uned

Nifer o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus
Heb eu Hamddiffyn yn Llwyddiannus



Nifer o Hawliadau Newydd ac Hawliadau Wedi Cau Fesul Mis



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Incwm

Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams

Pwrpas gwasanaeth: Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra’n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu’n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

Trosolwg o berfformiad:

Perfformiad yr Uned Incwm ar gyfer mis Hydref 2025

- Gwerth dyledion amrywiol > 6 mis oed.

Mae’r cyfanswm wedi cynyddu yn sylweddol iawn ers y cyfarfod adrodd perfformiad blaenorol ar yr 25ain o Fedi 2025. Mae’r balans fel ar ddiwedd Hydref 2025 yn £3,184,411 sef cynnydd o £1,377,158. Mae £1.2m o’r cynnydd yma yn perthyn i’r Bwrdd Iechyd a chyngor arall. Ymddengys nad yw’r cyngor arall wedi talu 4 anfoneb gwerth £334K oherwydd bod trafferthion gyda rhifau archeb ar yr anfonebau ond mae’r Gwasanaeth bellach wedi derbyn cadarnhad y byddent yn cael eu talu yn fuan . Mae trefniadau ar waith i geisio datrys y broblem gyda dyfynnu rhifau archeb oherwydd nid yw sustemau ariannol llawer o endidau yn caniatáu taliadau heb rifau archeb dilys erbyn hyn. Yn ogystal mae ymholiadau wedi eu gwneud gyda’r Bwrdd Iechyd am y rhesymau paham nad yw gwerth £885K o anfonebau heb eu talu. Yn ôl yr arfer y categori uchaf nesaf o ddyledion yw anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal sef £903,077. Os yn eithrio dyledion y Bwrdd Iechyd mae’r cyfanswm yn gostwng i £1,812,558. Mae’r gwasanaeth Oedolion yn parhau mewn trafodaethau gyda’r Bwrdd ac felly gobeithir y bydd dyled y Bwrdd yn gostwng o ganlyniad i hyn.

Yn ôl yr arfer bwriedir targedu y dyledion hynny sydd ddim yn perthyn i’r Bwrdd Iechyd i geisio lleihau’r ffigwr.

- Cyfradd casglu dyledion o fewn y mis.

Mae’r perfformiad ar gyfer y misoedd yn dilyn y cyfarfod perfformiad diwethaf fel a ganlyn :-

o Medi 2025 65.40%

o Hydref 2025 80.88%

o Cyfartaledd dros y cyfnod 73.14% y mis.


Erbyn y 7ed o Dachwedd 2025 mae 86.35% o’r anfonebau a godwyd yn Medi 2025 wedi eu talu.

- Mae’r adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa’r hen ddyledion ynghyd a phrosesau gweithredu yr Uned yn parhau ac mae meysydd ble gellir lliflinio agweddau gweithredu yr Uned wedi eu hadnabod, e.e. awtomeiddio prosesau a’r nod yw sefydlu trefniadau mwy effeithiol i leihau’r ôl-ddyledion. Cynhelir yr adolygiad ar y cyd gyda Ymgynghorydd Ffordd.
- Mae trafodaethau i ymdrin a’r gwyn swyddogol drwy law “Comisiynydd Pobl Hyn Cymru” yn parhau.
- Erbyn cyfarfod diwethaf mae newidiadau wedi bod yn lefel staffio’r Uned . Gobeithir y bydd y penodiadau yma yn cyfrannu at ostwng lefel y dyledion.

Yn ôl i’r
dashfwrdd

Gwasanaeth Incwm Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams

Gwerth Dyledion Amrywiol > 6 mis Oed fel ar 31 Hydref 2025



Gwasanaeth Pensiynau

Rheolwr Gwasanaeth – Meirion Jones

Pwrpas y gwasanaeth: Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.



Trosolwg o berfformiad:

Mesurau	Medi 2025	Hydref 2025	Cyfartaledd 2024/25
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif.	1	0.9	0.88 (2618 achos)
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth.	0.9	0.6	0.74 (1001 achos)
Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun.	3.4	1	4.02 (419 achos)




Arolwg Boddhad Aelodau:

Mae Arolwg Boddhad Aelodau yn cael ei anfon ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau er mwyn i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff y gwasanaeth. Dyma grynodedb Ebrill – Medi 2025 (58 wedi cymryd rhan yn yr arolwg):



Fy Mhensiwn Ar-lein:

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol. Ers uwchraddio'r system yn Ebrill 2024 mae'n rhaid i bob aelod ail gofrestru ar gyfer y safle newydd. Gwelir o'r graff fod oeddeutu 8,500 wedi cofrestru ar y system yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym wedi cael adborth positif iawn i'r safle newydd, gydag aelodau yn mwynhau'r ychwanegiadau newydd i'r system e.e. datganiad fideo personol a chynllunydd ymddeol.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Rheolwr Gwasanaeth – Delyth Wyn Jones-Thomas

- **Pwrpas y gwasanaeth:** Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol; Buddsoddi llif arian y Cyngor yn ddiogel, gyda llog derbyniol; Rheoli benthyciadau hir-dymor.
- **Trosolwg o berfformiad:**
- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Mae newidiadau ar y gweill i drefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol Cymru a Lloegr, ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydweithio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn cyfarch y datblygiadau yma. Bydd Cymru yn aros fel un pŵl gan greu cwmni buddsoddi newydd erbyn diwedd Mawrth 2026.
- Mae archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau ar y 24ain o Dachwedd 2025. Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Gronfa yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod, a disgwylir i gyflogwyr, swyddogion a aelodau'r pwyllgor a bwrdd fynychu.



Perfformiad Chwarterol (diwedd Mehefin 2025)

Ceir perfformiad chwarterol yn hafal i'r meincnod. Dychwelodd y Gronfa 2.7% dros y chwarter gyda asedau y gronfa yn cynyddu £95.4 miliwn i £3.3 biliwn.

Perfformiodd y Gronfa'n gryf ymhob categori ased gyda buddsoddiadau ecwiti byd-eang a incwm yn perfformio'n dda iawn.

Rheolaeth Trysorlys y Cyngor – Mae nifer o ddangosyddion yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a mae'r perfformiad y cyfnod i 30ain o Fedi 2025 isod:

Dangosydd	wedi cydymffurfio
Meincnod Ymrwymadau	✓
Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau	✓
Datguddiad Hylifedd	✓
Datguddiad Diogelwch	✓
Cyfradd Llog cyfartalog	4.16%

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rheolwr Gwasanaeth – Luned F Jones

Pwrpas gwasanaeth: Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Trosolwg o berfformiad:

Mae 47 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio 2025/26. Mae 16 o'r aseiniadau hyn wedi eu cwblhau erbyn 31 Hydref 2025, sy'n cynrychioli 34% o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu terfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno.

Mae diffinio, mesur a chyfathrebu gwerth ychwanegol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn her ganolog i'r proffesiwn ac i'w randdeiliaid. Mae hyn yn allweddol oherwydd ni ellir priodoli'n gyfan gwbwl gwerth Archwilio Mewnol drwy nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd, nifer camau gweithredu ayb. Mae'n hanfodol bwysig edrych ar y llun yn gyflawn, drwy ystyried yr amrywiol wasanaethau a ddarperir gan Archwilio Mewnol megis gwaith ymgynghorol, darparu cyngor a chynnal archwiliadau arbennig.

Gwasanaeth Trethi

Rheolwr Gwasanaeth – E Bleddyn Jones

Pwrpas gwasanaeth: Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion.


Trosolwg o berfformiad:

Treth Cyngor

Erbyn diwedd Hydref 2025 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 63.17%, o'i gymharu â 63.55% yn 2024/25 a 66.42% yn 2019/20. Yn ychwanegol, rydym wedi dadansoddi'r cyfraddau casglu o 63.17% ymhellach i ddarganfod effaith cyfrifon premiwm ar y cyfraddau casglu, a oedd yn rhoi cyfraddau o 62.28% (cyfrifon yn cynnwys premiwm ail gartrefi), 54.03% (cyfrifon yn cynnwys premiwm treth cyngor) a 63.86% (cyfrifon heb premiwm). Mae'r unedau hunan gynhaliol nad oedd yn cyrraedd y meini prawf o 182 diwrnod ar gyfer eu cynnwys ar y rhestr ardrethi annomestig yn parhau yn broblem sylweddol, gyda 395 o eiddo wedi trosglwyddo i fand Treth Cyngor ers mis Ebrill o'i gymharu â 134 achos yn ystod yr un cyfnod llynedd. Yn 2024/25, trosglwyddwyd 692 eiddo, gyda 558 ohonynt wedi trosglwyddo yn ystod ail hanner o'r flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar "Cyfraddau Casglu Treth Cyngor" i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025. Rydym yn parhau i weithio ar ddata rheolaethol gyda'r gobaith o allu adnabod meysydd sydd angen sylw a'u blaenoriaethu wrth symud ymlaen.

Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf bod y nifer ebyst, er eu bod wedi lleihau o 3,500 i 900 ar un cyfnod, bod 1,600 o ebyst angen eu hateb ar ddiwedd mis Awst a hynny oherwydd nodiadau atgoffa, gwysion ac absenoldebau staff. Rydym yn falch o gallu adrodd erbyn hyn bod yr ebyst i lawr i 185 gyda'r neges hynaf sydd yn disgwyl sylw ddim ond yn 10 diwrnod oed. Gwelir hefyd yn y tabl bod y niferoedd galwadau ffôn wedi lleihau ac o ganlyniad mae canran y galwadau a atebwyd wedi cynyddu i 78% o'i gymharu â 63.9% yn ystod y cyfnod diwethaf. Rydym yn parhau i ymchwilio i ddulliau electroneg gyda'r gobaith o wella effeithlonrwydd a'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid.

Cyfraddau Casglu Treth Cyngor (o fewn y flwyddyn)




Cyfnod	Nifer galwadau	Nifer atebwyd	% o alwadau a atebwyd
19/08/24 – 18/11/24	12,029	8,732	72.6
19/11/24 – 18/02/25	11,849	8,239	69.5
19/02/25 – 13/05/25	11,600	10,713	92.4
01/07/25 - 16/09/25	8,428	5,383	63.9
17/09/25 - 11/11/25	4,714	3,675	78.0

Gwasanaeth Trethi

Ardrethi Annomestig

Erbyn diwedd Hydref 2025 roedd casgliad Ardrethi Annomestig (h.y. casgliad o fewn blwyddyn) yn 60.84% o'i gymharu â 64.76% ar gyfer 2024/25. Mae gweithwyr asiantaeth allanol wedi eu cyflogi dros-dro i weithio ar yr ôl-groniad gwaith, ac mae adolygiad ar y gweill a camau yn cael eu rhoi mewn lle i gryfhau ein trefniadau adennill. Mae nodiadau atgoffa wedi eu rhyddhau yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn a'r achosion cyntaf yn cael eu cyflwyno i'r Llys ar 26 Tachwedd 2025.



Ardaloedd Gwella Busnes

Mae'r cwmni gorfodaeth wrthi'n casglu dyledion hanesyddol, ac yn ystod y cyfnod yma hefyd, mae gwysion pellach wedi eu rhyddhau i'r trethdalwyr gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r Llys Ynadon am orchmynion dyled ar 26 Tachwedd 2025.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion Madog Evans

Pwrpas y gwasanaeth: Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Trosolwg o Berfformiad:

- Adroddwyd ar sefyllfa Adolygiad Diwedd Awst, gyda throsolwg o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn cael ei adrodd i'r Tim Arweinyddiaeth 21/10/2025, yna adroddiadau o ran yr ochr refeniw, arbedion a chyfalaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9/10/25 a 13/11/25, ac i'r Cabinet 11/11/2025.
- Llwyddwyd i gwblhau Cyfrifon terfynol gyda barn diamod yn dilyn archwiliad ar gyfer Gwynedd, GwE a'r Harbyrau 2024/25 yn amserol. Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Archwilwyr yn amserol cyn diwedd Mehefin ac yn dilyn archwiliad trylwyr a chyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyfrifwyr ac Archwilio Cymru, bu i'r archwiliadau gael eu cwblhau Mae'r cyfrifon amodol ar archwiliad wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mai a Medi, tra fod y cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad wedi eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 13 Tachwedd 2025.
- Y gwaith ar gwblhau dychweliad yn seiliedig ar y cyfrifon terfynol 'Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan' wrthi'n cael ei gwblhau.
- Y Cyfrifwyr wedi bod yn cwblhau gwaith manwl ar y gyllideb 2026/27 gan gynnwys cyflogau, chwyddiant ac arbedion a chyd-gordio'r bidiau.
- Gwaith wedi bod yn cael ei wneud ac wrthi'n cael ei wneud gan y Cyfrifwyr ar ochr ariannol i gyd-weithio efo'r Penaethiaid Adrannau a Rheolwyr ar fidiau ac hefyd ar adnabod cynlluniau Arbedion 2026/27.

Yn ôl i'r dashfwrdd


Gwasanaeth Taliadau

Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion M Evans; Rheolwr Gwasanaeth – Rhodri Shorney

Pwrpas gwasanaeth: Talu credydwy'r y Cyngor yn gywir ac yn amserol

Trosolwg o Berfformiad:

- Yn Hydref 2025, proseswyd anfonebau lleol i'w talu mewn 20 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd 27 diwrnod, o fewn y dyddiau yma, yr Uned Taliadau wedi cymryd 3 diwrnod i brosesu'r anfonebau, sydd yn welliant o'r 6.5 diwrnod ar gyfartaledd yn 23/24 a chynt. Mae'r Uned Taliadau yn cynnwys 7 aelod o staff.
- 90% o anfonebau lleol wedi eu talu o fewn 30 diwrnod, gyda'r gyfradd ar gyfer talu yr anfonebau nad ydynt yn lleol yn 87%.
- Mae 100% o daliadau wedi eu talu trwy BACS ym mis Hydref. Yr ymgyrch i symud mwy i BACS wedi ei gwblhau ac yn golygu ein bod wedi gallu symud i ffwrdd yn llwyr o dalu efo sieciau.
- Gwaith wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf i geisio moderneiddio a gwella effeithlonrwydd a hybu mwy o adrannau i yrru gwybodaeth yn electroneg er mwyn lleihau dyblygiad, fydd yn ei dro yn golygu y bydd modd prosesu yr anfonebau penodol hynny yn gynt.



Yn ôl i'r
dashfwrdd